Senedd Cymru
**Pwyllgorau'r Senedd**

# Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE

Medi 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/pwyllgorau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgorau'r Senedd**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgorau'r Senedd**

# Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE

Medi 2025

Bu'r pwyllgorau canlynol yn gweithio gyda'i gilydd i lunio'r adroddiad hwn:

- Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
- Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
- Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn: **senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Gareth Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**Lee Waters AS**
Llafur Cymru

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn: **senedd.cymru/SeneddEconomi**

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

**Roedd Hefin David AS yn Aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn, ac yn drist iawn bu farw ar 12 Awst 2025.**



**Hefin David AS**
Llafur Cymru

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Janet Finch-Saunders AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru



**Joyce Watson AS**
Llafur Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**senedd.cymru/SeneddDCC**

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeiryddion** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **6**

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol .......... 6

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig .......... 7

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith .......... 9

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad .......... 10

**Cyflwyniad** .......... **13**

Cylch gorchwyl .......... 13

Cefndir .......... 14

Themâu cyffredin .......... 15

**1. Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol** .......... **17**

Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE .......... 17

Sut y caiff Cymru ei chynrychioli mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE .......... 23

Diwylliant a llenyddiaeth .......... 26

Cymryd rhan yn rhaglenni'r UE .......... 32

Digonolrwydd data'r UE .......... 36

**2. Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig** .......... **38**

Materion traws-sector .......... 38

Cytundeb iechydol a ffytoiechydol .......... 46

Symudedd gweithwyr a darparu gwasanaethau .......... 52

Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol .......... 54

Molysgiaid dwygragennog byw .......... 56

Rheolau tarddiad ........ 58

Lles anifeiliaid ........ 60

Alinio a dargyfeirio ........ 61

Digonolrwydd data'r UE ........ 65

**3. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ........ 66**

Bwlch llywodraethiant amgylcheddol Cymru ........ 66

Alinio ac ymwahanu ........ 69

Masnachu allyriadau a threthi carbon ar draws ffiniau ........ 70

Trefniadau masnachu trydan effeithiol ........ 73

Molysgiaid dwygragennog byw ac ansawdd dŵr ........ 75

**4. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ........ 78**

Y dirwedd rhwng y DU a'r UE ........ 78

Cwmpas yr adolygiad a blaenoriaethau'r llywodraeth ........ 80

Cynrychiolaeth Cymru yng nghysylltiadau â'r UE ........ 84

Gweithredu ........ 89

Cyfranogiad rhanddeiliaid ........ 92

Alinio ac ymwahanu ........ 96

Digonolrwydd data'r UE ........ 101

**Atodiad 1 Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ........ 103**

**Atodiad 2 Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ........ 104**

Gwybodaeth ychwanegol ........ 105

# Rhagair y Cadeiryddion

Dyma'r adroddiad cyntaf o'i fath ar gyfer y Senedd. Nid yw pedwar pwyllgor erioed wedi cyhoeddi adroddiad ar y cyd fel y gwnawn nawr.

Ond mae'r adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn llawer mwy nag adolygiad o weithrediad cytuniad. Mae'n gyfle i bwyso a mesur y cytundeb mwyaf pellgyrhaeddol rhwng y Deyrnas Unedig (DU) a'r Undeb Ewropeaidd (UE) - i bwyso a mesur ei effeithiau bywyd go iawn ac i nodi atebion ymarferol i wneud y gorau o'i gyfleoedd a lleihau problemau a nodir ar lawr gwlad.

Er mai dim ond Llywodraeth y DU a gaiff gwblhau cytuniadau cyfreithiol rwymol ar ran y pedair gwlad, mae cytundebau rhwng y DU a'r UE fel y Cytundeb Ymadael rhwng yr UE a'r DU a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys meysydd cyfrifoldeb datganoledig pwysig y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt. Y cenhedloedd datganoledig sy'n gyfrifol am yr economi, pysgodfeydd, iechyd y cyhoedd, bioddiogelwch, a'r amgylchedd.

Mae pob un o'n pwyllgorau wedi dilyn effeithiau ymadawiad y DU â'r UE yn agos ers 2021. Rydym yn ddiolchgar i'r sefydliadau, y busnesau a'r unigolion sydd wedi rhannu eu profiadau â ni dro ar ôl tro. Mae eu parodrwydd i rannu eu profiadau personol, a oedd yn estyn y tu hwnt i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu i drefniadau eraill ar ôl Brexit, wedi bod yn amhrisiadwy wrth ddod i gasgliadau'r adroddiad hwn.

Ac er bod ein pwyllgorau wedi mynd i'r afael â'r gwaith hwn o'u safbwyntiau eu hunain, nid oedd modd i ni osgoi'r ffaith y daeth themâu cyffredin i'r amlwg a oedd y tu hwnt i'n pwyllgorau unigol: - themâu megis sut y mae lleisiau'r cenhedloedd datganoledig yn cael eu clywed a'u deall mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE a phwysigrwydd ein llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol.

Dylai goruchwyliaeth seneddol ddemocrataidd fod yn fater sy'n agos at galonnau pob un ohonom. Byddwn bob amser yn eirioli dros rôl gref i'r Senedd lle y gwneir penderfyniadau canlyniadol fel y rhai a grybwyllir yn yr adroddiad hwn.

Wrth i'n trafodaethau ddod i ben, cyhoeddodd y DU a'r UE gytundeb newydd, sef Common Understanding, sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer rhagor o gydweithrediad mewn rhai meysydd. Rydym yn ystyried ei gynlluniau yn ein hadroddiad.

# Argymhellion

## Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu a diweddaru blaenoriaethau'r UE yn rheolaidd, gan fonitro datblygiadau'n agos ar gyfer eu heffaith bosibl ar Gymru. ........ Tudalen 23

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio i gryfhau ei pherthnasoedd â sefydliadau'r UE er mwyn hyrwyddo buddiannau Cymru a chael mewnwelediad dyfnach i safbwynt yr UE a datblygu Strategaeth bwrpasol yr UE. ........ Tudalen 23

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, gadarnhau a yw'n:

- mynd ar drywydd hawliau cyfranogiad llawn mewn cyfarfodydd rhwng y DU a'r UE lle y mae ganddi statws sylwedydd.
- gofyn am fynd i gyfarfodydd rhwng y DU a'r UE sydd y tu allan i fframwaith sefydliadol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

........ Tudalen 26

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei blaenoriaethau o ran adolygiad i adlewyrchu ei safbwynt datganedig, a amlinellwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet mewn ymateb i'r adroddiad sioc ddiwylliannol, o lwyr gefnogi argymhelliad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar gyfer datrysiad cynhwysfawr ar gyfer artistiaid teithiol, sy'n cwmpasu symudiad pobl a nwyddau. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud sylwadau i'r DU a'r UE i sicrhau bod mater artistiaid teithiol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Dylai hyn gynnwys galw ar y DU a'r UE i fynegi cynlluniau ar gyfer gwelliannau. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr gynhwysfawr o raglenni'r UE yr hoffai gymryd rhan ynddynt a nodi i ba raddau y mae cytundeb rhwng pedair llywodraeth y DU ar gyfranogiad. ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei dealltwriaeth o ran pam na chytunwyd ar gysylltiad y DU â rhaglenni ychwanegol yr UE, gan gynnwys Ewrop Greadigol, yn y 'Common Understanding', ac a yw Llywodraeth y DU yn dal i fynd ar drywydd cysylltiad â rhaglenni eraill. ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a oes angen newidiadau i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu i hwyluso cyfranogiad y DU yn rhaglenni ychwanegol yr UE. ........................................ Tudalen 36

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw wedi cyfrifo cost cymryd rhan yn Erasmus+ ac Ewrop Greadigol drwy ddefnyddio'r fformiwla a nodwyd yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu neu a yw wedi bod yn rhan o ymarfer ar y cyd ledled y DU i wneud hynny........................................ Tudalen 36

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru lunio dogfen safbwyntiau ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn unol â'i dull o ran cytundebau masnach rhyngwladol eraill fel mater o frys........................................ Tudalen 45

## Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r pwyllgorau ar y graddau y mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer yr adolygiad o weithrediad yn alinio o ran masnach a beth yw'r goblygiadau i Gymru. Lle nad yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cyd-fynd, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn cefnogi'r sectorau yr effeithir arnynt. ........................................ Tudalen 46

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i alw ar y DU a'r UE i flaenoriaethu camau ymarferol i fynd i'r afael â gwrthdaro wrth fasnachu a dylai roi'r diweddariadau chwarterol i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd yn y meysydd a restrir yn y bennod hon........................................ Tudalen 46

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Lywodraeth Cymru godi camau ymarferol i fynd i'r afael â rhwystrau masnach mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol. Dylai ddarparu adroddiadau manwl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd yn ei datganiadau ysgrifenedig a'i hysbysiadau cyfarfodydd. ...... Tudalen 46

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei chymorth busnes i sectorau'n cael ei deilwra i adlewyrchu'r effeithiau y mae'r driniaeth wahanol o nwyddau a gwasanaethau yn eu cael ar gwmnïau a sectorau........................ Tudalen 46

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a allai'r 'Common Understanding' ei gwneud yn ofynnol i ailnegodi cytundebau masnach y tu allan i'r UE. ........................................ Tudalen 51

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod sefyllfa unigryw Cymru o ran y llif masnach ar ôl Brexit yn cael ei hystyried mewn

trafodaethau â Llywodraeth y DU ar gytundeb iechydol a ffytoiechydol rhwng y DU a'r UE. ........ Tudalen 51

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru ganfod ei rôl yn y mecanwaith ymgynghori cynnar â'r UE fel rhan o gytundeb iechydol a ffytoiechydol a hysbysu'r pwyllgorau cyn gynted â phosibl. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu goblygiadau cytundeb iechydol a ffytoiechydol ar safleoedd rheolaethau'r ffin a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn ei hymateb i'r adroddiad hwn ac yn chwarterol wedi hynny. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 19.** Yn unol ag argymhellion 12 a 13 o'r bennod hon, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar hynt trafodaethau rhwng y DU a'r UE, a thrafodaethau â Llywodraeth y DU ar ddarparu gwasanaethau a'r goblygiadau dilynol i Gymru........ Tudalen 54

**Argymhelliad 20.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi:

- pam nad aethpwyd ar drywydd rhagor o welliannau i'r Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol ar asesiadau cydymffurfio yn y 'Common Understanding';
- cadarnhau a yw'r mater hwn yn dal i gael ei ddilyn gyda'r UE;
- nodi a fydd yn rhan o'r adolygiad o weithrediad. ........ Tudalen 56

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad a dadansoddiad o effeithiau hanesyddol y mater hwn ar y sector ffermio pysgod cregyn ac ar fasnach yng Nghymru, a'i effeithiau posibl yn y dyfodol. ........ Tudalen 58

**Argymhelliad 22.** Yn ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU ar ei blaenoriaethau ar gyfer yr adolygiad o weithrediad, dylai Llywodraeth Cymru bwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â rheolau tarddiad........ Tudalen 59

**Argymhelliad 23.** Yn unol ag argymhellion 12 a 13 o'r bennod hon, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor am gynnydd sy'n ymwneud â rheolau tarddiad. ........ Tudalen 59

**Argymhelliad 24.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi beth yw ei blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â materion lles anifeiliaid drwy'r adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac ailosod

y berthynas rhwng y DU a'r UE a nodi sut y bydd yn cydbwyso manteision alinio ac ymwahanu yn y maes hwn. ........ Tudalen 61

**Argymhelliad 25.** Yn unol ag argymhellion 12 a 13 o'r bennod hon, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau rheolaidd ar y mater hwn i'r pwyllgorau, gan gynnwys ar ddeimensiynau lles anifeiliaid cytundeb iechydol a ffytoiechydol. ........ Tudalen 61

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio datblygiad mecanwaith ledled y DU gyda llywodraethau eraill y DU i fonitro alinio â'r UE ac ymwahanu oddi wrtho. ........ Tudalen 64

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- nodi sut mae'n bwydo asesiadau Cymreig o alinio ac ymwahanu i drafodaethau rhynglywodraethol y DU;
- egluro pa drafodaethau sy'n digwydd ar hyn o bryd ar alinio ac ymwahanu yn Llywodraeth Cymru a'i Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach;
- nodi sut mae'n gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i geisio eu mewnbwn ar effeithiau alinio ac ymwahanu. ........ Tudalen 65

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ynghylch a yw'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn bodloni'r profion sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a amlinellwyd yn ei dogfen dull o ymdrin â pholisi masnach, a gyhoeddwyd yn 2024. ........ 69

## Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

**Argymhelliad 29.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n cefnogi cydweithrediad a/neu gytundebau gwell neu ychwanegol rhwng y DU a'r UE y tu hwnt i'r darpariaethau presennol yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. ........ Tudalen 69

**Argymhelliad 30.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet, y gallai aliniad agosach â'r UE arwain at leihad mewn rhai o'n safonau neu ein gwerthoedd sy'n ymwneud â'r amgylchedd, gan gynnwys enghreifftiau o lle y gallai hyn fod yn bryder. ........ Tudalen 70

**Argymhelliad 31.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi a rhannu ei barn am y rhestr o sectorau a fydd yn cael eu cynnwys fel lleiafswm gan gytundeb cysylltu Systemau Masnachu Allyriadau'r DU a'r UE yn y dyfodol, fel y nodwyd yn y 'Common Understanding'. ........ Tudalen 73

**Argymhelliad 32.** Dylai Llywodraeth Cymru gwblhau safbwynt clir ar gysylltu Systemau Masnachu Allyriadau fel mater o flaenoriaeth. .................................... Tudalen 73

**Argymhelliad 33.** Dylai Llywodraeth Cymru roi ei barn am oblygiadau cysylltu Systemau Masnachu Allyriadau i'r amgylchedd a'r hinsawdd a'r esemptiadau Mecanaeith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau a ragwelwyd gan y 'Common Understanding'. .................................... Tudalen 73

**Argymhelliad 34.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n hyrwyddo pwysigrwydd cydweithredu rhwng y DU a'r UE ar seilwaith ynni yn y moroedd sy'n agos i Gymru, gan gynnwys Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd. .................................... Tudalen 75

**Argymhelliad 35.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw'r mecanweithiau sy'n cael eu hystyried ar gyfer ailddechrau'r fasnach pysgod cregyn yn cynnwys aliniad deinamig y DU â rheolau'r UE ar ansawdd dŵr. .................................... Tudalen 77

## Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**Argymhelliad 36.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth am drafodaethau rhwng y DU a'r UE a rhwng llywodraethau'r DU gyda'r bwriad o leihau cymhlethdod sy'n deillio o'r trefniadau presennol. .................................... Tudalen 80

**Argymhelliad 37.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau y mae'n eu cymryd i symleiddio ei chyngor a'i chanllawiau ei hun mewn cysylltiad â'r trefniadau presennol rhwng y DU a'r UE. .................................... Tudalen 80

**Argymhelliad 38.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ei chanllaw ei hun i'r trefniadau rhwng y DU a'r UE, yn debyg i'r hyn a luniwyd tua'r adeg yr ymadawodd y DU â'r UE. .................................... Tudalen 80

**Argymhelliad 39.** Dylai Llywodraeth Cymru alw ar Lywodraeth y DU i amlinellu ei blaenoriaethau penodol ar gyfer yr adolygiad o weithrediad a chwmpas yr adolygiad ar frys. .................................... Tudalen 83

**Argymhelliad 40.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu ei blaenoriaethau, monitro datblygiadau i ddeall eu goblygiadau i Gymru, a dylai hysbysu'r pedwar pwyllgor os neu pan wneir newidiadau. .................................... Tudalen 83

**Argymhelliad 41.** Fel rydym wedi argymell o'r blaen, dylai Llywodraeth Cymru wneud sylwadau i Lywodraeth y DU er mwyn i gyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE gael eu cynnal digon ymlaen llaw cyn cyfarfodydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a negodiadau rhwng y DU a'r UE. .................................... Tudalen 83

**Argymhelliad 42.** Dylai Llywodraeth Cymru alw am i gylch gorchwyl y Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE gael ei ddiweddaru i ystyried trefniadau sy'n deillio o'r gwaith i ailosod y berthynas, megis y 'Common Understanding' a'r adolygiad o weithrediad. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn parhau i ateb y gofyn ar gyfer cam nesaf cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. ........ Tudalen 89

**Argymhelliad 43.** Fel rydym wedi argymell o'r blaen, dylai Llywodraeth Cymru alw am gytuno ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig....... Tudalen 89

**Argymhelliad 44.** Dylai Llywodraeth Cymru ganfod sut y bydd yn rhan o'r mecanweithiau ymgynghori cynnar a ddisgrifir yn y 'Common Understanding' ac annog Llywodraeth y DU i ddod i safbwynt cytunedig gyda'r llywodraethau datganoledig........ Tudalen 89

**Argymhelliad 45.** Dylai Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, roi barn wedi'i diweddaru am gydymffurfedd trefniadau rheoli ffiniau â rheolau Sefydliad Masnach y Byd. ........ Tudalen 91

**Argymhelliad 46.** Dylai Llywodraeth Cymru roi ei barn yn ei hymateb i'r adroddiad hwn ynghylch a allai'r trefniadau sydd i'w negodi fel rhan o'r 'Common Understanding' rhwng y DU a'r UE godi materion cydymffurfedd â rhwymedigaethau rhyngwladol presennol Cymru, gan gynnwys cytundebau masnach y tu allan i'r UE........ Tudalen 91

**Argymhelliad 47.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ei hasesiad o weithrediad *Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020*, a'i goblygiadau i'r setliad datganoli, yng nghyd-destun pryderon a godwyd gyda phwyllgorau'r Senedd. Dylai hyn gynnwys sylwadau penodol ar adran 29. ........ Tudalen 92

**Argymhelliad 48.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar drafodaethau â Llywodraeth y DU ar ddarparu cymorth ariannol i gyfranogwyr Grŵp Cynghori Domestig y DU. ........ Tudalen 95

**Argymhelliad 49.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut yr ymgysylltodd ag adolygiad Llywodraeth y DU yn 2024 o aelodaeth Grŵp Cynghori Domestig y DU, ac esbonio'r camau a gymerodd i godi ymwybyddiaeth ymhlith y sefydliadau Cymreig o ymgyrch datganiad o ddiddordeb Llywodraeth y DU........ Tudalen 96

**Argymhelliad 50.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r cysylltiad, os o gwbl, rhwng Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach Llywodraeth Cymru a fforymau cymdeithas sifil y Cytundeb Masnach a Chydweithredu........ Tudalen 96

**Argymhelliad 51.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n monitro gwaith Grŵp Cynghori Domestig y DU a'r Fforwm Cymdeithas Sifil ac yn ymgysylltu ag ef. ........ Tudalen 96

**Argymhelliad 52.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw llywodraethau'r DU yn datblygu mecanwaith canolog i fonitro newidiadau i gyfraith yr UE at ddibenion monitro aliniad ac ymwahaniaeth. ........ Tudalen 100

**Argymhelliad 53.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae wedi canfod a yw aliniad ac ymwahaniaeth wedi digwydd rhwng y DU a'r UE, a rhwng Cymru a'r UE, ers ymadawiad y DU â'r UE. ........ Tudalen 101

**Argymhelliad 54.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio eglurder ar sut y bydd cyfraith yr UE yn gymwys yn y DU os yw am alinio'n ddeinamig â'r UE. Dylai sicrhau bod y broses hon yn parchu rôl y llywodraethau a deddfwrfeydd datganoledig. ........ Tudalen 101

**Argymhelliad 55.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa rôl a fydd gan fframweithiau cyffredin wrth wneud penderfyniadau ynghylch aliniad y DU â'r UE. ........ Tudalen 101

# Cyflwyniad

Ers 1 Ionawr 2021, mae'r berthynas rhwng y Deyrnas Unedig (DU) a'r Undeb Ewropeaidd (UE) wedi bod yn seiliedig ar gytundeb y daethpwyd iddo ym mis Rhagfyr 2020, sef y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[1] Dan delerau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae'n ofynnol i'r DU a'r UE adolygu ei weithrediad erbyn 2026 (adolygiad o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu).

**1.** Yn ystod 2024, penderfynodd pedwar pwyllgor a ganlyn y Senedd gynnal ymchwiliad ar y cyd cyn yr adolygiad hwn:

- Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
- Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith,
- Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (DCC)

**2.** Drwy gydol y Chweched Senedd, mae pob un o'n pwyllgorau wedi gwneud amrywiaeth o sylwadau ac argymhellion unigol am weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ei strwythurau llywodraethu a'i effeithiau ar bobl Cymru. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, cytunwyd i weithio gyda'n gilydd i gasglu tystiolaeth ar sut y mae'r cytundeb yn gweithio yng Nghymru a rhoi sylw manwl i ddull Llywodraeth Cymru o ran yr adolygiad.

## Cylch gorchwyl

**3.** Cyhoeddwyd cylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn ar 30 Awst 2024. Gwnaethom wahodd tystiolaeth ar y meysydd a ganlyn:

[1] Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, 30 Rhagfyr 2020 [Saesneg yn unig]

- profiadau o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ers iddo ddod i rym;
- meysydd cydweithredu rhwng y DU a'r UE a gaiff eu cynnwys yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a meysydd nad ydynt wedi'u cynnwys;
- effeithiolrwydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn ymarferol, gan gynnwys materion gweithrediad yn effeithio arno;
- rhannau o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu nad ydynt wedi'u gweithredu'n llawn, er enghraifft, cyfranogiad yn rhaglenni'r UE neu gydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol;
- profiadau o ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu;
- newidiadau i'r berthynas rhwng y DU a'r UE yr hoffai rhanddeiliaid eu gweld.

## Cefndir

**4.** Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 30 Awst 2024 ac 8 Tachwedd 2024, gyda chymorth seminar rhanddeiliaid ym mis Medi 2024. Cafwyd 17 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, sy'n adlewyrchu ystod amrywiol o safbwyntiau ar draws y meysydd portffolio a gwmpaswyd gan ein pwyllgorau.

**5.** Ym mis Ionawr 2025, nododd Llywodraeth Cymru naw blaenoriaeth yr UE mewn gohebiaeth at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol:

- yr angen am gytundeb iechydol a ffytoiechydol sy'n cwmpasu materion iechyd a masnach anifeiliaid a phlanhigion;
- mynd i'r afael â materion yn ymwneud â symudedd gweithwyr a darparu gwasanaethau;
- yr angen am well trefniadau ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn Gilyddol;
- archwilio opsiynau i ailymuno â rhaglenni'r UE fel Erasmus+ ac Ewrop Greadigol;
- sicrhau cadw Digonolrwydd Data'r UE ar gyfer busnesau o Gymru sy'n masnachu gyda'r UE;

- ceisio Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol, yn enwedig ar asesiadau cydymffurfiaeth i leihau unrhyw ddrwgdeimlad o ran masnach;
- mynd i'r afael â materion allforio sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw;
- trafodaethau ynghylch rheolau tarddiad er mwyn galluogi busnesau i ddefnyddio cadwyni cyflenwi mwy a masnachu'n ddi-dariff;
- trefniadau masnachu trydan effeithiol.[2]

**6.** Llywiodd y blaenoriaethau hyn y casgliadau y daethpwyd iddynt yn yr adroddiad hwn. Ar 2 Ebrill 2025, cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth lafar gyda Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio. Gwrthododd Nick Thomas-Symonds AS, y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet (Gweinidog y Cyfansoddiad a Chysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd) yn Llywodraeth y DU, ein gwahoddiad i roi tystiolaeth.[3]

**7.** Ar 19 Mai 2025, cyhoeddodd y DU a'r UE eu cytundeb diweddaraf, sef Common Understanding[4], sy'n darparu ar gyfer mwy o gydweithrediad a negodi cytundebau ychwanegol rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae'n debygol o lywio cwmpas yr adolygiad o weithrediad. Rydym yn myfyrio ar y datblygiadau hyn a sut y gallant effeithio ar faterion a nodwyd mewn tystiolaeth drwy gydol yr adroddiad hwn.

**8.** Ym mis Gorffennaf 2025, ymwelodd grŵp cynrychiadol o Aelodau o'r pwyllgorau sy'n cymryd rhan â Brwsel i gymryd rhan mewn trafodaethau â sefydliadau a rhanddeiliaid allweddol yr UE ar yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'n hymchwiliad.

**9.** Bwriad amseru ein hadroddiad yw sicrhau bod safbwynt Cymreig yn llywio proses yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac, yn dilyn datblygiadau diweddar, negodiadau'r Common Understanding.

## Themâu cyffredin

**10.** Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno tystiolaeth a gafwyd yn cwmpasu ystod eang o feysydd polisi. Mae'n ymdrin ag artistiaid teithiol, cyfranogiad y DU yn

[2] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 28 Ionawr 2025
[3] Llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet: 10 Ebrill 2025
[4] Llywodraeth y DU, UK-EU Summit – Common Understanding, 19 Mai 2025 [Saesneg yn unig]

rhaglenni'r UE, masnach rhwng Cymru a'r UE, lles anifeiliaid, yr amgylchedd, yr hinsawdd a masnachu trydan. Mae hefyd yn ymdrin â materion cyfansoddiadol, megis rhwymedigaethau rhyngwladol Cymru a chysylltiadau rhynglywodraethol y DU.

**11.** Drwy gydol trafodaethau'r Pwyllgorau, daeth themâu cyffredin i'r amlwg.

**12.** Roedd y dystiolaeth yn glir mai'r UE yw'r farchnad allforio flaenoriaeth fwyaf ar gyfer diwydiannau allweddol yng Nghymru. Soniodd sefydliadau fod rheolau masnach ar ôl Brexit wedi arwain at fwy o fiwrocratiaeth, costau, amser, tarfu ar gadwyni cyflenwi a chanlyniadau anfwriadol, neu annisgwyl.

**13.** Er gwaethaf yr heriau, roedd hefyd yn amlwg bod parodrwydd ac awydd i barhau i fasnachu â'r UE, ac awgrymodd ymatebwyr welliannau ymarferol, gan gynnwys symleiddio prosesau ac arweiniad a chymorth gwell.

**14.** Roedd galwadau hefyd am atebion mwy pellgyrhaeddol, megis galwadau i'r DU ailymuno â'r UE, i'r DU ailymuno â Marchnad Sengl ac undeb tollau'r UE, ac i adfer rhyddid i symud.

**15.** Trafododd yr Aelodau rôl y cenhedloedd datganoledig mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn rheolaidd. Ailystyriodd y pwyllgorau eu canfyddiadau blaenorol ar drefniadau rhynglywodraethol domestig, yn ogystal â chynrychiolaeth Cymru mewn cyfarfodydd rhwng y DU a'r UE

**16.** Trafododd yr Aelodau hefyd rôl y Senedd yn y maes hwn – ei goruchwyliaeth o'r trefniadau hyn a'i gwaith craffu arnynt, yn ogystal â deddfwriaeth y DU a deddfwriaeth Cymru i weithredu rhwymedigaethau rhwng y DU a'r UE.

**17.** Ers tipyn o amser, mae pwyllgorau'r Senedd wedi codi pryderon am ddiffyg gwybodaeth a thryloywder ynghylch materion rhwng y DU a'r UE, gartref ac a rhwng y DU a'r UE, ac ystyriwyd y rhain hefyd.

**18.** Yn olaf, ystyriodd y pwyllgorau farn hirsefydlog y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor DCC, bod diffyg strategaethau pwrpasol yr UE ar lefel y DU a Chymru yn cyflwyno heriau ychwanegol i waith craffu ar flaenoriaethau'r UE.

# 1. Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Yn y bennod hon, nodwn a fydd y blaenoriaethau sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn cael eu hystyried drwy ddull Llywodraeth Cymru o ran yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a pha feysydd y mae risg na fyddant yn cael sylw. Rydym hefyd yn ailedrych ar bryderon hirsefydlog am gynrychiolaeth Cymru mewn negodiadau rhwng y DU a'r UE a'r angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy strategol o ran cysylltiadau â'r UE.

**19.** Ym mis Tachwedd 2024, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ein hymchwiliad, sef Sioc ddiwylliannol: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd[5] (Sioc ddiwylliannol), yn archwilio effeithiau Brexit ar y sector diwylliant a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg o berthynas newydd y DU â'r UE.

**20.** Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gyfle amserol i asesu ymhellach effaith perthynas y DU â'r UE sy'n dablygu ar sector diwylliant Cymru. Mae llawer o'r canfyddiadau a nodwyd yn ein hadroddiad, sef Sioc ddiwylliannol, yn cael eu hadleisio yn y dystiolaeth a gafwyd ar gyfer yr ymchwiliad hwn, ac mae'r materion a godwyd yn rhychwantu ystod o faterion a gedwir yn ôl a rhai datganoledig, gan gynnwys masnach, symudedd, diwylliant, a chysylltiadau rhyngwladol.

## Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

**21.** Roedd galwadau yn y dystiolaeth ysgrifenedig am newidiadau mwy pellgyrhaeddol mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Roedd y rhain yn cynnwys galwadau i'r DU ailymuno â'r UE, ac i'r DU ailymuno â Marchnad Sengl ac undeb

---

[5] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, Sioc ddiwylliannol: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd – Tachwedd 2024

tollau'r UE, i adfer rhyddid i symud ac am fwy o gydweithredu mewn meysydd amddiffyn, cyfiawnder a throseddu ychwanegol.

**22.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod yr adolygiad yn gyfle i negodi gwelliannau i'r trefniadau rhwng y DU a'r UE, naill ai drwy newidiadau i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu neu drwy gytundebau ychwanegol rhwng y DU a'r UE. Anogodd Logistics UK Lywodraeth y DU i geisio cytundeb cynnar â'r UE ar gwmpas yr adolygiad, gan gynnwys sicrhau ei fod yn adolygiad eang yn hytrach nag yn un technegol, cyfyngedig.[6] Mae hyn yn cyd-fynd â datganiadau blaenorol Llywodraeth Cymru, y byddai'n pwyso am adolygiad mor eang â phosibl.

**23.** Pwysleisiodd Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel mai'r angen am barhad a sefydlogrwydd yw'r agwedd bwysicaf ar gyfer y dyfodol.[7]

**24.** Roedd Cymru dros Ewrop yn croesawu nod Llywodraeth newydd y DU i wella cysylltiadau. Roedd hefyd yn croesawu agweddau ar bolisi Llywodraeth Cymru ar yr UE, gan gynnwys rôl ei chynrychiolydd yn Ewrop, datganiadau a wnaed gan Brif Weinidogion, Memoranda Cyd-ddealltwriaeth Cymru â rhanbarthau Ewropeaidd, a'r rhaglen Taith.[8]

**25.** Pwysleisiodd Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain fod y diwydiannau teithio a thwristiaeth â rôl strategol bwysig ym mherthnasoedd masnach a diplomyddol byd-eang y DU. Rhybuddiodd fod risg y bydd y trefniadau presennol, megis y diffyg darpariaethau symudedd ieuenctid, yn niweidio cymell tawel y DU.[9]

**26.** Roedd Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain yn croesawu ymdrechion y Pwyllgorau i gadw'r materion hyn ar yr agenda.[10]

## Barn Llywodraeth Cymru

### Effeithiau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yng Nghymru

**27.** Pan gafodd ei holi am effeithiau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yng Nghymru, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrthym:

> *"Well, ultimately, the TCA will never replace what was lost by exiting the European Union. Leaving was always going to result in barriers to trade and issues in relation to mobility … But, nevertheless, it's the deal*

[6] TCA04 – Logistics UK, tudalen 2 [Saesneg yn unig]
[7] TCA06 – Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel, tudalen 6 [Saesneg yn unig]
[8] TCA17 – Cymru dros Ewrop, tudalen 3
[9] TCA14 – Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain, tudalen 5 [Saesneg yn unig]
[10] TCA13 – Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain, tudalen 3 [Saesneg yn unig]

> *that we now have, so we should be focusing on how we use those structures to the best benefit of Wales. At the moment, the considerations are how the TCA is being implemented, and then there is a separate piece of work in relation to that reset between the UK and the EU."*[11]

**28.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet ei barn fel a ganlyn:

> *"… by any measure, I don't think that Brexit could be described as a success, particularly in relation to trade."*[12]

**Paratoadau ar gyfer yr adolygiad**

**29.** Pan gafodd ei holi am baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr adolygiad, esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet fel a ganlyn:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfres o flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol lle y mae potensial ar gyfer cynnydd ynghylch gwelliannau i reolau tarddiad, trefniadau symudedd, a safwbyntiau technegol manwl eraill.
- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd bob pythefnos â'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU, a chyfarfodydd wythnosol yn canolbwyntio'n benodol ar Gytundeb Iechydol a Ffytoiechydol posibl.
- Mae'r Ysgrifennydd Cabinet a'r Prif Weinidog wedi cyfarfod â Nick Thomas-Symonds AS i drafod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru;
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys ei Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach, i drafod ei blaenoriaethau.
- Mae'r Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach yn cydgysylltu gwaith trawslywodraethol ar yr adolygiad o weithrediad, yn sicrhau bod

[11] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 8
[12] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 94

gwybodaeth o bob rhan o Lywodraeth Cymru yn cael ei chasglu i lywio safbwyntiau polisi.[13]

**30.** Cadarnhaodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet na chytunwyd ar gylch gorchwyl yr adolygiad o weithrediad eto. O ganlyniad, dywedodd y canlynol:

> *"… it's difficult to say which of those priorities we think will fall into work that you would traditionally say is TCA review work and then the broader EU reset work."*[14]

**Paratoadau Llywodraeth y DU ar gyfer yr adolygiad**

**31.** Pan gafodd ei holi pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cael â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r adolygiad o weithrediad, dywedodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"We haven't seen an overarching document that says, 'The UK Government wishes X, Y and Z with the EU'. I'm not aware if that exists or not, but we definitely have not seen that. In terms of positions, we are aware of some of the detail behind some of the specific issues that may be addressed, but we've not seen an overarching, 'These are the top 10 asks of the UK Government'. We haven't seen that yet, no."*[15]

**32.** Cadarnhaodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gweld dogfen gwmpasu gan Lywodraeth y DU.[16]

**33.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd y sefyllfa hon yn ei synnu a nododd y disgwylir cynnal rhagor o drafodaethau rhynglywodraethol yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol cyn yr uwchgynhadledd rhwng y DU a'r UE ar 19 Mai 2025. Fodd bynnag, cadarnhaodd hefyd nad oedd dyddiad wedi'i osod ar gyfer y cyfarfod hwn ar y pryd, ac nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cael

[13] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 10 ac 11
[14] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 12
[15] Cofnod y trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 168
[16] Cofnod y trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 172

gwybod eto a fyddai'n cael ei gwahodd i'r uwchgynhadledd.[17] Cynhaliwyd cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol wedi hynny ar 12 Mai 2025.

**34.** Pan gafodd ei holi a oedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan wrth ddatblygu safbwynt Llywodraeth y DU, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd wedi, ac ychwanegodd y canlynol:

> *"The UK Government is developing its [sic] negotiating positions. Our concerns are that where devolved matters are part of those negotiating positions, then clearly we need to have involvement in agreeing those. Also, we've set out a list of priority areas that we want the UK Government to address as well."*[18]

**35.** Cadarnhaodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet fod aliniad ar flaenoriaethau lefel uchel yr UE ymhlith y llywodraethau datganoledig. Fodd bynnag, ni allai'r swyddog gadarnhau i ba raddau y rhannwyd y blaenoriaethau hyn â rhai Llywodraeth y DU.[19]

### Dull Llywodraeth Cymru o ran cysylltiadau â'r UE

**36.** Ynghylch y dull cyffredinol o ran cysylltiadau â'r UE, cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet linellau coch Llywodraeth y DU, sef peidio â dychwelyd i Farchnad Sengl yr UE, yr undeb tollau na rhyddid i symud, a datganodd y canlynol

> *"So, we don't take a different view to the UK Government in terms of the overall approach …"*[20]

**37.** Wrth ymateb i gwestiynau penodol am y dyfodol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"So, I think in terms of where we would like to be, it would be strengthening and deepening our relationship with the EU, both in*

[17] Cofnod y trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 37
[18] Cofnod y trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 184
[19] Cofnod y trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 198
[20] Cofnod y trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 142

> *terms of trade, but then also culturally in the other areas that have been raised by colleagues within the Chamber."*[21]

**38.** Pan gafodd ei holi am ddull mwy strategol, gan gynnwys datblygu strategaeth bwrpasol yr UE, cydnabu swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet, er nad yw'r Strategaeth Ryngwladol bresennol yn canolbwyntio'n benodol ar Ewrop, fod swyddogion wedi cael cyfarwyddyd clir gan y Prif Weinidog i osgoi creu strategaethau newydd ar hyn o bryd. Yn hytrach, mae'r ffocws yn parhau i fod ar gyflawni'r amcanion sydd eisoes wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth Ryngwladol bum mlynedd bresennol a'i chynllun gweithredu.[22]

**39.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"I'm actually very attracted to what Alun's [Alun Davies MS] setting out in terms of a more strategic approach and a kind of clarity of vision as to where we would want those relationships to be in future, so I'll give it some further thought. I'm sure we're on the same page …"*[23]

**40.** Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet i roi diweddariad ysgrifenedig i'n Pwyllgor yn cwmpasu tri maes allweddol:

- Ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â sefydliadau'r UE.
- Y strwythurau mewnol yn Llywodraeth Cymru sy'n rheoli ei pherthynas â sefydliadau'r UE;
- Gwaith sy'n cael ei wneud ar draws adrannau gwahanol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyfraniadau gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

**41.** Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet atom ar 18 Mehefin 2025, yn nodi ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â sefydliadau'r UE.[24]

---

[21] Cofnod y trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 144
[22] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 152
[23] Cofnod y trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 155
[24] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: 18 Mehefin 2025

### Ein barn ni

**42.** Mae gwaith craffu parhaus y Pwyllgor ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE o safbwynt Cymreig wedi datgelu heriau strwythurol a strategol parhaus.

**43.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei blaenoriaethau o ran yr UE ac yn nodi yr adlewyrchir rhai o'r rhain yn y 'Common Understanding'. Er bod mynegi'r blaenoriaethau hyn o ran yr UE yn gwneud rhywfaint i fynd i'r afael â galwadau blaenorol y Pwyllgor am strategaeth bwrpasol yr UE, nid yw rhestr o flaenoriaethau yn disodli'r dull strategol cynhwysfawr, tymor hir, cyffredinol rydym wedi galw'n gyson amdano. Mae diffyg strategaethau pwrpasol ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar lefel y DU a Chymru yn cyflwyno heriau wrth lywio, a darparu gwaith craffu effeithiol ar y berthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit.

**44.** Rydym yn ailadrodd ein safbwynt yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth bwrpasol yr UE ac i gynnwys yr UE ymhlith ei pherthnasoedd blaenoriaeth cysylltiadau rhyngwladol. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod y galwadau hyn o'r blaen.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu a diweddaru blaenoriaethau'r UE yn rheolaidd, gan fonitro datblygiadau'n agos ar gyfer eu heffaith bosibl ar Gymru.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio i gryfhau ei pherthnasoedd â sefydliadau'r UE er mwyn hyrwyddo buddiannau Cymru a chael mewnwelediad dyfnach i safbwynt yr UE a datblygu Strategaeth bwrpasol yr UE.

## Sut y caiff Cymru ei chynrychioli mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

**45.** Cododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad bryderon am gynrychiolaeth Cymru mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE a chysylltiadau rhynglywodraethol domestig. Fodd bynnag, nid yw'r materion hyn ymhlith y blaenoriaethau o ran adolygiad Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

**46.** Yn eu hymateb ar y cyd, galwodd yr academyddion Dr Claire Royles, Dr Carolyn Rowe, a Dr Rachel Minto ar y Cyngor Partneriaeth i godi statws Gweinidogion datganoledig, ac i gryfhau ei chysylltiadau â'r Grŵp Rhyngweinidogol rhwng y DU a'r UE. Gwnaethant hefyd argymell cyfres o

ddiwygiadau i wella cydnabyddiaeth o'r setliad datganoli, cynyddu cynrychiolaeth ddatganoledig, a ffurfioli'r mecanweithiau rhynglywodraethol. [25]

**47.** Ymunodd ymatebwyr eraill, gan gynnwys Logistics UK a Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC)[26], â galwad yr academyddion am fwy o gyfranogiad gan y diwydiant a chynrychiolwyr datganoledig wrth lywio newidiadau i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mewn cysylltiadau ehangach rhwng y DU a'r UE, ac mewn strwythurau llywodraethu domestig ar ôl Brexit gan gynnwys grwpiau cynghori a'r Grŵp Rhyngweinidogol rhwng y DU a'r UE.

**48.** Mae ymchwil gan Royles, Rowe a Minto[27] hefyd yn dangos, er bod cyfranogiad llywodraethau datganoledig mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE wedi gwella gyda threigl amser, y bu mwy o gyfranogiad gan yr Alban a Gogledd Iwerddon na chan Gymru. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â dadansoddiad cynnar gan Ymchwil y Senedd, sy'n monitro presenoldeb mewn cyfarfodydd a fforymau rhwng y DU a'r UE a sefydlwyd gan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[28]

## Barn Llywodraeth Cymru

**49.** Pan gafodd ei holi am statws sylwedydd Llywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, statws nad yw'n cynnwys hawliau pleidleisio neu siarad, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"Obviously, the observer status wasn't our preference but I think that, so far, it does appear to be working, and I think that the way in which the UK Government has engaged with us through our officials has been really helpful in that regard. So, we're able to propose agenda items, for example, and we're able to explore those debating lines, if you like, with the UK Government so that we have agreed positions that are being discussed. So, I think that's all been very positive in terms of those opportunities to engage and influence."*[29]

[25] TCA07 - Dr Elin Royles, Dr Carolyn Rowe a Dr Rachel Minto, paragraffau 2.1–2.5 [Saesneg yn unig]
[26] TCA04 – Logistics UK, tudalen 4 [Saesneg yn unig]; TCA11 – Teledwyr Annibynnol Cymru, paragraff 20
[27] TCA07 - Dr Elin Royles, Dr Carolyn Rowe a Dr Rachel Minto, paragraff 1.4 [Saesneg yn unig]
[28] Ymchwil y Senedd: Sedd wrth y bwrdd: cynrychioli Cymru yn y berthynas newydd rhwng y DU a'r UE - Rhagfyr 2021;
Ymchwil y Senedd: Yr ystafell lle mae popeth yn digwydd: Cymru yn y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE - Mai 2022
[29] Cofnod y trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 33

**50.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at rôl cymdeithas sifil wrth lywio polisi masnach yr UE. Esboniodd fod ymgysylltiad ffurfiol â rhanddeiliaid bellach yn digwydd drwy'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gyrff ambarél busnes, y trydydd sector, sefydliadau'r sector cyhoeddus, academyddion a chymdeithas sifil.[30]

**51.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet, yn ystod dau gyfarfod diwethaf y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach ym mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025, y ceisiodd Llywodraeth Cymru farn rhanddeiliaid am y canlynol:

- Newidiadau posibl yn strwythur llywodraethu presennol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, gan gynnwys y pwyllgorau sy'n goruchwylio ei weithrediad;
- Diwygiadau posibl fel rhan o'r adolygiad o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu sydd yn yr arfaeth;
- Dichonoldeb Cytundeb Iechydol a Ffytoiechydol.[31]

## Ein barn ni

**52.** Rydym yn cydnabod nad oedd Llywodraeth Cymru yn ffafrio statws sylwedydd yng nghyfarfodydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac rydym yn cydymdeimlo ag ymdrechion yr Ysgrifennydd Cabinet i wneud y gorau o sefyllfa nad yw wedi'i dewis.

**53.** Fodd bynnag, erys y ffaith bod tystiolaeth a gafwyd gan ein Pwyllgor ers 2021 wedi dangos cefnogaeth eang yn gyson gan randdeiliaid ac arbenigwyr i rôl gryfach, fwy ffurfiol i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Rydym yn ailadrodd ein safbwynt hirsefydlog bod statws sylwedydd yn anfoddhaol ac y dylai Llywodraeth Cymru gael cyfranogiad llawn mewn strwythurau llywodraethu rhwng y DU a'r UE.

**54.** Mae trefniadau rhynglywodraethol domestig yn cyflwyno rhagor o heriau. Yn ein hadroddiad, sef Sioc ddiwylliannol, gwnaethom dynnu sylw at yr effaith andwyol sy'n deillio o ddiffyg ymgysylltiad strwythuredig rhwng llywodraethau â'r heriau y mae'r sector diwylliant yn eu hwynebu. Mae cadarnhad yr Ysgrifennydd Cabinet yn ei thystiolaeth, nad oedd Llywodraeth y DU wedi rhannu ei

[30] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Yr adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, 19 Mawrth 2025, paragraff 4.6
[31] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Yr adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE - 19 Mawrth 2025, paragraff 4.6

blaenoriaethau o ran yr UE eto, yn gwneud llawer i ennyn hyder bod y sefyllfa wedi gwella. Mae hyn yn cyflwyno heriau unigryw i'r cenhedloedd datganoledig ac yn cyfyngu ar allu'r Pwyllgor i graffu ar gyfeiriad cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn effeithiol.

**55.** Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid hefyd yn parhau i fod yn destun pryder. Er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth Cymru i ymgynghori drwy'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach a chynnal deialog â chymdeithas sifil, mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyfleoedd ar gyfer mewnbwn rhanddeiliaid wedi lleihau ers Brexit. Mae'r dirywiad hwn yn bygwth gwelededd a dylanwad safbwyntiau Cymreig wrth lywio cysylltiadau rhwng y DU a'r UE - mater a allai waethygu heb gymorth wedi'i dargedu. Roeddem yn rhagweld y mater hwn yn ein hymateb ym mis Hydref 2022 i ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Ar y pryd, roeddem yn rhybuddio bod heriau ar ôl Brexit yn ei gwneud yn fwyfwy anodd i randdeiliaid ymgysylltu'n effeithiol, a bod risg bod cynrychiolaeth buddiannau Cymru yn dirywio ymhellach heb ymyriad.[32] Mae'n siomedig nodi nad yw'r pryderon hyn yn newydd i Lywodraeth Cymru, ac nad ydynt wedi arwain at gynllun gweithredu mwy cynhwysfawr eto i fynd i'r afael â hwy.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, gadarnhau a yw'n:

- mynd ar drywydd hawliau cyfranogiad llawn mewn cyfarfodydd rhwng y DU a'r UE lle y mae ganddi statws sylwedydd.
- gofyn am fynd i gyfarfodydd rhwng y DU a'r UE sydd y tu allan i fframwaith sefydliadol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

## Diwylliant a llenyddiaeth

**56.** Cododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad faterion yn ymwneud â diwylliant, gweithwyr creadigol a llenyddiaeth. Er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn cefnogi gwella amodau ar gyfer artistiaid teithiol, nid yw materion diwylliannol wedi'u rhestru'n benodol ymhlith ei blaenoriaethau o ran adolygiad.

**57.** Mae'r rheolau sy'n llywodraethu gwaith creadigol trawsffiniol rhwng y DU a'r UE wedi dod yn fwyfwy cymhleth ar ôl Brexit. Mae'r cymhlethdod hwn yn deillio o ddiffyg darpariaethau penodol yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i

[32] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi - Hydref 2022

ddiwallu anghenion gweithwyr creadigol. Er bod rhai agweddau ar waith trawsffiniol wedi’u cwmpasu’n rhannol gan ddarpariaethau masnach cyffredinol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae llawer o elfennau hanfodol y tu allan i’w gwmpas, gan wneud y bylchau mor arwyddocaol â’r rheolau eu hunain. Nid yw meysydd eraill, megis cydweithrediad clyweledol, wedi’u cwmpasu gan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu o gwbl.

**58.** Er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi “Mynd i’r afael â materion yn ymwneud â symudedd gweithwyr a darparu gwasanaethau”[33] fel blaenoriaeth o ran adolygiad, nid yw’n glir o hyd at ba faterion penodol y mae hyn yn cyfeirio. Wrth ymateb i’r adroddiad Sioc ddiwylliannol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *“gallaf roi sicrwydd bod ein blaenoriaethau lefel uchel yn cynnwys y problemau symudedd sy’n cael eu profi gan ystod eang o fusnesau ac unigolion. Ar hyn o bryd rydym yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y blaenoriaethau hyn.”*[34]

**59.** Soniodd nifer o’r ymatebwyr i’r ymgynghoriad, gan gynnwys Cymru dros Ewrop, Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain, Taith, Logistics UK, TAC, a Make UK, am golli’r rhyddid i symud fel rhywbeth negyddol neu gyfyngol.[35] Codwyd materion economaidd, diwylliannol, addysg a symudedd dro ar ôl tro ar draws ystod o sectorau, gan gynnwys iechyd, teithio, logisteg, amaethyddiaeth, ac addysg uwch. Pwysleisiodd llawer ohonynt fod hyn yn cael effaith anghymesur ar bobl iau a gweithwyr proffesiynol gyrfa gynnar.

**60.** Dywedodd Logistics UK nad yw trefniadau’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar gyfer gweithwyr creadigol yn sefyllfa realistig nac ymarferol ar gyfer diwydiant y celfyddydau a cherddoriaeth. Galwodd am gytundeb teithio diwylliannol pwrpasol a fyddai’n esemptio gweithwyr creadigol a gyrwyr cerbydau nwyddau trwm rhag rheol 90/180 diwrnod Schengen, trwyddedau, a’r cyfyngiadau masnach arforol.[36]

---

[33] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 28 Ionawr 2025
[34] Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad 'Sioc Ddiwylliannol' y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – Rhagfyr 2024
[35] TCA17 – Cymru dros Ewrop; TCA15 – Undeb Amaethwyr Cymru[Saesneg yn unig]; TCA14 – Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain; TCA05 – Taith[Saesneg yn unig]; TCA04 – Logistics UK; TCA11 Teledwyr Annibynnol Cymru ; TCA08 – Make UK [Saesneg yn unig]
[36] TCA04 – Logistics UK, tudalen 4 [Saesneg yn unig]

**61.** Pwysleisiodd TAC a Cymru dros Ewrop yr effeithiau ar weithwyr creadigol a chroesawyd yr adroddiad Sioc ddiwylliannol a'i argymhellion.[37] Galwodd TAC i'r argymhellion yn yr adroddiad Sioc ddiwylliannol gael sylw a mynegodd edifeirwch nad yw cydweithrediad clyweledol wedi'i gynnwys yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Dywedodd y byddai cydweithrediad agosach â'r UE yn cryfhau sefyllfa sector clyweledol Cymru yn rhyngwladol.

**62.** Nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y rheolau presennol yn "rhwystro arloesi creadigol yn y DU a'r UE"[38], a phwysleisiodd Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain bwysigrwydd cyfnewid diwylliannol, gan ddatgan bod manteision diwylliannol yr un mor werthfawr, er eu bod yn llai diriaethol.[39]

**63.** Cyflwynodd Acanthophyllum Books astudiaeth achos o'i brofiad o werthu llyfrau hynafol i gwsmeriaid yn yr UE. Mae'r materion a amlinellwyd yn ymwneud yn bennaf ag ymadawiad y DU ag undeb tollau'r UE. Ni ellid cyflawni ei alwad, sef i sicrhau bod llyfrau'n teithio'n rhydd o wlad i wlad drwy gyflawni blaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru o ran adolygiad. Mae safbwynt Llywodraeth y DU yn erbyn ailymuno â'r Farchnad Sengl neu'r undeb tollau yn cyfyngu ymhellach ar yr atebion posibl.[40]

## Barn Llywodraeth Cymru

**64.** Pan gafodd ei holi am yr adroddiad Sioc ddiwylliannol, ceisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet roi sicrwydd i ni:

> *"… we take every opportunity to refer to the issues raised within the report with the UK Government, and I know officials have specifically talked to UK Government counterparts about the report itself, but also the debate, so that UK Government is very clear that this is something that is of concern to the whole Senedd.*
>
> …
>
> *So, there's no progress, really, that we can demonstrate at this stage, because we're still at such an early stage in relation to that reset work and so on, and still don't have the terms of reference, for example, for the discussions in terms of the review. So, we can't demonstrate*

[37] TCA11 – Teledwyr Annibynnol Cymru; TCA17 – Cymru dros Ewrop
[38] TCA10 – Iechyd Cyhoeddus Cymru, tudalen 9
[39] TCA14 – Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain, tudalen 9 [Saesneg yn unig]
[40] TCA01 – Acanthophyllum Books, tudalen 1 [Saesneg yn unig]

> *progress; all we can do is reassure that the points are being raised consistently."*[41]

**65.** Ar y materion penodol a godwyd yn yr adroddiad Sioc ddiwylliannol, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet wasanaethau cludo nwyddau a thollau fel pryderon allweddol. Cydnabu ei bod yn anodd gweld sut y gellid gwneud newidiadau heb rai diwygiadau i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[42] Fodd bynnag, yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod newidiadau i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn "annhebyg". [43]

**66.** O ystyried y cyfyngiadau hyn, anogodd yr Ysgrifennydd Cabinet Lywodraeth y DU i negodi cytundebau ategol i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiad Sioc ddiwylliannol. Nododd y broses negodi hir sy'n gysylltiedig â chytuno ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a phwysleisiodd y byddai cytundebau symudedd rhwng y DU a'r UE sydd y tu allan i gymhwysedd yr UE yn gofyn cytundeb ar wahân ar gyfer pob un o'r 27 Aelod-wladwriaeth unigol ar lefel ddomestig.[44]

**67.** Pan gafodd ei holi am welliannau ar gyfer artistiaid teithiol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrthym:

> *"I think the key point there, really, and particularly on business mobility, is that we can't replicate what we had before we left the EU. So, the priority, really, is for the UK to seek significant changes in relation to mobility arrangements. So, those, really, would have to be negotiated, I think, beyond the TCA, just given the nature of those. And we would want to have to find a way, really, in which the artists wouldn't have to be dealing with 27 different sets of rules and regulations and bureaucracies and so on. We have to accept that things will never be as smooth as they were. This is a priority area, but,*

[41] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraffau 78-80
[42] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 84
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Yr adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, 19 Mawrth 2025, paragraff 1.9
[44] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 85

> *unfortunately, things are so early in these discussions that we can't demonstrate progress at the moment."*[45]

## 'Common Understanding'

**68.** Mae'r 'Common Understanding' yn dweud mai dim ond y DU a'r UE sy'n cydnabod gwerth teithio a chynlluniau cyfnewid diwylliannol ac artistig, gan gynnwys gweithgareddau artistiaid teithiol, ac y byddant yn parhau i gefnogi teithio a chyfnewid diwylliannol.[46]

**69.** Mae nodiadau esboniadol Llywodraeth y DU ar gyfer y cytundeb yn datgan ei fod yn gwneud y canlynol:

> *"We are proud of the international reputation of our arts and creative industries. Along with the EU, we have jointly recognised the value of travel and cultural and artistic exchanges, including the activities of touring artists, and we will continue our efforts to support travel and cultural exchange.*
>
> *The UK will explore how best to improve arrangements for touring across the European continent with the EU and EU Member States."*[47]

**70.** Roedd ein hadroddiad sioc ddiwylliannol yn cyflwyno tystiolaeth o gyfleoedd coll, llai o weithgarwch, costau uwch ac incwm coll i artistiaid teithiol a gweithwyr creadigol ers Brexit.[48]

**71.** Ar symudedd, mae'r 'Common Understanding' yn sefydlu deialogau pwrpasol ar ddarpariaethau gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar gyfer mynediad ac aros dros dro personau naturiol at ddibenion busnes. Nid yw'r darpariaethau hyn yn cwmpasu gweithwyr creadigol trawsffiniol.[49]

[45] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 82
[46] Llywodraeth y DU, UK-EU Summit – Common Understanding, 19 Mai 2025, paragraff 15 [Saesneg yn unig]
[47] Llywodraeth y DU, UK-EU Summit – Explainer - 19 Mai 2025 [Saesneg yn unig]
[48] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, Sioc ddiwylliannol: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd – Tachwedd 2024
[49] Llywodraeth y DU, UK-EU Summit – Common Understanding - 19 Mai 2025, paragraff 46 [Saesneg yn unig]

## Ein barn ni

**72.** Ni fyddai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran adolygiad ar eu pen eu hunain yn datrys y materion a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad na'r materion a nodwyd yn yr adroddiad Sioc ddiwylliannol.

**73.** Nid yw ffocws cyffredinol Llywodraeth Cymru ar wella symudedd ac ar gyfer darparu gwasanaethau yn mynd i'r afael yn benodol â symudiad trawsffiniol gweithwyr creadigol. Ar ben hynny, nid yw hyn yn cael ei ddatrys gan y 'Common Understanding' nac wedi'i nodi yn ei chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

**74.** Mae gweithgarwch diwylliannol trawsffiniol yn dibynnu ar symudiad nwyddau, yn ogystal â symudiad pobl. Mae gweithwyr a sefydliadau diwylliannol yn aml yn dibynnu ar gludo cyfarpar, offerynnau ac arteffactau diwylliannol dros dro, yn ogystal â gwerthu nwyddau a llyfrau teithiau. Eto, mae'r agweddau hyn yn parhau i fod heb eu datrys. Yn yr un modd, er y gallai rheolau tarddiad gwell, fel yr argymhellir gan Lywodraeth Cymru, fod o fudd i rai agweddau ar gynhyrchu nwyddau, ni fyddent yn datrys y materion tollau a TAW sy'n parhau i effeithio ar y sector.

**75.** Rydym yn croesawu blaenoriaeth ddatganedig Llywodraeth Cymru o ailgysylltu ag Ewrop Greadigol, a allai helpu i adfer mynediad at gyllid a rhwydweithiau.

**76.** Felly, rydym yn dod i'r casgliad nad yw dull Llywodraeth Cymru o ran yr adolygiad yn cyrraedd y nod fel ateb mwy cynhwysfawr ar gyfer artistiaid teithiol a argymhellodd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Rydym, fel Pwyllgor, yn cymeradwyo dull y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ac yn nodi bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi datgan o'r blaen fod Llywodraeth Cymru yn "llwyr gefnogi" argymhelliad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol mewn ymateb i'r adroddiad sioc ddiwylliannol.

**77.** Rydym yn siomedig iawn ac yn pryderu nad yw'r 'Common Understanding' yn cynnwys gwelliannau ar gyfer gweithwyr creadigol. Rydym yn cytuno â'r DU a'r UE ar werth cyfnewidiadau diwylliannol ac artistig, gan gynnwys gweithgareddau artistiaid teithiol, ond ni allwn gysoni'r datganiad hwn â diffyg gwelliannau uniongyrchol yn y 'Common Understanding', neu bosibilrwydd hynny yn y dyfodol.

**78.** Mae diffyg artistiaid teithiol ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran adolygiad, ynghyd â'r diffyg gwelliannau yn y 'Common Understanding', wedi gwaethygu ein pryderon ar gyfer y sector a oedd eisoes yn ddifrifol.

**79.** Rydym hefyd yn pryderu bod y negodiadau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol a amlinellwyd yn y Common Understanding yn peryglu cymryd lled band sylweddol ac felly rydym yn ailadrodd pwysigrwydd cadw'r mater hwn ar y ford.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei blaenoriaethau o ran adolygiad i adlewyrchu ei safbwynt datganedig, a amlinellwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet mewn ymateb i'r adroddiad sioc ddiwylliannol, o lwyr gefnogi argymhelliad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar gyfer datrysiad cynhwysfawr ar gyfer artistiaid teithiol, sy'n cwmpasu symudiad pobl a nwyddau.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud sylwadau i'r DU a'r UE i sicrhau bod mater artistiaid teithiol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Dylai hyn gynnwys galw ar y DU a'r UE i fynegi cynlluniau ar gyfer gwelliannau.

## Cymryd rhan yn rhaglenni'r UE

**80.** Un o flaenoriaethau datganedig Llywodraeth Cymru o ran adolygiad yw "archwilio opsiynau i ailymuno â rhaglenni'r UE fel Erasmus ac Ewrop Greadigol". Mae hyn yn cyd-fynd â barn a fynegwyd gan lawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, a bleidleisiodd hefyd werth rhaglenni ychwanegol, megis Interreg a Comenius+.[50]

**81.** Fodd bynnag, mynegodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys TAC a Phrifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel, edifeirwch nad yw cyfranogiad y DU mewn mwy o raglenni'r UE yn cael ei ganlyn.[51]

**82.** Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd bryderon am ganlyniadau posibl ailymuno â rhai o raglenni'r UE heb ystyriaeth ddwys i'r dewisiadau amgen domestig presennol. Roedd Taith yn cydnabod pwysigrwydd Erasmus+ i sefydliadau mwy fel prifysgolion, ond rhybuddiodd, o ddychwelyd at Erasmus+ a cholli Taith, ei bod yn debygol y byddai llai o sefydliadau ac unigolion yn cymryd rhan mewn rhaglenni cyfnewid rhyngwladol yng Nghymru.[52]

**83.** Rhybuddiodd Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel, os bydd oedi o ran cysylltu â rhaglen nesaf yr UE, y bydd y momentwm a'r brwdfrydedd sy'n deillio o ymdrechion ar draws yr UE, y DU a Chymru i annog cyfranogiad a chydweithrediad yn Horizon Europe gan ymchwilwyr yn y DU yn cael eu colli. Nododd Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel hefyd fod cysylltiad â

[50] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 28 Ionawr 2025
[51] TCA11 – Teledwyr Annibynnol Cymru, paragraffau 7-13; TCA06 – Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel, tudalen 6 [Saesneg yn unig]
[52] TCA05 – Taith, tudalen 2 [Saesneg yn unig]

Horizon Europe wedi ennyn mwy o ddiddordeb mewn ymchwil yng Nghymru, gan gynnwys cyllid Llywodraeth Cymru megis Agile Cymru.[53]

## Barn Llywodraeth Cymru

### Rhaglenni blaenoriaeth yr UE

**84.** Pan gafodd ei holi pa rai o raglenni'r UE y byddai Llywodraeth Cymru am fod yn rhan ohonynt, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet, mai Erasmus ac Ewrop Greadigol yw'r rhai allweddol y byddai am gymryd rhan ynddynt:[54]

**85.** Fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa hon yn adlewyrchu'n llawn y datganiadau blaenorol a wnaeth Llywodraeth Cymru, sydd wedi nodi uchelgeisiau ehangach ar gyfer ailymgysylltu ag ystod ehangach o raglenni'r UE.

**86.** Wrth ymateb i'r adroddiad sioc ddiwylliannol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"Mae ein Gweinidogion wedi bod yn glir ynghylch yr uchelgais i Gymru gael y posibilrwydd o gymryd rhan mewn ystod llawer ehangach o raglenni'r UE gan gynnwys ERASMUS, Cydweithredu Tiriogaethol, ac Ewrop Greadigol."*[55]

**87.** Ym mis Rhagfyr 2024, dywedodd y Prif Weinidog y canlynol:

> *"I think there are lots of programmes that we'd like to join. It was really good that we're back in Horizon. It was crazy that we left, but that was part of what happened, but it's good at least now that we're back in, and that is making a big difference for our universities and researchers."*[56]

**88.** Gwnaethom argymhelliad yn ein hadroddiad Sioc ddiwylliannol yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo cysylltiad y DU ag Erasmus+ ac Ewrop Greadigol yng nghyfarfodydd rhynglywodraethol y DU ac i gyflwyno adroddiad i'n Pwyllgor

---

[53] TCA06 – Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel, tudalen 7 [Saesneg yn unig]
[54] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 102
[55] Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad 'Sioc Ddiwylliannol' y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – Rhagfyr 2024, tudalen 7
[56] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog – 13 Rhagfyr 2024, paragraff 123

unwaith y tymor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hynny.[57] Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet i hyrwyddo cyfranogiad yn y rhagelnni, ond ni fyddai'n rhoi ymrwymiad ynghylch pa mor aml y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno.[58]

**89.** Yn y 'Common Understanding', cytunodd y DU a'r UE i weithio tuag at gysylltiad y DU ag Erasmus+.[59]

### Diwygiadau i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu

**90.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod yr adolygiad yn "annhebygol o ddarparu cyfleoedd i newid testun y cytundeb".[60]

**91.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd y canlynol wrthym:

> *"We would need to apply to the EU to rejoin Creative Europe. So, again, this is an area where amendments to the TCA wouldn't be required. A number of non-EU countries already participate, so I think there is significant hope for us to be able to do that."[61]*

**92.** Mae Rhan Pump o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer cyfranogiad y DU yn rhaglenni'r UE. Mae'n amlinellu'r telerau ac amodau ar gyfer cyfranogiad o'r fath, gan gynnwys fformiwla i gyfrifo cyfraniad ariannol y DU. Mae rhaglenni penodol yr UE y mae'r DU yn gymwys i gymryd rhan ynddynt wedi'u rhestru ym Mhrotocol I o Ran Pump. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir sut y gallai'r DU gymryd rhan yn rhaglenni ychwanegol yr UE y tu hwnt i'r rhai a restrwyd, heb ddiwygio Protocol I.[62]

**93.** Ymhellach, mae'n ymddangos nad yw datganiad yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch trydydd gwledydd eraill sy'n cymryd rhan yn rhoi ystyriaeth lawn i ddarpariaethau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

---

[57] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, Sioc ddiwylliannol: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd – Tachwedd 2024, tudalennau 49 a 50
[58] Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad 'Sioc Ddiwylliannol' y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – Rhagfyr 2024, tudalen 7
[59] Llywodraeth y DU, UK-EU Summit – Common Understanding, 19 Mai 2025, paragraff 14 [Saesneg yn unig]
[60] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Yr adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, 19 Mawrth 2025, paragraff 4.1
[61] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 87
[62] Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, 30 Rhagfyr 2020 [Saesneg yn unig]

### Rhwydweithiau'r UE

**94.** Yn ogystal â cheisio cymryd rhan yn rhaglenni'r UE, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"… there are other coalitions and other groups that we're involved with, which I described in the debate as well, which are kind of pan-European or global alliances and co-operations, which aren't specific to the EU but other bodies that we are aligned to that are helpful to us as well."*[63]

**95.** Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r adroddiad Sioc ddiwylliannol sy'n nodi effeithiau ymadawiad y DU â rhwydweithiau'r UE ar y sector creadigol.

### Symudedd pobl ifanc

**96.** Er nad yw cynlluniau symudedd pobl ifanc yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran adolygiad, dywedaodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y byddai'n cefnogi rhaglen gyffredinol ar gyfer symudedd pobl ifanc.[64] Rydym wedi cael tystiolaeth, drwy'r ymchwiliad hwn ac mewn gwaith blaenorol, bod Brexit wedi cael effaith anghymesur ar bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol gyrfa gynnar.

**97.** Yn y 'Common Understanding', cytunodd y DU a'r UE i weithio tuag at gynllun fisa newydd i bobl ifanc i hwyluso gweithgareddau fel gweithio, astudio, gwneud gwaith au-pair, gwirfoddoli a theithio, gyda'r cyfnodau a'r niferoedd i'w cytuno.[65]

### Ein barn ni

**98.** Yn unol â'r dystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor hwn yn ystod y Chweched Senedd, rydym yn croesawu'r ymrwymiad i weithio tuag at gysylltiad y DU ag Erasmus+. Rydym yn nodi'r anghysondebau yn safbwynt Llywodraeth Cymru ar raglenni'r UE y mae'n ceisio cymryd rhan ynddynt. Er bod Llywodraeth Cymru wedi mynegi diddordeb mewn ailymuno â rhaglenni penodol, nid yw wedi darparu rhestr gynhwysfawr eto. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd asesu cwmpas

[63] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 102
[64] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 213
[65] Llywodraeth y DU, UK-EU Summit – Common Understanding, 19 Mai 2025, paragraff 13 [Saesneg yn unig]

uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a gwerthuso i ba raddau y maent yn cyd-fynd â pholisi'r DU.

**99.** Mae'n ymddangos bod barn yr Ysgrifennydd Cabinet bod newidiadau i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn "annhebyg" a bod cyfranogiad yn rhaglenni'r UE yn faes lle na fyddai angen diwygiadau, yn groes i ofynion y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr gynhwysfawr o raglenni'r UE yr hoffai gymryd rhan ynddynt a nodi i ba raddau y mae cytundeb rhwng pedair llywodraeth y DU ar gyfranogiad.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei dealltwriaeth o ran pam na chytunwyd ar gysylltiad y DU â rhaglenni ychwanegol yr UE, gan gynnwys Ewrop Greadigol, yn y 'Common Understanding', ac a yw Llywodraeth y DU yn dal i fynd ar drywydd cysylltiad â rhaglenni eraill.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a oes angen newidiadau i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu i hwyluso cyfranogiad y DU yn rhaglenni ychwanegol yr UE.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw wedi cyfrifo cost cymryd rhan yn Erasmus+ ac Ewrop Greadigol drwy ddefnyddio'r fformiwla a nodwyd yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu neu a yw wedi bod yn rhan o ymarfer ar y cyd ledled y DU i wneud hynny.

## Digonolrwydd data'r UE

**100.** Er nad yw digonolrwydd data yn cael ei gwmpasu gan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'i fod yn cael ei lywodraethu gan drefniadau ar wahân rhwng y DU a'r UE, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi "Sicrhau cadw Digonolrwydd Data'r UE ar gyfer busnesau o Gymru sy'n masnachu gyda'r UE" fel blaenoriaeth o ran adolygiad. Ni chodwyd hyn fel mater gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

### Barn Llywodraeth y DU

**101.** Ym mis Mai 2025, ysgrifennodd Syr Chris Bryant AS, y Gweinidog Diogelu Data a Thelathrebu, at ein Pwyllgor i amlinellu ymdrechion Llywodraeth y DU i gefnogi adnewyddu penderfyniadau digonolrwydd data'r UE. Esboniodd y cynlluniwyd y Bil Data Defnydd a Mynediad[66] gyda digonolrwydd yr UE mewn

[66] Cafodd y Bil Data (Defnydd a Mynediad), sef Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 bellach, y Cydsyniad Brenhinol ar 19 Mehefin 2025

golwg, gan gynnwys mesurau diogelu cryf a newidiadau i ymdrin â phryderon yr UE. Nododd hefyd gynnig diweddar yr UE i estyn statws digonolrwydd y DU am chwe mis, gan ei alw'n arwydd cadarnhaol.[67]

## Barn Llywodraeth Cymru

**102.** Ni chodwyd y flaenoriaeth hon mewn tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn gan yr Ysgrifennydd Cabinet. Fodd bynnag, cawsom dystiolaeth ar y mater hwn drwy waith craffu ein Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Data (Defnydd a Mynediad).

**103.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod colli penderfyniadau'r DU o ran digonolrwydd data'r UE "yn fygythiad mawr i fusnesau sy'n allforio o Gymru â'u prif farchnad dramor yw'r UE". Mae hefyd wedi rhybuddio y gallai darpariaethau yn y Bil Data (Defnydd a Mynediad) arwain at ymwahanu rheoleiddiol oddi wrth gyfundrefn diogelu data'r UE. Gallai ymwahanu o'r fath, yn ei dro, beryglu statws digonolrwydd y DU a thanseilio'r berthynas ehangach rhwng y DU a'r UE.[68] Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol o ystyried bod lefel uchel o ddiogelu data personol yn un o'r wyth egwyddor sy'n sail i gydweithrediad rhwng y DU a'r UE dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

## Ein barn ni

**104.** Rydym yn rhannu pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch posibilrwydd colli penderfyniadau digonolrwydd yr UE ar gyfer y DU a'r posibilrwydd i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu gael ei danseilio yn y dyfodol pe bai'r Bil Data (Defnydd a Mynediad) yn arwain at ymwahanu rhwng y DU a'r UE. Drwy ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Data (Defnydd a Mynediad), rydym wedi galw i'r pryderon hyn gael eu datrys fel mater o frys.[69]

[67] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Diogelu Data a Thelathrebu: 21 Mai 2025
[68] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Data (Defnydd a Mynediad)
[69] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad) – Mai 2025, tudalen 19

# 2. Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Mae’n amlwg o’r dystiolaeth bod telerau’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac ymadawiad y DU â’r UE wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y berthynas fasnachu rhwng Cymru a’r UE.

**105.** Roedd y dystiolaeth a ddaeth i law yn cwmpasu pob agwedd ar gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn ac yn cynnwys materion sector-benodol a thrawsbynciol.

**106.** Mae darlun yn dod i’r amlwg o effeithiau cyfunol y driniaeth wahanol a roddir i nwyddau a sectorau mewn cytundebau rhwng y DU a’r UE ac o ddull Llywodraeth y DU o alinio â’r UE. Mae’r angen i gefnogi busnesau a sefydliadau i addasu i’r amgylchedd esblygol hwn yn amlwg.

**107.** Ystyrir y themâu cyffredinol a phenodol hyn isod.

## Materion traws-sector

**108.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor, awgrymodd sefydliadau fod rheolau ar ôl Brexit ar gyfer masnach wedi arwain at fwy o fiwrocratiaeth, costau, amser, tarfu ar gadwyni cyflenwi a chanlyniadau anfwriadol, neu annisgwyl.

**109.** Er gwaethaf yr heriau, roedd hefyd yn amlwg bod parodrwydd ac awydd i barhau i fasnachu â’r UE, ac awgrymodd ymatebwyr welliannau ymarferol, gan gynnwys symleiddio prosesau ac arweiniad a chymorth gwell.

### Mwy o fiwrocratiaeth, costau, amser a tharfu ar gadwyni cyflenwi

**110.** Yn eu hymateb i’r ymgynghoriad, dywedodd Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban (Pwyllgor Senedd yr Alban) fod rhwystrau nad ydynt yn dariffau yn golygu bod busnesau’n wynebu heriau sylweddol wrth allforio i’r UE.[70] Cefnogwyd hyn gan Make UK, y mae ei ymchwil yn

[70] TCA02 – Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant – Senedd yr Alban, paragraff 1

dangos bod 90 y cant o fusnesau'n dal i fynd i'r afael â heriau (i lawr o 96 y cant yn 2021).[71]

**111.** Dywedodd y Gymdeithas Crefftau Garddwriaethol fod trefniadau ffiniau wedi arwain at lefelau eithriadol o gostau, gweinyddiaeth, cymhlethdodau a cholled i fasnachwyr, a bod seilwaith ac agweddau gweithredol ar y ffin wedi gwaethygu'r holl faterion hynny.[72]

**112.** Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at effaith y costau uwch ar ddiogeledd a phrisiau bwyd, ac oedi ar y ffin, gan gynnwys o ganlyniad i Fodel Gweithredu Masnach y Ffin newydd y DU y dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru ei fod yn hynod rwystredig.[73] Dywedodd y Gymdeithas Crefftau Garddwriaethol nad yw amcangyfrifon Llywodraeth y DU yn adlewyrchu adborth y diwydiant nac ymwybyddiaeth o fwy o gostau cudd.[74] Nododd ICC fod yr oedi yn amharu ar argaeledd cynnyrch ffres, a dywedodd Logistics UK ei fod wedi arwain at golledion ariannol i fasnachwyr nwyddau darfodus.[75] Mae Acanthophyllum Books yn dweud bod prosesau tollau'n achosi anfodlonrwydd dwys.[76]

**113.** Cyfeiriodd tystiolaeth ysgrifenedig gan sefydliadau gan gynnwys Make UK, Logistics UK, Undeb Amaethwyr Cymru ac RSPCA Cymru, at y ffaith bod y DU yn gweithredu rheolaethau'r ffin fesul cam tra bo'r UE wedi cymhwyso rheolaethau'r ffin ar unwaith wedi creu sefyllfa annheg, gyda mantais gystadleuol i fasnachwyr yr UE, gan gynnwys mewn perthynas â chig oen Cymru.[77] Dywedodd Pwyllgor Senedd yr Alban hefyd fod hyn yn dwysáu heriau. Roedd pryderon bod hyn yn torri rheolau Sefydliad Masnach y Byd.[78]

**114.** Tynnodd Undeb Amaethwyr Cymru sylw at ostyngiad sylweddol mewn allforion (hyd at 50 y cant ar gyfer rhai cynhyrchion cig), cynnydd mewn mewnforion cig anghyfreithlon (85 tunnell o gig anghyfreithlon wedi'i atafaelu ers mis Medi 2022) a risgiau bioddiogelwch uwch o ganlyniad i hyn ac oedi ar y ffin. Dywedodd fod oedi wrth fewnforio eitemau penodol ac nad yw rhai eitemau ar gael mwyach. [79]

[71] TCA08 - Make UK, tudalen 2 [Saesneg yn unig]
[72] TCA12 - Cymdeithas Crefftau Garddwriaethol, paragraff 54
[73] TCA15 - Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 4 [Saesneg yn unig]
[74] TCA12 - Cymdeithas Crefftau Garddwriaethol, paragraff 35
[75] TCA10 - Iechyd Cyhoeddus Cymru, tudalen 5 TCA04 - Logistics UK, tudalen 3 [Saesneg yn unig]
[76] TCA01 - Acanthophyllum Books, tudalen 1 [Saesneg yn unig]
[77] Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE – ymatebion i'r ymgynghoriad
[78] TCA02 – Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant – Senedd yr Alban, paragraff 5
[79] TCA15 - Undeb Amaethwyr Cymru [Saesneg yn unig]

**115.** Mae tystiolaeth yn awgrymu na fydd rhai o gyflenwyr yr UE yn masnachu gyda'r DU mwyach a bod rhai masnachwyr yn y DU wedi tynnu'n ôl o farchnad yr UE. Mae pwysigrwydd y DU fel partner masnachu yn yr UE wedi dirywio, yn ôl Logistics UK.[80] Dywedodd rhai, gan gynnwys y Gymdeithas Crefftau Garddwriaethol a Phwyllgor Senedd yr Alban, fod yr effaith fwyaf ar fusnesau llai ac nad ydynt yn gallu amsugno'r costau ychwanegol a'r beichiau rheoleiddiol cystal.[81] Tynnodd y Gymdeithas Crefftau Garddwriaethol sylw at adroddiadau bod cludwyr nwyddau'n amharod i dderbyn llwythi iechydol a ffytoiechydol llai oherwydd y cymhlethdodau a'r oedi cysylltiedig.[82]

### Canlyniadau anfwriadol a/neu annisgwyl

**116.** Dywedodd Acanthophyllum Books, cwmni sy'n gwerthu hen lyfrau, fod y tollau weithiau'n fwy na gwerth y llyfr, sy'n hurt, a bod rhaid i gost weinyddol y trefniadau presennol fod yn llawer mwy na'r refeniw a godir. Codir ffioedd am lyfrau a anfonir at gwsmeriaid yr UE ni waeth am eu gwerth, yn wahanol i'r Unol Daleithiau lle nad oes angen talu tollau am lyfrau gwerth hyd at $700.[83]

**117.** Rhybuddiodd ICC am newidiadau i'r broses o ganfod ac atal alcohol, tybaco a chyffuriau a fasnechir yn anghyfreithlon. Nid oes gan y DU fynediad at nifer o gronfeydd data'r UE mwyach ar gyfer nodi'r gweithgarwch hwn ac, er y gall gwiriadau ffin fod yn fanteisiol wrth fynd i'r afael â masnach anghyfreithlon, "mae cytundebau masnach ryngwladol newydd a chynigion ar gyfer porthladdoedd rhydd yn y DU a Chymru, yn creu cyfleoedd newydd, y gall troseddwyr geisio manteisio arnynt i smyglo nwyddau anghyfreithlon i Gymru a'r DU".[84]

**118.** Dywedodd y Gymdeithas Crefftau Garddwriaethol fod masnach o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon yn parhau i fod ar ei hisaf erioed, gyda rhai busnesau'n rhoi'r gorau i fasnachu â Gogledd Iwerddon yn gyfan gwbl oherwydd nad yw'n fasnachol ymarferol neu'n hyfyw.[85]

---

[80] TCA04 – Logistics UK, tudalen 3 [Saesneg yn unig]
[81] TCA12 – Cymdeithas Crefftau Garddwriaethol, paragraffau 38, 44, 46 Saesneg yn unig; TCA02 – Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant – Senedd yr Alban, paragraff 4 [Saesneg yn unig]
[82] TCA12 - Cymdeithas Crefftau Garddwriaethol, paragraff 45
[83] TCA01 - Acanthophyllum Books, tudalen 1 [Saesneg yn unig]
[84] TCA10 – Iechyd Cyhoeddus Cymru, tudalen 6
[85] TCA12 - Cymdeithas Crefftau Garddwriaethol, paragraff 29

**119.** Er gwaethaf yr anawsterau a grynhoir uchod, dywedodd Make UK fod bron tri o bob pedwar cwmni (74 y cant o weithgynhyrchwyr Prydain) yn parhau i ffafrio masnachu â'r UE, sef marchnad fwyaf Cymru a'r DU o hyd.[86]

### Darpariaethau penodol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

**120.** Croesawodd rhai rhanddeiliaid ddarpariaethau a diffiniadau penodol yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Ymhlith yr enghreifftiau y mae:

- rhyddid y DU i ymwahanu (ICC);[87]
- y diffiniad o 'safon' (Y Sefydliad Safonau Prydeinig);[88]
- Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn cefnogi cyfundrefn tegwch yn y farchnad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sydd â'r bwriad o gynnal aliniad mewn meysydd allweddol, megis diogelu'r amgylchedd a hawliau cymdeithasol a llafur, a mecanwaith datrys anghydfod rhwymol a mesurau adferol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu;[89]
- Dywedodd Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain fod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer masnach meddyginiaethau ac mae'n croesawu'r ffaith bod meddyginiaethau bob amser wedi'u hystyried yn bwysig gan y ddwy ochr.[90]

### Gwelliannau awgrymedig i'r darpariaethau presennol

**121.** Roedd tystiolaeth i'r pwyllgorau yn amlinellu nifer o awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, gan gynnwys gweithredu'r darpariaethau presennol yn fwy cyson a chanllawiau gwell ar eu gweithredu.

**122.** Mae llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cefnogi cydnabyddiaeth gilyddol ar asesiadau cydymffurfio, addasiadau a symleiddio rheolau tarddiad, tollau a chyfundrefnau iechydol a ffytoiechydol, diwygiadau i ddarpariaethau masnach penodol a mwy o gefnogaeth i reoli cymhlethdodau drwy ddatblygu canllawiau clir rhwng y DU a'r UE gyda mewnbwn gan y diwydiant.

[86] TCA08 – Make UK, tudalen 2 [Saesneg yn unig]
[87] TCA10 – Iechyd Cyhoeddus Cymru, tudalen 6
[88] TCA03 – Y Sefydliad Safonau Prydeinig, adran 2 [Saesneg yn unig]
[89] TCA15 - Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 5 [Saesneg yn unig]
[90] TCA13 - Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain, tudalen 3 [Saesneg yn unig]

**123.** Tynnodd Logistics UK, Pwyllgor Senedd yr Alban ac eraill sylw at ddiffyg canllawiau a chymorth.[91] Dywedodd Make UK nad newid y mae gweithgynhyrchwyr yn dyheu amdano mwyach, ond symleiddio'r hyn sydd yno eisoes. Mae 47 y cant o'i aelodau eisiau cydweithrediad mwy effeithiol i symleiddio prosesau a lleihau rhwystrau masnach.[92] Dywedodd Logistics UK nad yw trefniadau tollau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cael eu gweithredu, neu nad ydynt yn cael eu gweithredu'n gyson.[93]

**124.** Roedd y Sefydliad Safonau Prydeinig o'r farn, hyd yn oed heb newid y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, fod cyfleoedd i wella'r ffordd y caiff ei weithredu ar hyn o bryd drwy:

- wneud defnydd gwell o'r darpariaethau cydweithredu presennol;
- cynyddu cydweithrediad rhwng rheoleiddwyr ym meysydd yr economi ddigidol (megis AI), datgarboneiddio diwydiant (megis Mecanweithiau Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau) ac adrodd ar ddiwydrwydd dyladwy cadwyni cyflenwi.[94]

## Barn Llywodraeth Cymru

**125.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth yr Aelodau na fydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu byth yn disodli'r hyn a gollwyd drwy ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Dywedodd y canlynol:

> *"Leaving was always going to result in barriers to trade and issues in relation to mobility … But, nevertheless, it's the deal that we now have, so we should be focusing on how we use those structures to the best benefit of Wales."*[95]

**126.** Nododd ei barn hefyd fel a ganlyn:

---

[91] TCA04 – Logistics UK[Saesneg yn unig]; TCA02 – Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant – Senedd yr Alban [Saesneg yn unig]
[92] TCA08 - Make UK, tudalen 15 [Saesneg yn unig]
[93] TCA04 - Logistics UK, tudalen 4 [Saesneg yn unig]
[94] TCA03 - Y Sefydliad Safonau Prydeinig, adran 9 [Saesneg yn unig]
[95] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 7

> *"... by any measure, I don't think that Brexit could be described as a success, particularly in relation to trade."*[96]

**127.** Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at y ffaith bod allforion Cymru i'r UE wedi gostwng tua 31 y cant rhwng 2019 a 2024, tra bod mewnforion yr UE i Gymru wedi gostwng 20 y cant.[97] Parhaodd fel a ganlyn:

> *"But despite this, the EU is still our biggest trading partner, accounting for around 61 per cent of Welsh exports, as compared to 50 per cent of UK exports overall. So, I think that demonstrates that Wales is particularly impacted and is more reliant on trade with the EU than other parts of the UK. So, in that sense, it's been disproportionately impacted.*
>
> *But then I would just also make the point that it's really hard to disentangle the impact of Brexit from other things that have happened in that intervening period, and particularly, of course, the pandemic. So, I think that there's still research going on in that space to try and better understand what you can attribute to Brexit and what you can attribute to the pandemic."*[98]

**128.** Ar y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ymateb i effeithiau Brexit ar fasnach Cymru, tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at ei dyraniad cyllideb parhaus ar gyfer 2025-26 o £3.5 miliwn ar gyfer cymorth allforio. Dywedodd fod y cyllid hwn yn darparu cymorth un i un i fusnesau ddatblygu strategaethau allforio, ymgymryd ag ymchwil i'r farchnad dramor a nodi cwsmeriaid newydd. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar amodau masnachu lleol, rheoliadau a gweithdrefnau allforio. Tynnodd sylw hefyd at genadaethau masnach allforio'r llywodraeth, y cynhaliwyd dwy ohonynt yn ddiweddar yng Nghaerdydd a Llandudno.[99]

**129.** Wrth sôn am ganlyniadau'r adolygiad yr hoffai Llywodraeth Cymru ei weld, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

---

[96] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 94
[97] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 8
[98] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 8
[99] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraffau 65-68

> *"There are definitely some specific things, potentially smaller things, that could be addressed through the review, such as guidance, the transparency on rules of origin, and also the alignment of digital systems with customs and the sharing of information on marketing and labelling. Those are things that could fundamentally improve the implementation of this TCA, but without changing the agreement itself, so relatively small but practical things that could be done.*
>
> *And then there are wider things that could be addressed through a reset, for example—boosting trade through a sanitary and phytosanitary agreement, improvements around rules of origin, and potentially new agreements on mutual recognition of conformity assessment bodies, and, of course, the improved mobility arrangements as well. So, there are definitely specific things that we hope to see some progress on."*[100]

**130.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet yn ystod y sesiwn nad oedd Llywodraeth Cymru yn gwybod eto beth yw blaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer yr adolygiad ac, felly, a yw eu blaenoriaethau'n cyd-fynd â'i gilydd.[101]

## Ein barn ni

**131.** Fel marchnad allforio fwyaf Cymru, mae'n amlwg o'r dystiolaeth bod yr UE yn parhau i fod yn hanfodol i lawer o sectorau economi Cymru. Mae tystiolaeth yn disgrifio sut y mae telerau'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE wedi arwain at fwy o rwystrau masnach a chanlyniadau annisgwyl neu anfwriadol mewn rhai achosion. Mae hyn wedi cael effaith yn arbennig ar fentrau bach a chanolig sydd â llai o adnoddau a chapasiti i addasu.

**132.** Mae'r Pwyllgor yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru ei hun, bod hyn wedi cael effaith anghymesur ar Gymru. Er bod rhai wedi galw am atebion mwy pellgyrhaeddol, mae'n amlwg bod ystod o gamau gweithredu ymarferol, cymharol fach a allai leihau rhwystrau a chefnogi'n well y sectorau sy'n dibynnu ar fasnach yr UE yn y tymor byr. Gallai hyn gynnwys drafftio canllawiau gwell wedi'u datblygu ar y cyd â'r sector allforio a gweithredu'r darpariaethau presennol yn gyson.

[100] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 70
[101] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 168

**133.** Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr adolygiad o ran masnach yn cyd-fynd yn fras â'r dystiolaeth a gafwyd gan y pwyllgorau ac mae rhai wedi'u cynnwys yng nghynlluniau'r DU a'r UE yn y 'Common Understanding'.

**134.** Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn bryderus o glywed nad oedd Llywodraeth Cymru yn gwybod beth yw blaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer yr adolygiad o weithrediad ac felly nid yw mewn sefyllfa i asesu a yw eu blaenoriaethau yn cyd-fynd â'i gilydd.

**135.** Gwrthododd Llywodraeth y DU wahoddiad i roi tystiolaeth lafar i'r pwyllgorau ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i nodi ei blaenoriaethau ar gyfer yr adolygiad ac ystyried y materion sy'n cael eu codi gan sectorau yng Nghymru.

**136.** Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r cytundeb 'Common Understanding' rhwng y DU a'r UE yn cwmpasu pob sector, nac yn mynd i'r afael yn llawn â'r materion a godwyd mewn tystiolaeth. At hynny, mae llawer o ansicrwydd ac agweddau anhysbys o ran y trefniadau yn y dyfodol, megis cyfraniad ariannol y DU mewn perthynas ag aliniad deinamig.

**137.** Ers ymadawiad y DU â'r UE, mae sectorau a nwyddau gwahanol yn ddarostyngedig i drefniadau gwahanol rhwng y DU a'r UE a threfniadau domestig gwahanol, neu byddant yn ddarostyngedig iddynt. Mae'r driniaeth wahaniaethol hon yn golygu nad yw'r effaith ar draws sectorau'n unffurf. Mae angen esbonio hyn yn glir a dylai'r cymorth a roddir gael ei deilwra'n briodol.

**138.** Er bod Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at arwyddocâd yr UE i allforwyr Cymru, nid yw'n glir sut y mae'n edrych y tu hwnt i ffigurau masnach lefel uchel i asesu'r effaith wahaniaethol hon a sicrhau bod ei blaenoriaethau a'i chymorth yn y dyfodol yn wybodus ac yn effeithiol.

**139.** Mae'r Pwyllgor hwn wedi croesawu cyhoeddi dogfennau 'safbwyntiau' gan Lywodraeth Cymru ar gytundebau masnach ryngwladol a'u heffeithiau yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad sector-benodol hwn yn bwysig. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru asesiad lefel uchel cychwynnol o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn 2021 ond nid yw wedi cyhoeddi asesiad cynhwysfawr ers hynny.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru lunio dogfen safbwyntiau ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn unol â'i dull o ran cytundebau masnach rhyngwladol eraill fel mater o frys.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i’r pwyllgorau ar y graddau y mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer yr adolygiad o weithrediad yn alinio o ran masnach a beth yw’r goblygiadau i Gymru. Lle nad yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cyd-fynd, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn cefnogi’r sectorau yr effeithir arnynt.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i alw ar y DU a’r UE i flaenoriaethu camau ymarferol i fynd i’r afael â gwrthdaro wrth fasnachu a dylai roi’r diweddariadau chwarterol i’r Pwyllgor hwn ar gynnydd yn y meysydd a restrir yn y bennod hon.

**Argymhelliad 13.** Mae’r Pwyllgor yn disgwyl i Lywodraeth Cymru godi camau ymarferol i fynd i’r afael â rhwystrau masnach mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol. Dylai ddarparu adroddiadau manwl i’r Pwyllgor hwn ar gynnydd yn ei datganiadau ysgrifenedig a’i hysbysiadau cyfarfodydd.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei chymorth busnes i sectorau’n cael ei deilwra i adlewyrchu’r effeithiau y mae’r driniaeth wahanol o nwyddau a gwasanaethau yn eu cael ar gwmnïau a sectorau.

## Cytundeb iechydol a ffytoiechydol

**140.** Yn y ‘Common Understanding’, nododd y DU a’r UE eu bwriad i negodi cytundeb iechydol a ffytoiechydol newydd a ddylai ddileu gofynion penodol, megis tystysgrifau iechyd allforio, a gwrthdroi gwaharddiadau ar allforio cynhyrchion fel pysgod cregyn a thatws hadyd.

**141.** Dylai sicrhau bod yr un rheolau’n gymwys ar bob adeg rhwng y DU a’r UE. Er mwyn cyflawni hyn, byddai’r DU yn alinio’n ddeinamig â rheolau’r UE. The UK will:

- Bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn ymgynghori â’r DU ar ddeddfwriaeth a pholisi’r UE yn gynnar;
- Mae rhaid i’r DU wneud cyfraniad ariannol priodol i gefnogi gwaith yr UE.

**142.** Mae’r “angen am gytundeb iechydol a ffytoiechydol (SPS) sy’n ymdrin ag iechyd a masnachu anifeiliaid a phlanhigion” yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr adolygiad ac mae wedi cael cefnogaeth eang mewn tystiolaeth ysgrifenedig. Er enghraifft, mae RSPCA Cymru o’r farn y byddai cytundeb o’r fath yn gwella safonau lles anifeiliaid ac yn mynd rhywfaint o’r ffordd tuag at fynd i’r

afael â'r ffaith nad yw darpariaethau dim atchwelyd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gymwys i les anifeiliaid.[102]

**143.** Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am reolaethau bioddiogelwch, diogelwch bwyd ac iechydol a ffytoiechydol Cymru. Mae rheolaethau iechydol a ffytoiechydol yn diogelu iechyd anifeiliaid, iechyd planhigion ac iechyd y cyhoedd. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig yn galw i'r llywodraethau datganoledig fod yn rhan wrth negodi cytundeb iechydol a ffytoiechydol am y rheswm hwn.

**144.** Gallai cytundeb iechydol a ffytoiechydol rhwng y DU a'r UE leihau'n sylweddol yr angen am reolaethau masnach ar nwyddau amaethyddol a bwyd-amaeth. Canfu ymchwil a goladwyd gan UK in a Changing Europe y gallai arwain at gynnydd 22.5 y cant mewn allforion bwyd-amaeth o'r DU a chynnydd 5.6 y cant mewn mewnforion o'r UE, gan ychwanegu 0.22 y cant hefyd at werth sector amaethyddol y DU.[103]

**Safleoedd rheolaethau'r ffin**

**145.** Yn ystod gwaith craffu cyffredinol ym mis Tachwedd 2024, gofynnodd yr Aelodau i'r Ysgrifennydd Cabinet a allai cytundeb iechydol a ffytoiechydol leihau neu hyd yn oed ddileu'r angen am reolaethau masnach i'r graddau na fyddai angen y tri Safle Rheolaethau'r Ffin newydd, yn Abergwaun, Doc Penfro a Chargybi (gyda'r diweddaraf wrthi'n cael ei adeiladu). Mewn ymateb, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru y canlynol:

> *"It may take some time to negotiate. It's impossible to say right now, but it might not be as quick as perhaps we would hope, so there could well be a period in which we would need border controls before that agreement was to come into place … But we still need to plan for the eventuality of having border controls, but, one day, hoping that there would be an agreement in place. … If the agreement fulfilled our expectations, potentially, in the future, that might not be required, but there could well be a period in the interim where it would be."*[104]

**146.** Ym mis Ionawr 2024, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn disgwyl na fyddai rhagor o gostau Safleoedd Rheolaethau'r Ffin yn fwy na £70 miliwn. Mae ei

[102] TCA09 - RSPCA Cymru, tudalennau 3-4
[103] UK in a Changing Europe: Would a veterinary agreement be a boost for UK-EU agri-food exports? - Mehefin 2024
[104] Cofnod y Trafodion:Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – 14 Tachwedd 2024, paragraff 317

chyllideb ar gyfer 2025-26 yn cynnwys cyfraniad gan Lywodraeth y DU o £28.96 miliwn o gyfalaf a £357,000 o refeniw ar gyfer costau adeiladu. Yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft ym mis Ionawr 2025, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor fod gostyngiad 36.5 y cant yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru at linell wariant yn y gyllideb Safleoedd Rheolaethau’r Ffin yn adlewyrchu angen ac nad oedd yn gysylltiedig ag unrhyw gytundeb iechydol a ffytoiechydol posibl rhwng y DU a’r UE yn y dyfodol.[105]

**147.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, gwnaeth y Gymdeithas Crefftau Garddwriaethol argymhellion manwl ar sut i wella seilwaith, technoleg a bioddiogelwch yn Safleoedd Rheolaethau’r Ffin. Esboniodd fel a ganlyn:

> *“While the reasoning is understood behind the delays in appointing and building the required functioning Border Control Posts at Welsh ports, this has meant a “Business As Usual” point has not yet been reached by traders, hauliers & carriers using the Irish Sea to carry goods. HTA strongly advocate for BCPs to be built around the needs for plants, trees, seeds and bulb shipments. These types of consignments are often seen as ‘exceptional’ ones e.g. larger, bulky, difficult to off load & reload, sensitive and perishable. However, for the trade these are commonplace traded goods and BCPs need to be built to the correct specifications to handle them, process them and test them speedily, smoothly and safely with minimal cost to all involved. Learning from the mistakes made at EU facing BCPs is strongly advised.”* [106]

### Barn Llywodraeth Cymru

**148.** drafodaethau ar iechydol a ffytoiechydol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor ar 2 Ebrill:

- fod swyddogion o dîm cysylltiadau rhyngwladol a masnach Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd wythnosol trawslywodraethol;
- bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod iechydol a ffytoiechydol â chymheiriaid yn DEFRA;

[105] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – 15 Ionawr 2025, paragraff 162
[106] TCA12 - Cymdeithas Crefftau Garddwriaethol, paragraff 14

- bod trafodaethau wedi digwydd yng Ngrŵp Cynghori ar Bolisi Masnach Llywodraeth Cymru;
- bod y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn arwain y gwaith hwn ac yn mynd i gyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol ledled y DU ar yr amgylchedd, pysgodfeydd a materion gwledig.[107]

**149.** Mae'r communiqué diweddaraf o gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ym mis Ionawr yn dangos y cafodd ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ac y trafodwyd rôl a phwysigrwydd cynnwys y llywodraethau datganoledig ar gytundeb iechydol a ffytoiechydol.[108]

**150.** Wedi hynny, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE hefyd wedi trafod ymrwymiad i ddarparu ardal iechydol a ffytoiechydol gyffredin ar 12 Mai.[109]

**151.** Mae sylwebwyr wedi amau pa effaith y gallai cytundeb iechydol a ffytoiechydol â'r UE ei chael ar gytundebau masnach a negodiadau presennol y DU, megis y Cytundeb Masnach Rydd newydd rhwng y DU a Seland Newydd, aelodaeth y DU o'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel a'i negodiadau parhaus â'r Unol Daleithiau.[110]

**152.** Ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn cydbwyso ei blaenoriaethau o ran yr UE a'r Unol Daleithiau, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"… with the US, it really is about understanding now what Trump has in mind and what his plans are, and undertaking that analysis, really, to understand what the impacts are for us, engaging with stakeholders, where necessary, to understand what their priorities might be, and, of course, talking to the UK Government, then, about what a collective response might look like.*

[107] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Ebrill 2025, paragraffau 17, 21, 49 a 73
[108] Communiqué Grŵp Rhyngweinidogol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig – 27
[109] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: 9 Mehefin 2025
[110] David Hening, What Next for the UK-EU Trade Relationship?, Y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Economi Wleidyddol Ryngwladol, Mai 2025; Ymchwil y Senedd: Taro bargen: Archwilio masnach rhwng Cymru a'r UDA – Chwefror 2025

> *So, yes, as I said, there's remarkably little information as to what might transpire, but as soon as we are able to say, or are able to have more information, we'll be able to respond appropriately."*[111]

**153.** Ar 19 Mai, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol am y 'Common Understanding':

> *"Roedd Llywodraeth Cymru'n glir bod sicrhau cytundeb gyda'r UE i leihau rhwystrau masnach mewn amaethyddiaeth, bwyd a diod yn flaenoriaeth. Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad heddiw ar Safonau Glanweithiol a Ffytoiechyd. Daw cytundeb o'r fath â budd mawr i'n sectorau amaethyddol, bwyd a diod."*[112]

**154.** Ar 24 Mehefin, cyhoeddodd Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, wrth ddisgwyl cytundeb iechydol a ffytoiechydol:

> *"Felly, rwyf wedi penderfynu peidio â chomisiynu a staffio'r safle yng Nghaergybi, ac na chaiff adeiladu safle rheolaethau'r ffin yn Abergwaun a Doc Penfro ei gychwyn. Byddaf yn parhau i adolygu'r penderfyniad hwn hyd nes bod manylion terfynol y cytundeb â'r UE yn hysbys."*[113]

## Ein barn ni

**155.** Gan ddibynnu ar ei gynnwys, gallai cytundeb iechydol a ffytoiechydol gael goblygiadau sylweddol i fasnach rhwng Cymru a'r UE a safleoedd rheolaethau'r ffin newydd Cymru.

**156.** Mae'r Pwyllgor yn nodi:

- y paramedrau a nodir yn y 'Common Understanding' ar gyfer cytundeb iechydol a ffytoiechydol, gan gynnwys y ffaith ei bod yn debygol y bydd angen aliniad deinamig y DU â rheolau'r UE.

---

[111] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Ebrill 2025, paragraff 216
[112] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Uwchgynhadledd yr UE a'r DU – Mai 2025
[113] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Rheolaethau'r Ffin ar fewnforion i Gymru o Iwerddon – 24 Mehefin 2025

- barn Llywodraeth Cymru, y gallai cytundeb iechydol a ffytoiechydol fod o fudd i'r sector bwyd-amaeth.
- y gefnogaeth eang i gytundeb iechydol a ffytoiechydol yn y dystiolaeth a gafodd.

**157.** Mae iechydol a ffytoiechydol yn fater datganoledig ac mae'n hanfodol bod llywodraethau datganoledig yn cymryd rhan lawn yn y negodiadau a gweithrediad unrhyw gytundeb iechydol a ffytoiechydol â'r UE. Felly, mae'r Pwyllgor yn croesawu rheoleidd-dra trafodaethau cysylltiadau rhynglywodraethol ar gytundeb iechydol a ffytoiechydol posibl.

**158.** Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau ei bod yn rhan o drafodaethau manwl â Llywodraeth y DU ar gytundeb iechydol a ffytoiechydol, gan gynnwys sicrhau bod rhanddeiliaid yng Nghymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau ledled y DU.

**159.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y 'Common Understanding' yn datgan y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn ymgynghori â'r DU ar ddeddfwriaeth a pholisi'r UE yn gynnar. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn canfod sut y byddai'n rhan o fecanweithiau ymgynghori sy'n cael eu datblygu.

**160.** Mae hefyd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r berthynas a'r rhyngddibyniaethau rhwng cytundeb iechydol a ffytoiechydol rhwng y DU a'r UE a'r cytundebau masnach presennol.

**161.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i fod yn ymwybodol o'r berthynas rhwng negodiadau rhwng y DU a'r UE a negodiadau rhwng y DU a'r UD y gall fod angen cyfnewid a chyfaddawdu.

**162.** Byddem yn croesawu barn Llywodraeth Cymru ynghylch a yw'r 'Common Understanding' yn codi materion cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol Cymru a allai ei gwneud yn ofynnol ailnegodi'r cytundebau masnach presennol y tu allan i'r UE. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn asesu manteision, cyfaddawdau a goblygiadau cytundeb iechydol a ffytoiechydol ar draws ei pherthnasoedd masnachu a pharhau i adolygu'r effeithiau cronnol.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a allai'r 'Common Understanding' ei gwneud yn ofynnol i ailnegodi cytundebau masnach y tu allan i'r UE.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod sefyllfa unigryw Cymru o ran y llif masnach ar ôl Brexit yn cael ei hystyried mewn

trafodaethau â Llywodraeth y DU ar gytundeb iechydol a ffytoiechydol rhwng y DU a'r UE.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru ganfod ei rôl yn y mecanwaith ymgynghori cynnar â'r UE fel rhan o gytundeb iechydol a ffytoiechydol a hysbysu'r pwyllgorau cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu goblygiadau cytundeb iechydol a ffytoiechydol ar safleoedd rheolaethau'r ffin a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn ei hymateb i'r adroddiad hwn ac yn chwarterol wedi hynny.

## Symudedd gweithwyr a darparu gwasanaethau

**163.** Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys darpariaethau cyfyngedig ar gyfer symudiad pobl, gan gynnwys ar gyfer ymwelwyr busnes tymor byr.

**164.** Yn y 'Common Understanding', mae'r DU a'r UE wedi cytuno i sefydlu:

> *"… dedicated dialogues on short term business mobility and the recognition of professional qualifications. This will create a forum for us to address mobility barriers faced by UK services providers in the EU."*[114]

**165.** Mae "Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â symudedd gweithwyr a darparu gwasanaethau" yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr adolygiad ond nid yw'n glir at ba faterion penodol y mae hyn yn cyfeirio.[115] Wrth ymateb i adroddiad Sioc ddiwylliannol y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"gallaf roi sicrwydd bod ein blaenoriaethau lefel uchel yn cynnwys y problemau symudedd sy'n cael eu profi gan ystod eang o fusnesau ac*

[114] Llywodraeth y DU, UK-EU Summit – Common Understanding - 19 Mai 2025, paragraff 46 [Saesneg yn unig]
[115] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 28 Ionawr 2025

> *unigolion. Ar hyn o bryd rydym yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y blaenoriaethau hyn."*[116]

**166.** Nododd rhywfaint o'r dystiolaeth ysgrifenedig fod colli'r rhyddid i symud yn rhywbeth negyddol neu gyfyngol, gan gynnwys Cymru dros Ewrop, Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain, Taith, Logistics UK, TAC a Make UK. Codwyd materion yn ymwneud â symudedd economaidd, diwylliannol ac addysgol dro ar ôl tro ar draws sectorau gwahanol, megis iechyd, teithio, logisteg, amaethyddiaeth ac addysg uwch. [117]

**167.** Dywedodd ICC fod y gall hyn waethygu'r prinder staff presennol,[118] a dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru ei fod wedi taro'r diwydiant ffermio yn anghymesur, gan arwain at lai o filfeddygon ar adeg pan fo angen gwiriadau milfeddygol ychwanegol.[119]

**168.** Dywedodd Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain fod trefniadau symudedd llafur y Cytundeb Masnach a Chydweithredu'n rhwystr sylweddol i dwf ac yn rhwystr i'r diwydiant teithio. Croesawodd yr eglurder a ddarparwyd ar feysydd allweddol ar gyfer teithio ond cododd bryderon ynghylch cyfyngiadau ar weithgareddau a rolau a gyflawnir gan wladolion y DU. Er enghraifft, dywedodd fod diffyg eglurder o hyd ynghylch a yw'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys athrawon sy'n parhau i addysgu myfyrwyr yn ystod teithiau ysgol yn yr UE. Yn fwy cyffredinol, dywedodd Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain fod rheol 90/180 diwrnod Schengen yn rhwystr sylweddol nad yw'n cwmpasu rolau hanfodol yn y diwydiant twristiaeth. Mae ei hymchwil yn dangos gostyngiad 69 y cant yn nifer gwladolion y DU sy'n gweithio mewn rolau tramor ers 2017.[120]

**169.** Dywedodd sawl un, gan gynnwys Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain a Taith, ei fod yn cael yr effaith fwyaf ar bobl iau a'r rhai sydd ar ddechrau eu gyrfa ac mai hwy sy'n wynebu'r anawsterau mwyaf.[121] Dywedodd Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain fod llawer o gwmnïau yn y DU wedi lleihau gweithgarwch neu wedi rhoi'r gorau i weithredu.[122]

---

[116] Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad 'Sioc Ddiwylliannol' y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – Rhagfyr 2024
[117] Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE – ymatebion i'r ymgynghoriad
[118] TCA10 – Iechyd Cyhoeddus Cymru, tudalen 9
[119] TCA15 – Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 3 [Saesneg yn unig]
[120] TCA14 – Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain, tudalen 3 [Saesneg yn unig]
[121] TCA14 – Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain, tudalen 3 [Saesneg yn unig]; TCA05 – Taith, tudalen 2 [Saesneg yn unig]
[122] TCA14 – Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain, tudalen 5 [Saesneg yn unig]

### Ein barn ni

**170.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ffocws Llywodraeth Cymru ar symudedd a darparu gwasanaethau ac yn nodi bod hyn yn cyd-fynd yn fras â'r dystiolaeth a gafwyd gan y pwyllgorau.

**171.** Rydym yn cytuno y dylai hyn fod yn flaenoriaeth, ac y dylai Llywodraeth Cymru fynd ar drywydd hyn gyda Llywodraeth y DU a rhoi diweddariadau am hynt trafodaethau â Llywodraeth y DU a'r goblygiadau dilynol i Gymru.

**Argymhelliad 19.** Yn unol ag argymhellion 12 a 13 o'r bennod hon, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar hynt trafodaethau rhwng y DU a'r UE, a thrafodaethau â Llywodraeth y DU ar ddarparu gwasanaethau a'r goblygiadau dilynol i Gymru.

## Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol

**172.** Fel y nodwyd uchod, mae'r DU a'r UE wedi cytuno i sefydlu deialogau pwrpasol ar weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu o ran mynediad ac arhosiad dros dro personau naturiol at ddibenion busnes, gan gynnwys y cynllun nawdd, a chydnabod cymwysterau proffesiynol. Ni thrafodwyd materion eraill megis cydnabyddiaeth gilyddol o asesiadau cydymffurfio. Yn ei dogfen safbwyntiau Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel, nododd Llywodraeth Cymru y gallai Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel osod cynsail annefnyddiol lle y mae partneriaid masnach yn ceisio dylanwadu ar newidiadau i ddull y DU ar ôl Brexit, gan arwain at risgiau i ddiogelwch cynnyrch ac ymwahanu oddi wrth yr UE. Dywed y byddai hyn yn cynyddu rhwystrau i fasnach rhwng Cymru a'r UE.[123]

**173.** Mae "Ceisio Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol, yn enwedig ar asesiadau cydymffurfio i leihau unrhyw ddrwgdeimlad o ran masnach" yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ac mae'n cyd-fynd â'r dystiolaeth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad.[124]

**174.** Mae Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol yn fodd o gydnabod nwyddau a gwasanaethau'n awtomatig heb yr angen i ailardystio. Felly, gall nwyddau a gwasanaethau gael eu hardystio'n ddomestig a'u cydnabod yn awtomatig gan ardystiwr y partner masnachu.

[123] Llywodraeth Cymru, Safbwyntiau Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel – 2023 [Saesneg yn unig]
[124] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 28 Ionawr 2025

**175.** Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn gefnogol i gydnabyddiaeth gilyddol ar asesiadau cydymffurfio, gan gynnwys ICC.[125]

**176.** Tynnodd Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain sylw at y ffaith na chafwyd Cytundeb Cydnabyddiaeth Gilyddol ar swp-brofi meddyginiaethau ar gyfer diogelwch ac ansawdd. Mae'r DU wrthi'n cydnabod profion yr UE yn unochrog, ond nid yw'r UE yn cydnabod profion y DU. Mae wedi annog llywodraeth y DU i roi hyn ar yr agenda gyda'r UE, a byddai'n croesawu unrhyw gymorth ychwanegol y gall gweinyddiaethau datganoledig ei roi, yn enwedig o ystyried y cymorth y gallai cytundeb o'r fath ei ddarparu i weithgynhyrchwyr ac allforwyr meddyginiaethau Cymru. Mae Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain yn credu y byddai Cytundeb Cydnabyddiaeth Gilyddol yn gwella'r cyflenwad meddyginiaethau i gleifion, yn arbed amser ac arian (mae 46 y cant o allforion meddyginiaethau a chynhyrchion fferyllol y DU yn mynd i'r UE) ac arallgyfeirio cyflenwad i bartneriaid o'r un anian yn yr UE.[126]

**177.** Dywedodd Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain ac ICC hefyd fod y ffaith nad yw cymwysterau proffesiynol yn cael eu cydnabod yn gilyddol yn golygu bod gweithwyr proffesiynol y DU ar eu colled.[127]

**178.** Mae Grŵp Cynghori Domestig y DU, y corff cymdeithas sifil a sefydlwyd gan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i gynghori Llywodraeth y DU, wedi galw'n gyson am gynnydd o ran cydnabyddiaeth gilyddol. Mewn datganiad cyn uwchgynhadledd y DU a'r UE ym mis Mai, galwodd aelodau Grŵp Cynghori Domestig y DU i'r DU a'r UE hyrwyddo'r agenda cydnabyddiaeth gilyddol mewn sectorau diwydiannol ar asesiadau cydymffurfio a chymwysterau proffesiynol.[128]

## Ein barn ni

**179.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod ceisio Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a bod hyn hefyd yn adlewyrchu'r dystiolaeth a gafwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ar gyfer canllawiau symlach.

**180.** Pwysleisiodd tystiolaeth i'r pwyllgorau bwysigrwydd Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol ar asesiadau cydymffurfio yn Gilyddol i sectorau

[125] TCA10 – Iechyd Cyhoeddus Cymru, tudalen 9; TCA13 – Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain, tudalen 4
[126] TCA13 – Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain, tudalennau 4 a 5 [Saesneg yn unig]
[127] TCA14 – Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain, tudalen 4 [Saesneg yn unig]; TCA10 – Iechyd Cyhoeddus Cymru, tudalen 6
[128] The UK Domestic Advisory Group Statement ahead of the EU-UK Summit, Mai 2025 [Saesneg yn unig]

allweddol yng Nghymru a'r angen i weithredu'n gyflymach i sicrhau bod cymwysterau proffesiynol yn cael eu cydnabod yn gilyddol ar draws ystod ehangach o sectorau.

**181.** Ni roddir sylw i asesiadau cydymffurfio yn y 'Common Understanding' er bod cefnogaeth glir i wneud cynnydd ar y mater hwn.

**182.** Fel yr esboniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig deall effaith gyfunol cytundebau masnach presennol megis y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel gyda'r trefniadau posibl yn cael eu negodi o ganlyniad i'r 'Common Understanding'.

**Argymhelliad 20.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi:

- pam nad aethpwyd ar drywydd rhagor o welliannau i'r Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol ar asesiadau cydymffurfio yn y 'Common Understanding';
- cadarnhau a yw'r mater hwn yn dal i gael ei ddilyn gyda'r UE;
- nodi a fydd yn rhan o'r adolygiad o weithrediad.

## Molysgiaid dwygragennog byw

**183.** Mae "Mynd i'r afael â materion allforio sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw"[129] yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr adolygiad ond ni chodwyd hynny mewn ymatebion i'r ymgynghoriad.

**184.** Gall molysgiaid dwygragennog byw barhau i gael eu hallforio o ddyfroedd dosbarth A i'r UE ar ôl Brexit. Fodd bynnag, ni all molysgiaid dwygragennog byw o ddyfroedd dosbarth B gael eu hallforio i'r UE gan fod angen iddynt gael eu puro neu eu prosesu cyn bod modd i bobl eu bwyta. Fel yr esboniodd Llywodraeth flaenorol y DU:

> *"Exporters have previously exported class B shellfish to the EU where they were purified. Now that the UK is classed as a third country, the EU Commission have voiced concerns about the trade in uncleaned live bivalve molluscs, harvested from Class B waters."*[130]

[129] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 28 Ionawr 2025
[130] Defra in the media: Exporting live bivalve molluscs to the European Union – 2 Chwefror 2021

**185.** Mae tiroedd cynhyrchu molysgiaid dwygragennog byw yng Nghymru a Lloegr yn ddyfroedd dosbarth B gan mwyaf. Ym mis Mehefin 2021, hybsysodd Llywodraeth flaenorol y DU y canlynol:

> *"... a critical requirement for improvements in the classification status of harvesting areas is improvements in water quality. Changes in protocols are not expected to lead to major changes in classifications awarded for shellfish harvesting areas in England and Wales until water quality improves."*[131]

**186.** Ym mis Gorffennaf 2021, ysgrifennodd Lesley Griffiths AS, y cyn-Weinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith mewn ymateb i lythyr oddi wrth ei bwyllgor rhagflaenol yn y Bumed Senedd yn esbonio bod ailddosbarthu dau o'r gwelyau yn y Fenai wedi caniatáu i rywfaint o allforio ailddechrau.[132]

**187.** Nid yw'r 'Common Understanding' yn sôn am bysgod cregyn a molysgiaid dwygragennog byw. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn dweud y canlynol yn ei chanllawiau esboniadol:

> *"British products that were banned, such as fresh sausages and burgers, certain shellfish from domestic waters, and seed potatoes will be able to resume trade to the EU, increasing markets for these goods"*[133]

**188.** Yn ddiweddarach yn y canllawiau, mae'r cyfeiriad at y mater hwn yn wahanol. Dywed fel a ganlyn:

> *"... reopening shellfish trade: shellfish from certain types of GB domestic waters currently banned in the EU will be able to be exported again."*[134]

[131] Seafood and meat exports to the EU: Government Response to the Committee's Eighth Report of Session 2019–21 – 29 Mehefin 2021
[132] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: 19 Gorffennaf 2021
[133] Llywodraeth y DU, UK-EU Summit – Explainer - 19 Mai 2025 [Saesneg yn unig]
[134] Llywodraeth y DU, UK-EU Summit – Explainer - 19 Mai 2025 [Saesneg yn unig]

**189.** Nid yw'n glir, felly, a fydd molysgiaid dwygragennog byw o ddyfroedd Cymru yn bendant yn cael eu cwmpasu.

**190.** Yn ei datganiad ar 19 Mai 2025, dywed Llywodraeth Cymru y canlynol:

> *"Byddwn yn dal i wasgu ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y cytundeb yn caniatáu i ni ailgychwyn gwerthu molysgiaid dwygragennog byw o ddyfroedd Cymru i'r UE."*[135]

### Ein barn ni

**191.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cytundeb iechydol a ffytoiechydol a negodwyd yn darparu ar gyfer ailddechrau masnach mewn molysgiaid dwygragennog byw i'r UE.

**192.** Er bod y Pwyllgor yn deall bod hwn wedi bod yn fater hirsefydlog rhwng y DU a'r UE, nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu diweddariad na dadansoddiad o'r effaith ar y sector ffermio pysgod cregyn yng Nghymru a fyddai'n cynorthwyo'r Pwyllgor i benderfynu, yn gyntaf, pa mor briodol yw'r flaenoriaeth hon ac, yn ail, i fonitro'r fasnach rhwng Cymru a'r UE ar ôl Brexit.

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad a dadansoddiad o effeithiau hanesyddol y mater hwn ar y sector ffermio pysgod cregyn ac ar fasnach yng Nghymru, a'i effeithiau posibl yn y dyfodol.

## Rheolau tarddiad

**193.** Mae "Trafodaethau ynghylch rheolau tarddiad er mwyn galluogi busnesau i ddefnyddio cadwyni cyflenwi mwy a masnachu'n ddi-dariff" yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr adolygiad ac mae'n cyd-fynd â thystiolaeth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad. [136]

**194.** Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer masnach ddi-dariff, mae rhaid i fasnachwyr fodloni gofynion rheolau tarddiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ganran benodol o gynnyrch gynnwys rhannau a wneir yn lleol. Caiff masnachwyr ddewis talu tariff yn lle hynny os ydynt o'r farn bod y rheolau tarddiad yn fwy o fwrn na chost y tariff.

**195.** Mae rheolau tarddiad yn fath o rwystr nad yw'n dariff a nodir yn aml fel rhwystr sylweddol i fasnachu gyda'r UE ar ôl Brexit, gan gynnwys mewn tystiolaeth

[135] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Uwchgynhadledd yr UE a'r DU – Mai 2025
[136] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 28 Ionawr 2025

i'r ymchwiliad hwn. Er enghraifft, dywedodd y Sefydliad Safonau Prydeinig nad yw'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn helpu i ddatrys prif achos gwrthdaro rheoleiddiol sy'n arwain at rwystrau nad ydynt yn dariffau.[137]

**196.** Nid yw'r 'Common Understanding' yn sôn am fesurau sy'n gysylltiedig â rheolau tarddiad o gwbl. Fodd bynnag, gellid mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chanllawiau gwell ar eu cymhwyso ac ar addasiadau rheolau tarddiad ar gyfer sectorau penodol drwy'r adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae diwygiadau i ddarpariaethau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar reolau tarddiad ar gyfer cynhyrchion penodol eisoes wedi'u cytuno ar gyfer cronaduron trydan a cherbydau trydan.[138]

### Barn Llywodraeth Cymru

**197.** Yn y sesiwn ar 2 Ebrill, siaradodd yr Ysgrifennydd Cabinet a swyddog a oedd yn bresennol am ddwy agwedd ar y flaenoriaeth hon: yn gyntaf, fel maes gwella cyffredinol drwy negodiadau rhwng y DU a'r UE ac yn ail, fel maes technegol lle y gellid gwella tryloywder drwy weithrediad presennol a chanllawiau symlach.[139]

### Ein barn ni

**198.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ffocws ar reolau tarddiad a bod hyn yn cyd-fynd yn fras â'r dystiolaeth a gafwyd gan y pwyllgorau.

**199.** Mae'n iawn y dylai hyn fod yn flaenoriaeth, a dylai Llywodraeth Cymru ddilyn y mater gyda Llywodraeth y DU a rhoi diweddariadau am drafodaethau â Llywodraeth y DU a'r goblygiadau dilynol i Gymru.

**Argymhelliad 22.** Yn ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU ar ei blaenoriaethau ar gyfer yr adolygiad o weithrediad, dylai Llywodraeth Cymru bwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â rheolau tarddiad.

**Argymhelliad 23.** Yn unol ag argymhellion 12 a 13 o'r bennod hon, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor am gynnydd sy'n ymwneud â rheolau tarddiad.

---

[137] TCA03 - Y Sefydliad Safonau Prydeinig, tudalen 6 [Saesneg yn unig]
[138] Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu: Trade and Cooperation Agreements Partnership Council Decision 1 for 2023 - 21 Rhagfyr 2023 [Saesneg yn unig]
[139] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Ebrill 2025, paragraffau 10-12

## Lles anifeiliaid

**200.** Codwyd materion lles anifeiliaid mewn tystiolaeth ond nid ydynt wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru fel blaenoriaeth ar gyfer yr adolygiad.

**201.** Dywedodd RSPCA Cymru fod gweithrediad hyd yn hyn wedi bod yn aneffeithlon o ran diogelu a gwella lles anifeiliaid ac nad yw manteision posibl y Cytundeb Masnach a Chydweithredu o ran gwella lles anifeiliaid wedi'u gwireddu hyd yn hyn. Soniodd am yr angen am gydbwysedd mewn meysydd lle y mae manteision clir ar gyfer mwy o reolaethau'r ffin (h.y. ar gyfer atal clefydau, mynd i'r afael â masnach anghyfreithlon mewn anifeiliaid byw) a manteision llai o reolaethau (h.y. lles anifeiliaid).[140]

**202.** Tynnodd RSPCA Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru sylw at y ffaith bod amseroedd aros hir ac oedi ar y ffin yn peryglu lles anifeiliaid ac iechyd anifeiliaid. Soniodd RSPCA Cymru am estyn straen wrth gludo ac amodau cyfyng[141], a dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru fod y methiant i baratoi prosesau ffiniau'r DU yn sarhad ar y safonau iechyd a lles anifeiliaid eithriadol o uchel y mae amaethwyr yn gweithio tuag atynt.[142]

**203.** Mae RSPCA Cymru hefyd yn dweud bod achosion lle y mae anifeiliaid byw yn cael eu dychwelyd i'w gwlad tarddiad, eu rhoi dan gwarantin neu eu difa'n llwyr o ganlyniad i waith papur anghywir.[143] Fel y nodwyd yn yr adran iechydol a ffytoiechydol o'r bennod hon, mae'r RSPCA yn gobeithio y gall cytundeb iechydol a ffytoiechydol fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

### Barn Llywodraeth Cymru

**204.** Wrth siarad am sut y gallai'r adolygiad fynd i'r afael â'r materion lles anifeiliaid a godwyd mewn tystiolaeth, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"... the TCA does allow the Welsh Government, and the UK more generally, to pursue our own standards on animal welfare, and ensures a right to regulate on this and other issues. The TCA doesn't inhibit our ability to pursue higher standards on animal welfare issues. And while the review can consider how some aspects of the process of exporting are implemented, including border issues, which, again, is*

140 TCA09 - RSPCA Cymru, tudalen 4 [Saesneg yn unig]
141 TCA09 - RSPCA Cymru, tudalen 3 [Saesneg yn unig]
142 TCA15 – Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 5 [Saesneg yn unig]
143 TCA09 - RSPCA Cymru, tudalen 3 [Saesneg yn unig]

> *something that Huw [Huw Irranca-Davies MS- Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs] leads on, it can't amend the requirements of the agreement. So, if there are any issues with the existing requirements, a new SPS agreement could address some of those issues."*[144]

### Ein barn ni

**205.** Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr adolygiad. Mae'r Pwyllgor o'r farn na ddylai lles anifeiliaid stopio wrth gât y fferm, ac mae wedi codi pryderon o'r blaen am yr angen i gefnogi lles anifeiliaid sy'n cael eu cludo i'w hallforio a/neu eu lladd.[145]

**206.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi beth yw ei blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â materion lles anifeiliaid drwy'r adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac wrth wneud gwaith ehangach i ailosod y berthynas rhwng y DU a'r UE. Wrth wneud hynny, dylai asesu sut y bydd yn cydbwyso manteision mwy o aliniad ar faterion iechyd anifeiliaid a safonau lles uwch y DU, megis ar allforio anifeiliaid byw ers i'r DU ymadael â'r UE.

**Argymhelliad 24.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi beth yw ei blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â materion lles anifeiliaid drwy'r adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac ailosod y berthynas rhwng y DU a'r UE a nodi sut y bydd yn cydbwyso manteision alinio ac ymwahanu yn y maes hwn.

**Argymhelliad 25.** Yn unol ag argymhellion 12 a 13 o'r bennod hon, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau rheolaidd ar y mater hwn i'r pwyllgorau, gan gynnwys ar ddeimensiynau lles anifeiliaid cytundeb iechydol a ffytoiechydol.

## Alinio a dargyfeirio

**207.** Mae'r 'Common Understanding' yn nodi bwriad y DU a'r UE i'r DU alinio'n ddeinamig â rheolau'r UE ar gyfer cytundeb iechydol a ffytoiechydol, cysylltiad â'r System Masnachu Allyriadau a marchnad drydan sengl yr UE.[146] Byddai hyn yn ei

[144] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Ebrill 2025, paragraff 75
[145] Cydsyniad deddfwriaethol: Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw)
[146] Llywodraeth y DU: UK-EU Summit – Common Understanding - 19 Mai 2025, paragraffau 21, 30, a 44 [Saesneg yn unig]

gwneud yn ofynnol i'r DU ddilyn rheolau'r UE yn y meysydd hyn, nawr ac yn y dyfodol, ac i wneud cyfraniad ariannol i gefnogi gwaith yr UE yn hyn o beth.

**208.** Awgrymodd tystiolaeth ysgrifenedig fod ffafriaeth am aliniad agosach â'r UE.

**209.** Dywedodd y Sefydliad Safonau Prydeinig y canlynol:

> *"Without the UK rejoining the EU's Customs Union or Single Market, the most effective way of reducing trade friction in line with the growth priorities of the current UK government, is through addressing regulatory barriers to market access."*[147]

**210.** Cytunodd Logistics UK, gan ddweud y canlynol:

> *"Enhanced regulatory cooperation provides the biggest opportunity to improve bilateral trade relations. While the EU and UK pursue their respective regulatory agendas, divergence poses a significant and live threat to the free flow of goods and services."*[148]

**211.** Mae Undeb Amaethwyr Cymru hefyd yn croesawu camau i sicrhau mwy o chwarae teg rhwng y DU a'r UE. Mae'n dweud, fel marchnad fwyaf Cymru, ei bod yn hanfodol bwysig i amaethyddiaeth bod y farchnad hon yn cael ei chynnal a'i datblygu a bod mynediad dirwystr yn cael ei flaenoriaethu dros gytundebau masnach y tu allan i'r UE.[149]

**212.** Mae ymwahanu rheoleiddiol cynyddol rhwng y DU a'r UE yn cyflwyno heriau a gallai fod yn fwyfwy o rwystr i fasnach yn y dyfodol, yn ôl Pwyllgor Senedd yr Alban. Daeth ei ganfyddiadau i'r casgliad bod angen ceisio aliniad rheoleiddiol agosach â'r UE er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau masnach. Dywed y bydd y graddau y mae'r rhwystrau hynny'n cael eu lleihau'n dibynnu ar y graddau y mae Llywodraeth y DU yn fodlon ymrwymo iddo yn ystod negodiadau.[150]

[147] TCA03 - Y Sefydliad Safonau Prydeinig, tudalen 7 [Saesneg yn unig]
[148] TCA04 - Logistics UK, tudalen 5 [Saesneg yn unig]
[149] TCA15 – Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 5 [Saesneg yn unig]
[150] TCA02 Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant – Senedd yr Alban yr Alban, paragraff 9 [Saesneg yn unig]

**213.** Galwodd Pwyllgor Senedd yr Alban am fecanwaith ledled y DU i fonitro newidiadau perthnasol i gyfraith yr UE i olrhain ymwahanu y dylid trefnu ei fod ar gael i'r cyhoedd.[151]

**214.** Yn 2024, dywedodd Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog ar y pryd, wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y canlynol:

> *"As the UK is no longer a Member State of the EU, the Welsh Government does not systematically monitor EU policy and legislative developments in the way that it used to given the direct impact on Wales is much less significant."*[152]

## Barn Llywodraeth Cymru

**215.** Pan gafodd ei holi a yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi aliniad agosach â'r UE, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"I think there's definitely a case for alignment and benefits to be seen in alignment, but I think it would depend almost on a case-by-case basis as to what the specific details of that alignment might look like. There could be a case for it in terms of reducing barriers to trade—a clear case there.*
>
> *But, equally, we wouldn't want to be in a position where we were moving towards alignment in areas where we would see then a potential reduction in some of our standards or values around the environment, for example.*
>
> *So, I think you'd have to take it on a case-by-case basis as to what specifically was being looked at through the agreement. But there's certainly a case for it, and business makes quite a strong case for it in terms of reducing the barriers to trade as well."*[153]

[151] TCA02 Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant – Senedd yr Alban yr Alban, paragraff 15 [Saesneg yn unig]
[152] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 14 Chwefror 2024
[153] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Ebrill 2025, paragraff 59

## Ein barn ni

**216.** Mae ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg yn sôn am heriau alinio, ac yn enwedig ymwahanu, fel cenedl y DU sy'n dibynnu fwyaf ar allforio i'r UE.[154]

**217.** Er bod y Pwyllgor yn cytuno â'r Ysgrifennydd Cabinet ac yn cydnabod bod manteision ynghlwm wrth ymwahanu oddi wrth yr UE, ac alinio ag ef, mae'r mater yn gofyn am wneud penderfyniadau gweithredol fesul achos, ac i osgoi canlyniadau ymwahanu goddefol.

**218.** Gall aliniad agosach â'r UE fod ar sawl ffurf a allai arwain at reolaethau masnach symlach, llai ohonynt, neu eu dileu. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai'r dull a ddewisodd Llywodraeth y DU yw alinio'n ddeinamig â'r UE, sy'n golygu dilyn y rheolau presennol a'r rheolau yn y dyfodol yn y meysydd uchod. Mae'r Pwyllgor yn credu bod monitro aliniad ac ymwahaniaeth yn hanfodol er mwyn gwneud y gorau o fanteision alinio â'r UE neu ymwahanu oddi wrtho. Heb fonitro, ni all Llywodraeth Cymru wneud y penderfyniadau gorau i Gymru a masnach Cymru.

**219.** Fodd bynnag, ni ddylai Llywodraeth Cymru weithio ar ei phen ei hun ar y mater hwn, ac rydym o'r farn y gallai mecanwaith ledled y DU i fonitro alinio ac ymwahanu â'r UE fod o fudd i holl lywodraethau'r DU. Felly, dylai Llywodraeth Cymru roi ei barn am yr angen am fecanwaith ledled y DU i fonitro alinio â'r UE ymwahanu ag ef a chadarnhau a yw trafodaethau rhynglywodraethol yn digwydd ar y mater hwn. Os yw Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai mecanwaith ledled y DU o fudd, dylai archwilio datblygiad mecanwaith o'r fath gyda llywodraethau eraill y DU yn gyflym.

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio datblygiad mecanwaith ledled y DU gyda llywodraethau eraill y DU i fonitro alinio â'r UE ac ymwahanu oddi wrtho.

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- nodi sut mae'n bwydo asesiadau Cymreig o alinio ac ymwahanu i drafodaethau rhynglywodraethol y DU;
- egluro pa drafodaethau sy'n digwydd ar hyn o bryd ar alinio ac ymwahanu yn Llywodraeth Cymru a'i Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach;

[154] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Ionawr 2025

- nodi sut mae'n gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i geisio eu mewnbwn ar effeithiau alinio ac ymwahanu.

## Digonolrwydd data'r UE

**220.** Mae "Sicrhau cadw Digonolrwydd Data'r UE ar gyfer busnesau o Gymru sy'n masnachu gyda'r UE" yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ond ni chafodd ei godi gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad.[155] Nid yw digonolrwydd data'n rhan o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac mae'n drefniad ar wahân rhwng y DU a'r UE.

### Barn Llywodraeth Cymru

**221.** Er na thrafodwyd y flaenoriaeth hon yn y sesiwn ar 2 Ebrill, pwysleisiwyd barn Llywodraeth Cymru yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Data (Defnydd a Mynediad).[156] Dywedodd Llywodraeth Cymru fod colli penderfyniadau'r DU o ran digonolrwydd data'r UE "yn fygythiad mawr i fusnesau sy'n allforio o Gymru â'u prif farchnad dramor yw'r UE". Rhybuddiodd hefyd y gallai darpariaethau'r Bil fod yn arwydd o ymwahanu oddi wrth gyfundrefn diogelu data'r UE, a allai, yn ei dro, danseilio'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn y dyfodol. Mae lefel uchel o ddiogelu data personol yn un o'r wyth sail i gydweithrediad rhwng y DU a'r UE yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[157]

### Ein barn ni

**222.** Fel y nodwyd eisoes yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Data (Defnydd a Mynediad), rydym yn rhannu pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch penderfyniadau'r DU o ran digonolrwydd data'r UE, ac y gallai cydweithrediad diogelu data gael ei danseilio yn y dyfodol.[158] Felly, rydym yn ailadrodd ein galwad i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater pwysig hwn.

[155] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 28 Ionawr 2025
[156] Cydsyniad deddfwriaethol: Y Bil Data (Defnydd a Mynediad)
[157] Llywodraeth Cymru: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad) – Ionawr 2023, paragraff 43
[158] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Data (Defnydd a Mynediad) – Mai 2025

# 3. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Nid yw materion yn ymwneud â'r amgylchedd a hinsawdd yn flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran adolygiad ond cawsant eu codi mewn tystiolaeth gan ymatebwyr. Rydym wedi ystyried y dystiolaeth hon a datblygiadau diweddar rhwng y DU a'r UE yng nghyd-destun yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

## Bwlch llywodraethiant amgylcheddol Cymru

**223.** Mae'r Pwyllgor hwn wedi codi pryderon droeon bod gan Gymru fwlch o ran llywodraethiant amgylcheddol ers Brexit, ac mae wedi galw ers sawl blwyddyn am Fil Cymreig i sefydlu corff llywodraethu cwbl weithredol fel mater o flaenoriaeth. Ym mis Mehefin, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Mae ei Femorandwm Esboniadol yn cynnwys adran ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

**224.** Mae'r Cytundeb yn newid sylweddol o ran llywodraethiant a chydweithredu amgylcheddol rhwng y DU a'r UE. Er bod newid hinsawdd yn un o'r seiliau ar gyfer yr holl gydweithredu rhwng y DU a'r UE, nid oes pennod benodedig ar gydweithredu ynghylch yr amgylchedd a hinsawdd. Mae'r darpariaethau mwyaf cynhwysfawr i'w gweld yn adrannau masnach y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, gan gynnwys y gyfundrefn tegwch yn y farchnad. Mae hyn yn symud cydweithredu rhwng y DU a'r UE ar yr amgylchedd i sylfaen economaidd.

**225.** Cododd nifer o gyfranwyr faterion yn ymwneud â masnach a'r amgylchedd. Dywedodd ICC y gall ffocws ar ymadawiad y DU â'r UE a'r cytundebau masnach dilynol fod wedi arwain at lai o ffocws ar newid hinsawdd fel blaenoriaeth polisi. Tynnodd sylw hefyd at y costau amgylcheddol ac iechyd yn sgil mwy o fasnachu â gwledydd y tu allan i'r UE, gan gynnwys cynnydd yn ôl troed carbon Cymru a

llygredd aer gwaeth, sy'n "cyfrannu'n helaeth at strôc, clefyd anadlol cronig ac eraill".[159]

**226.** Dywedodd y Gymdeithas Crefftau Garddwriaethol fod tystiolaeth yn dangos cynnydd mewn llwythi masnach llai sy'n effeithio ar yr amgylchedd ac yn codi costau'n gyffredinol.[160]

**227.** Galwodd Logistics UK am aliniad rhwng y DU a'r UE mewn deddfwriaeth ar ddatgoedwigo a masnach, ac i Lywodraeth y DU ystyried cynnig cytundeb newydd ar fasnach mewn mwynau hanfodol.[161]

**228.** Mae'r 'Common Understanding' yn amlinellu cynlluniau i gynyddu cydweithrediad ar fasnachu allyriadau a threthi carbon ar draws ffiniau, ar drydan, ac ar dechnolegau ynni newydd megis hydrogen, dal, defnyddio a storio carbon a biomethan. Bydd hyn yn cynnwys negodi nifer o gytundebau newydd rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

## Barn Llywodraeth Cymru

**229.** Pan gafodd ei holi ar 2 Ebrill pam nad yw'r amgylchedd a'r hinsawdd wedi'u cynnwys ar restr blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet fel a ganlyn:

> *"… the reason for that is that the environment and climate provisions within the TCA already do set a high level of ambition. They are areas where we think that the TCA actually is more than sufficient, really, for us in terms of delivering ambitions. That's, essentially, the long and the short of it."*[162]

**230.** Mae'r ddogfen dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â pholisi masnach, a gyhoeddwyd yn 2024, yn rhestru tair ffordd y gallai cytundebau masnach gyfrannu at Gymru gydnerth.[163] Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"… it should be clear [from the Welsh Government's 2024 approach to trade policy document] that environment and environmental co-*

[159] TCA10 – Iechyd Cyhoeddus Cymru, tudalen 9
[160] TCA12 – Cymdeithas Crefftau Garddwriaethol, paragraff 45
[161] TCA04 – Logistics UK, tudalen 2 [Saesneg yn unig]
[162] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Ebrill 2025, paragraff 108
[163] Llywodraeth Cymru: Dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â pholisi masnach – 11 Gorffennaf 2024

> *operation underpins everything we do for trade policy. So, it is extremely important to us, and it is an important part of the TCA. I think it's simply that the issues that you're talking about we wouldn't see as an issue that needs to be addressed through the review."*[164]

**231.** Mewn ymateb i bryderon ynghylch y potensial i atchwelyd mewn camgymeriad, hysbysodd yr Ysgrifennydd Cabinet fel a ganlyn:

> *"… environment and climate provisions are covered by commitments in terms of that level playing field to which you referred, and that does require that neither party can reduce or weaken their levels of environmental protection below those that were there at the end of 2020."*[165]

**232.** Ychwanegodd swyddog y canlynol:

> *"… if we weren't meeting our obligations because we'd messed up on the non-regression clause, that would be a problem and that would be a concern to us; it's just the review itself wouldn't be a priority way to resolve that."*[166]

## Ein barn ni

**233.** Nodwn fod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu wedi newid natur cydweithredu rhwng y DU a'r UE ar yr amgylchedd yn sylfaenol, gan symud i ffwrdd o fframwaith llywodraethiant a rennir i un sy'n cael ei ategu'n bennaf gan fuddiannau economaidd. Er bod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys rhai darpariaethau amgylcheddol lefel uchel, mae'r rhain i raddau helaeth yn adlewyrchu'r ymrwymiadau rhyngwladol presennol fel Cytundeb Paris. At hynny, nid yw'r darpariaethau tegwch yn y farchnad a'r ymrwymiadau dim atchwelyd yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn disodli cydweithredu amgylcheddol fel dan aelodaeth o'r UE.

[164] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Ebrill 2025, paragraff 119
[165] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Ebrill 2025, paragraff 110
[166] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Ebrill 2025, paragraff 119

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ynghylch a yw'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn bodloni'r profion sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a amlinellwyd yn ei dogfen dull o ymdrin â pholisi masnach, a gyhoeddwyd yn 2024.

**Argymhelliad 29.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n cefnogi cydweithrediad a/neu gytundebau gwell neu ychwanegol rhwng y DU a'r UE y tu hwnt i'r darpariaethau presennol yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

## Alinio ac ymwahanu

**234.** Nid yw alinio â'r UE ac ymwahanu oddi wrtho'n rhan benodol o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran yr adolygiad, ond cawsant eu codi mewn tystiolaeth gan ymatebwyr, gyda sawl un yn cyfeirio at fanteision y DU yn alinio â'r UE yn gyffredinol.

**235.** Mae'r 'Common Understanding' yn rhagweld y bydd y DU yn alinio â rheolau'r UE mewn meysydd penodol, gan gynnwys ar fasnachu allyriadau a thrydan (a drafodir yn ddiweddarach yn y bennod hon).

**236.** O ran yr amgylchedd a hinsawdd, roedd ICC ac Undeb Amaethwyr Cymru yn croesawu ac yn cefnogi cyfundrefn tegwch yn y farchnad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sydd â'r bwriad o reoli aliniad a chynnal cywerthedd mewn meysydd allweddol, megis diogelu'r amgylchedd a hawliau cymdeithasol a llafur. Roedd ICC hefyd yn croesawu ei ddarpariaethau dim atchwelyd, a nododd fod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnig cyfleoedd i'r DU "fynd ymhellach… drwy barhau i eirioli dros safonau amgylcheddol uchel".[167]

### Barn Llywodraeth Cymru

**237.** Pan gafodd ei holi a yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi aliniad agosach â'r UE, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrth yr Aelodau:

> *"I think there's definitely a case for alignment and benefits to be seen in alignment, but I think it would depend almost on a case-by-case basis as to what the specific details of that alignment might look like. There could be a case for it in terms of reducing barriers to trade—a clear case there.*

[167] TCA10 – Iechyd Cyhoeddus Cymru, tudalen 8; TCA15 – Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 5 [Saesneg yn unig]

> *But, equally, we wouldn't want to be in a position where we were moving towards alignment in areas where we would see then a potential reduction in some of our standards or values around the environment, for example."*[168]

### Ein barn ni

**238.** Nodwn nad yw alinio ac ymwahanu'n flaenoriaethau penodol i Lywodraeth Cymru. Er bod y cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet fanteision posibl alinio fesul achos, mae diffyg eglurder o hyd ynghylch dull cyffredinol Llywodraeth Cymru.

**239.** Rydym yn nodi awgrym yr Ysgrifennydd Cabinet, sef y gallai aliniad agosach â'r UE arwain at leihad mewn rhai o'n safonau neu ein gwerthoedd sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad ynghylch sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet ar y mater hwn.

**Argymhelliad 30.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet, y gallai aliniad agosach â'r UE arwain at leihad mewn rhai o'n safonau neu ein gwerthoedd sy'n ymwneud â'r amgylchedd, gan gynnwys enghreifftiau o lle y gallai hyn fod yn bryder.

## Masnachu allyriadau a threthi carbon ar draws ffiniau

**240.** Codwyd masnachu allyriadau a threthi carbon ar draws ffiniau mewn tystiolaeth ysgrifenedig. Galwodd rhanddeiliaid am alinio ar ddatgarboneiddio yn sgil cyflwyno trethi carbon ar draws ffiniau, a elwir yn Fecanweithiau Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau, ar wahân gan y DU a'r UE.

**241.** Mae Mecanweithiau Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau'n codi tâl ar fewnforion yn seiliedig ar faint o allyriadau a briodolir i'w cynhyrchu. Bydd taliadau'n seiliedig ar brisiau Systemau Masnachu Allyriadau priodol y DU a'r UE. Mae'r cynlluniau presennol yn gadael blwyddyn o fwlch rhwng cyflwyno taliadau Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau yr UE yn 2026, a rhai'r DU yn 2027.

**242.** Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn ymrwymo'r DU a'r UE i ystyried cysylltu eu Systemau Masnachu Allyriadau, a allai o bosibl osgoi taliadau Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau ar fewnforion ac allforion rhwng y DU a'r UE.

---

[168] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Ebrill 2025, paragraff 59

**243.** Roedd galwadau ymhlith ymatebwyr i gyflymu'r cysylltiad hwn. Er enghraifft, dywedodd Logistics UK y byddai alinio Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau a chysylltiad Systemau Masnachu Allyriadau yn lleihau'r baich ar fusnesau.[169] Dywedodd y Sefydliad Safonau Prydeinig fod cynyddu cydweithredu rhwng rheoleiddwyr, gan gynnwys datgarboneiddio diwydiant (megis drwy Fecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau) yn faes lle y gellid gwella gweithrediad presennol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[170]

**244.** Mae'r 'Common Understanding' yn cynnwys ymrwymiad i weithio tuag at gytundeb i gysylltu Systemau Masnachu Allyriadau priodol y DU a'r UE, gyda rhestr o'r sectorau a ganlyn i'w cwmpasu fel isafswm: cynhyrchu trydan, cynhyrchu gwres diwydiannol (ac eithrio gwresogi tai unigol), diwydiant, trafnidiaeth forol ddomestig a rhyngwladol a hedfan domestig a rhyngwladol.

**245.** Mae paragraff 37 o'r 'Common Understanding' yn nodi'r canlynol am y cytundeb cysylltu:

> *"… [it] should create the conditions for goods originating in our jurisdictions to benefit from mutual exemptions from the respective European Union and United Kingdom Carbon Border Adjustment Mechanisms."*[171]

**246.** Dylai'r cytundeb cysylltu ddarparu ar gyfer aliniad deinamig y DU â rheolau'r UE, a fyddai'n golygu y byddai'r DU yn dilyn rheolau'r UE ar gysylltu Systemau Masnachu Allyriadau. Bydd y DU yn rhan o broses ddeddfu'r UE yn gynnar a bydd ymgynghori â'r DU yn gynnar ar bolisi'r UE.

**247.** Mae'r 'Common Understanding' yn cadarnhau y bydd llwybr cap a lleihau'r DU yn cael ei dywys gan ei rhwymedigaethau yn y Ddeddf Newid Hinsawdd a'i Chyfraniadau a Benderfynir yn Genedlaethol, a ddylai fod o leiaf mor uchelgeisiol â llwybr cap a lleihau'r UE.

**248.** Mae'r Common Understanding hefyd yn darparu:

- y bydd rhaid i'r DU wneud cyfraniad ariannol at waith yr UE yn y maes hwn;

[169] TCA04 – Logistics UK, tudalen 4 [Saesneg yn unig]
[170] TCA03 – Y Sefydliad Safonau Prydeinig, tudalen 7 [Saesneg yn unig]
[171] UK Government: UK-EU Summit – Common Understanding - 19 Mai 2025, paragraff 37 [Saesneg yn unig]

- y bydd cytundeb cysylltu yn destun mecanwaith llywodraethiant ar y cyd;
- y bydd y cytundeb yn destun mecanwaith datrys anghydfod gyda phanel cymrodeddu annibynnol sy'n sicrhau mai Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yw'r awdurdod terfynol ar gyfer yr holl gwestiynau ar gyfraith yr UE.[172]

## Barn Llywodraeth Cymru

**249.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth yr Aelodau ar 2 Ebrill mai Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, sy'n arwain ar y gwaith hwn, ac fel a ganlyn:

> *"Officials and economists have conducted an initial analysis of the EU CBAM on Welsh exports."*[173]

**250.** Yn ddiweddarach, dywedodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet fod hyn fel ymchwil fewnol, a dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag allforwyr o Gymru i esbonio Mecanaeith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau yr UE a'i effaith bosibl.[174]

**251.** Nid yw masnachu allyriadau a threthi carbon ar draws ffiniau'n flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran adolygiad. O ran y rheswm dros hynny, dywedodd y swyddog y canlynol:

> *"So, it's not a priority, not because we don't care about it—we're very interested; there are definite discussions going on it—it's simply that it's very, very complicated, so we didn't want to include it as an outright, 'Yes, we think this is a great idea', at this stage. We've still got a lot of work to do internally to work out what our final position on it would be."*[175]

---

[172] Llywodraeth y DU: UK-EU Summit – Common Understanding - 19 Mai 2025, paragraffau 34-45 [Saesneg yn unig]
[173] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Ebrill 2025, paragraff 132
[174] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Ebrill 2025, paragraff 134
[175] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Ebrill 2025, paragraff 128

### Ein barn ni

**252.** Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal dadansoddiad mewnol cychwynnol ar oblygiadau posibl Mecanaeith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau yr UE ar gyfer allforion Cymru. Fodd bynnag, rydym yn gresynu mai dim ond gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am y gwaith hwn ar hyn o bryd, yn enwedig o ran effeithiau mecanweithiau o'r fath ar yr amgylchedd a hinsawdd. Mae hyn yn fater brys yn sgil y Common Understanding.

**253.** O ystyried bod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn cynnwys darpariaeth ar gyfer posibilrwydd cysylltu Systemau Masnachu Allyriadau, ac yn sgil galwadau cyson gan randdeiliaid am aliniad strategol rhwng systemau'r DU a'r UE, mae'n destun pryder nad yw masnachu allyriadau a threthi carbon ar draws ffiniau'n cael blaenoriaeth ar hyn o bryd yn agenda Llywodraeth Cymru o ran adolygiad. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gwblhau a rhannu ei safbwynt ar ddarpariaethau perthnasol y 'Common Understanding' fel mater o frys.

**Argymhelliad 31.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi a rhannu ei barn am y rhestr o sectorau a fydd yn cael eu cynnwys fel lleiafswm gan gytundeb cysylltu Systemau Masnachu Allyriadau'r DU a'r UE yn y dyfodol, fel y nodwyd yn y 'Common Understanding'.

**Argymhelliad 32.** Dylai Llywodraeth Cymru gwblhau safbwynt clir ar gysylltu Systemau Masnachu Allyriadau fel mater o flaenoriaeth.

**Argymhelliad 33.** Dylai Llywodraeth Cymru roi ei barn am oblygiadau cysylltu Systemau Masnachu Allyriadau i'r amgylchedd a'r hinsawdd a'r esemptiadau Mecanaeith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau a ragwelwyd gan y 'Common Understanding'.

## Trefniadau masnachu trydan effeithiol

**254.** Mae trefniadau masnachu trydan effeithiol yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr adolygiad, ond ni chawsant eu codi mewn tystiolaeth gan yr un o'r ymatebwyr.[176]

**255.** Mae'r 'Common Understanding' yn ymrwymo'r DU a'r UE i archwilio cyfranogiad y DU ym marchnad drydan sengl yr UE, gan gynnwys ei lwyfannau masnachu.

[176] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 28 Ionawr 2025

**256.** Dylai cytundeb trydan sicrhau bod y DU wedi'i halinio'n ddeinamig â'r UE, sy'n golygu y byddai'r DU yn dilyn rheolau'r UE nawr ac yn y dyfodol.

**257.** Dylai'r cytundeb barchu rôl Llys Cyfiawnder yr UE mewn mecanwaith datrys anghydfod sy'n seiliedig ar gymrodeddu a chaniatáu i'r DU gyfrannu i benderfyniadau.

**258.** Dylai unrhyw gytundeb hefyd fod yn seiliedig ar gydbwysedd o hawliau a rhwymedigaethau a sicrhau tegwch yn y farchnad[177] a dylai ddiffinio'r berthynas rhwng rheolau'r DU a'r UE ar y farchnad drydan, cymorth gwladwriaethol, hyrwyddo ynni adnewyddadwy a diogelu'r amgylchedd (i'r graddau y maent yn ymwneud â'r sector trydan).

## Barn Llywodraeth Cymru

**259.** Yn ystod tystiolaeth ar 2 Ebrill, trafododd y Pwyllgor á'r Ysgrifennydd Cabinet sut y mae Cymru yn allforiwr net o drydan (yn wahanol i'r DU gyfan). Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"… we are a net exporter, but we are still a small component really of the overall Great Britain market.*
>
> *So, the GB electricity market relies on imports all year long, and particularly so during winter. And in recent years, we've seen these trading arrangements functioning on short-term contracts, relying on good co-operation really between partners, and particularly in terms of responding to the energy issues after the invasion of Ukraine, for example.*
>
> *So, what we really want to see is more agreement on that kind of longer term approach. I think the TCA does recognise and encourage deeper co-operation and improved efficiency, which is something that we would clearly be supportive of.*
>
> *In terms of particular areas where we would see potential for discussion in future, they might be around the development of energy infrastructure in the north sea, so, particular areas where I think it would be beneficial for both partners to work in co-operation in that space. So, I think that there's significant opportunity for further*

[177] Llywodraeth y DU, UK-EU Summit – Common Understanding, 19 Mai 2025, paragraff 20 [Saesneg yn unig]

> *working and just to give that energy security through those longer term arrangements would be very helpful."*[178]

**260.** Ar 20 Mai, dywedodd y Prif Weinidog y canlynol am y 'Common Understanding':

> *"… o ran ynni, ceir potensial gwirioneddol nawr i ni weithio gyda marchnad ynni'r UE a allai helpu i ostwng biliau yn y wlad hon."*[179]

### Ein barn ni

**261.** Rydym yn cefnogi ffocws Llywodraeth Cymru ar sicrhau trefniadau masnachu trydan mwy effeithiol a thymor hwy fel rhan o'r adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Rydym yn cytuno y byddai symud tuag at fecanweithiau masnachu mwy strwythuredig yn cynyddu cydnerthedd ac yn gwella diogeledd ynni.

**262.** Roedd gennym ddiddordeb clywed yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyfeirio at gyfleoedd i gydweithio ar ddatblygu seilwaith ynni ym Môr y Gogledd ond nid ydym yn glir ynghylch sut yr eir ar drywydd cyfleoedd yn y moroedd sy'n agos i Gymru, gan gynnwys Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd.

**Argymhelliad 34.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n hyrwyddo pwysigrwydd cydweithredu rhwng y DU a'r UE ar seilwaith ynni yn y moroedd sy'n agos i Gymru, gan gynnwys Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd.

## Molysgiaid dwygragennog byw ac ansawdd dŵr

**263.** Mae mynd i'r afael â phroblemau allforio sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran adolygiad ond ni chodwyd hynny gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad.[180]

**264.** Caniateir i folysgiaid dwygragennog byw o ddyfroedd dosbarth A barhau i gael eu hallforio i'r UE ar ôl Brexit. Fodd bynnag, ni chaniateir allforio molysgiaid dwygragennog byw o ddyfroedd dosbarth B i'r UE gan fod angen eu puro neu eu prosesu cyn bod modd i bobl eu bwyta.

[178] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraffau 122-123
[179] Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn – 20 Mai 2025, paragraff 15
[180] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 28 Ionawr 2025

**265.** Mae tiroedd cynhyrchu molysgiaid dwygragennog byw yng Nghymru a Lloegr yn ddyfroedd dosbarth B gan mwyaf.

**266.** Ym mis Gorffennaf 2021, ysgrifennodd Lesley Griffiths AS, y cyn-Weinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith mewn ymateb i lythyr oddi wrth ei bwyllgor rhagflaenol yn y Bumed Senedd yn esbonio bod ailddosbarthu dau o'r gwelyau yn y Fenai wedi caniatáu i rywfaint o allforio ailddechrau.[181]

**267.** Hefyd yn 2021, hysbysodd Llywodraeth flaenorol y DU nad oedd yn disgwyl newidiadau mawr yn y dosbarthiadau a ddyfernir ar gyfer ardaloedd cynaeafu pysgod cregyn yng Nghymru a Lloegr nes i ansawdd dŵr wella.[182]

**268.** Arhosodd hwn yn fater heb ei ddatrys rhwng y DU a'r UE tan y 'Common Understanding'. Mae'r cytundeb yn paratoi'r ffordd ar gyfer cytundeb iechydol a ffytoiechydol newydd a fyddai'n dileu gofynion rheoli masnach ar gyfer cynhyrchion penodol ac yn gwrthdroi gwaharddiadau ar allforio eraill.

**269.** Er nad oes cyfeiriad penodol at bysgod cregyn yn y 'Common Understanding', mae nodiadau esboniadol Llywodraeth y DU yn dweud y canlynol:

> *"shellfish from certain types of GB domestic waters currently banned in the EU will be able to be exported again."*[183]

## Ein barn ni

**270.** Nid oes digon o wybodaeth am ailagor y fasnach pysgod cregyn i ni allu cadarnhau ei fod yn gymwys yn benodol i folysgiaid dwygragennog byw o ddyfroedd dosbarth B yng Nghymru. Nid oes digon o wybodaeth chwaith am y mecanwaith i'w ddefnyddio i gyflawni hyn. Er enghraifft, gallai olygu bod yr UE yn esemptio'r DU o'i reolau trydedd gwlad ar fewnforion o ddyfroedd dosbarth B.

**271.** Fodd bynnag, mae'n amlwg o nodiadau Llywodraeth y DU y byddai ailddechrau masnach, pe bai'n cael ei negodi, yn dod dan gytundeb iechydol a ffytoiechydol newydd rhwng y DU a'r UE sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r DU alinio'n

---

[181] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: 19 Gorffennaf 2021
[182] Seafood and meat exports to the EU: Government Response to the Committee's Eighth Report of Session 2019–21 – 29 Mehefin 2021
[183] Llywodraeth y DU, UK-EU Summit – Explainer - 19 Mai 2025 [Saesneg yn unig]

ddeinamig â rheolau'r UE. Felly, mae'n bosibil y gallai fod yn ofynnol i'r DU ddilyn rheolau ansawdd dŵr yr UE a y byddai goblygiadau pwysig i barth morol Cymru.

**272.** Fel y cyfryw, byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar y materion hyn.

**Argymhelliad 35.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw'r mecanweithiau sy'n cael eu hystyried ar gyfer ailddechrau'r fasnach pysgod cregyn yn cynnwys aliniad deinamig y DU â rheolau'r UE ar ansawdd dŵr.

# 4. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gyfrifol am ystyried materion mewn perthynas â'r cyfansoddiad, materion allanol, a chysylltiadau rhynglywodraethol. Mae wedi ystyried yr elfennau hyn o'r adolygiad o weithrediad.

**273.** Yn 2023, cynhaliwyd ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE ac, wedi hynny, gwnaethom argymhellion i Lywodraeth Cymru, llywodraethau'r DU a hefyd i Gomisiwn y Senedd.[184]

**274.** Drwy gydol y Chweched Senedd, rydym hefyd wedi dod i gasgliadau ar ddilyn a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, gan gynnwys y rhai rhwng y DU a'r UE.

**275.** Mae'r gwaith hwn yn sail i rai o'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn.

**276.** Ar 19 Mai, cyhoeddodd y DU a'r UE 'Common Understanding', sef cytundeb i gynyddu eu cydweithrediad ac ar gyfer aliniad y DU â'r UE yn y dyfodol.[185] Er nad yw'r cynigion sector-benodol a nodwyd yn y cytundeb yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, mae'r ffordd y mae cytundebau newydd yn cael eu llywodraethu a'u gweithredu, y rôl a roddir i sefydliadau datganoledig, cymhlethdod a hygyrchedd trefniadau, a'u goblygiadau cyfansoddiadol, yn faterion i'r Pwyllgor hwn.

## Y dirwedd rhwng y DU a'r UE

**277.** Mae'r berthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit yn cael ei llywodraethu gan gytuniadau rhyngwladol lluosog. Gyda'i gilydd, maent yn ffurfio haenau o gyfrifoldebau, rhwymedigaethau a dyletswyddau sy'n rhychwantu sawl maes polisi. Maent yn sefydlu dros 30 o gyd-fforymau lle y mae trafodaethau'n cael eu cynnal ac y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Mae'r rhan fwyaf yn cael eu

[184] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE - Tachwedd 2023
[185] Llywodraeth y DU, Common Understanding, 19 Mai 2025 [Saesneg yn unig]

llywodraethu gan fframwaith sefydliadol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sy'n gymwys i'r holl gytundebau rhwng y DU a'r UE a ddaeth ar ei ôl. Mae pwyllgorau'r Senedd yn aml wedi cyfeirio at gymhlethdodau'r trefniadau hyn a'u canlyniadau.

**278.** Tynnwyd sylw at hyn yn ystod yr ymchwiliad hwn, lle y codwyd materion perthnasol, gan gynnwys ar weithrediad domestig a chymhwysiad anghyson o'r rheolau. Awgrymodd llawer o randdeiliaid welliannau megis mwy o eglurder a sicrwydd, amserlenni clir, cymorth a chanllawiau gwell, a phwysigrwydd cydweithredu i gyflwyno gwelliannau o'r fath.[186]

**279.** Yn ei thystiolaeth lafar ar 2 Ebrill, amlinellodd yr Ysgrifennydd Cabinet flaenoriaethau i symleiddio'r rheolau a gwella'r canllawiau ac annog Llywodraeth y DU i geisio negodi rhagor o gytundebau ategol â'r UE.[187]

## Ein barn ni

**280.** Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid mewn cysylltiad â chymhlethdod y trefniadau presennol rhwng y DU a'r UE. Rydym yn credu ym mhwysigrwydd sicrhau bod trefniadau o'r fath yn glir ac yn hygyrch.

**281.** Rydym yn nodi casgliad y 'Common Understanding' a'i gynllun i lunio cytundebau ychwanegol rhwng y DU a'r UE.

**282.** Er y gallai cytundebau atodol ddarparu dull defnyddiol o gyflymu gwelliannau mewn meysydd penodol, mae rhaid i'r DU a'r UE sicrhau nad ydynt yn creu cymhlethdod ychwanegol. Mae rhaid gwneud pob ymdrech i osgoi dwysáu cymhlethdod y trefniadau presennol, fel y cawsant eu disgrifio i ni mewn tystiolaeth.

**283.** Yn ein barn ni, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau pa drafodaethau sy'n digwydd rhwng llywodraethau'r DU mewn cysylltiad â chymhlethdod cytundebau ar ôl Brexit, a'r camau sy'n cael eu cymryd i'w hesbonio. Mae hyn yn cynnwys canllawiau symlach a gyhoeddwyd i randdeiliaid perthnasol.

**284.** Rydym hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu ei chanllawiau ei hun, yn debyg i'r rhai a luniwyd yn y cyfnod cyn ymadawiad y DU

[186] TCA03 – Y Sefydliad Safonau Prydain, adran 9 [Saesneg yn unig]; TCA04 – Logistics UK [Saesneg yn unig]; TCA07 – Dr Elin Royles, Dr Carolyn Rowe a Dr Rachel Minto, adran 2 [Saesneg yn unig]; TCA08 – Make UK, tudalennau 2–3 [Saesneg yn unig]
[187] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 85

â'r UE, a hynny cyn yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac ar ôl ei gwblhau.

**Argymhelliad 36.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth am drafodaethau rhwng y DU a'r UE a rhwng llywodraethau'r DU gyda'r bwriad o leihau cymhlethdod sy'n deillio o'r trefniadau presennol.

**Argymhelliad 37.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau y mae'n eu cymryd i symleiddio ei chyngor a'i chanllawiau ei hun mewn cysylltiad â'r trefniadau presennol rhwng y DU a'r UE.

**Argymhelliad 38.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ei chanllaw ei hun i'r trefniadau rhwng y DU a'r UE, yn debyg i'r hyn a luniwyd tua'r adeg yr ymadawodd y DU â'r UE.

## Cwmpas yr adolygiad a blaenoriaethau'r llywodraeth

**285.** Roedd yr ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgorau o'r farn bod yr adolygiad yn gyfle i negodi gwelliannau i'r trefniadau rhwng y DU a'r UE, naill ai drwy newidiadau i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu neu drwy gytundebau ychwanegol rhwng y DU a'r UE. Er enghraifft, anogodd Logistics UK Lywodraeth y DU i bwyso am gytundeb cynnar â'r UE ar gwmpas yr adolygiad, gan gynnwys sicrhau y bydd yn adolygiad eang yn hytrach na bod yn un cyfyngedig, technegol.[188]

**286.** Mewn cysylltiad â'r paratoadau ar gyfer yr adolygiad, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet yn y sesiwn dystiolaeth ar 2 Ebrill:

> *"At the moment, the considerations are how the TCA is being implemented, and then there is a separate piece of work in relation to that reset between the UK and the EU."*[189]

**287.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfres o flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, meysydd penodol lle y credir bod lle i symud ac ar gyfer rhagor o gytundeb. Dywedodd fod cyfarfodydd rheolaidd ar lefel swyddogol yn cael eu cynnal â Llywodraeth y DU, a bod yr Ysgrifennydd Cabinet ac Eluned Morgan AS, y Prif Weinidog, wedi cyfarfod â Nick Thomas-

[188] TCA04 – Logistics UK, tudalen 2 [Saesneg yn unig]
[189] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 7

Symonds AS, Gweinidog Cysylltiadau â'r UE Llywodraeth y DU, i drafod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.[190]

**288.** Cadarnhaodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet na chytunwyd ar gylch gorchwyl yr adolygiad eto ac, o ganlyniad, ei bod yn anodd dweud pa un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru fyddai'n dod dan waith a fyddai'n cael ei ddisgrifio fel gwaith sy'n ymwneud â'r adolygiad o weithrediad, ac a fyddai'n dod dan waith ehangach i ailosod y berthynas â'r UE.[191]

**289.** Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oedd wedi gweld dogfen negodi derfynol Llywodraeth y DU ar gyfer yr adolygiad o weithrediad. Esboniodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"We haven't seen an overarching document that says, 'The UK Government wishes X, Y and Z with the EU'. … In terms of positions, we are aware of some of the detail behind some of the specific issues that may be addressed, but we've not seen an overarching, 'These are the top 10 asks of the UK Government'."*[192]

**290.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai rhagor o drafodaethau rhynglywodraethol yn digwydd yn y cyfarfod cyn uwchgynhadledd y DU a'r UE ar 19 Mai, er y cadarnhaodd hefyd nad oes dyddiad terfynol wedi'i bennu ar gyfer y cyfarfod.[193] Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar 12 Mai 2025 yn y pen draw, gyda Llywodraeth Cymru yn bresennol.[194]

**291.** Gofynnodd y Pwyllgorau a oedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan wrth ddatblygu safbwynt Llywodraeth y DU. Wrth ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"The UK Government is developing its negotiating positions. Our concerns are that where devolved matters are part of those negotiating positions, then clearly we need to have involvement in*

[190] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraffau 10-11
[191] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 12
[192] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 168
[193] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraffau 37-39
[194] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: 9 Mehefin 2025

> *agreeing those. Also, we've set out a list of priority areas that we want the UK Government to address as well."*[195]

**292.** Cadarnhaodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet fod trafodaethau ar lefel swyddogol â Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cael eu cynnal yn aml ar flaenoriaethau'r UE, a bod aliniad ar flaenoriaethau lefel uchel yr UE.[196] Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd yn gallu dweud a oedd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn alinio â blaenoriaethau Llywodraeth y DU heb fwy o fanylion wedi'u nodi gan Lywodraeth y DU.[197]

**293.** Mae'r Prif Weinidog wedi nodi ei bod yn dymuno bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd mwy o ran mewn trafodaethau ar y trefniadau pysgodfeydd y cytunwyd arnynt yn y 'Common Understanding'.[198] Ar ymgysylltiad mewn meysydd eraill, dywedodd y Prif Weinidog y canlynol yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mai:

> *"Roeddem ni'n rhan o'r trafodaethau yr holl ffordd drwodd. Rwyf i mor falch bod y blaenoriaethau a nodwyd gennym ni—pethau fel gwneud yn siŵr bod y mater iechydol a ffytoiechydol yno, gwneud yn siŵr bod gennym ni gyfleoedd amddiffyn, gwneud yn siŵr bod materion o ran dur ac ieuenctid a chyfnewid ac ynni—yr holl bethau hyn y gwnaethom ni ofyn amdanyn nhw, rwy'n falch iawn eu bod nhw yno. Doedden ni ddim yno ar ddiwedd un y broses gan mai dyna sut mae Llywodraeth yn gweithio."*[199]

## Ein barn ni

**294.** Rydym yn nodi dull Llywodraeth Cymru o ran yr adolygiad, a'i bod wedi nodi ei blaenoriaethau mewn cysylltiad á'r UE, fel y gwnaethom alw amdano yn dilyn ein hymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE.

**295.** Yn ein hadroddiad ar lywodraethiant y DU a'r UE, dywedwyd, er mwyn galluogi ymgysylltiad ystyrlon i ddigwydd drwy'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, y dylai cyfarfodydd gael eu cynnal digon ymlaen

---

[195] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 184
[196] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraffau 196-198
[197] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraffau 207-208
[198] BBC News, FM wanted 'more discussion' on EU fishing rights, 9 Mai 2025 [Saesneg yn unig]
[199] Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn – 20 Mai 2025, paragraff 109

llaw cyn cyfarfodydd rhwng y DU a'r UE.[200] Rydym o'r farn y byddai hyn yn galluogi safbwynt negodi'r DU i gael ei drafod a, lle y bo'n bosibl, y gallai'r pedair llywodraeth gytuno arno.

**296.** Yn hyn o beth, nodwn y cynhaliwyd cyfarfod y grŵp rhyngweinidogol wythnos cyn yr uwchgynhadledd, ar 12 Mai 2025. Mae'n siomedig na chynhaliwyd y cyfarfod hwn yn gynharach ac, yn yr un modd, mae'n siomedig na chafodd pwyllgorau'r Senedd fawr o rybudd bod y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal.

**297.** Rydym yn croesawu'r ffaith yr ymgysylltwyd á Llywodraeth Cymru drwy gydol y broses negodi ar gyfer y 'Common Understanding', ond nid yn y camau terfynol.

**298.** Serch hynny, rydym yn pryderu am ddiffyg blaenoriaethau Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â'r adolygiad o weithrediad, a'r diffyg gwybodaeth ymddangosiadol a roddwyd gan Lywodraeth y DU i'r llywodraethau datganoledig.

**299.** Gwrthododd Llywodraeth y DU wahoddiad i roi tystiolaeth lafar ffurfiol i bwyllgorau'r Senedd fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Bydd pwyllgorau'r Senedd yn rhannu copi o'r adroddiad hwn â Gweinidogion perthnasol y DU.

**300.** Felly, rydym yn gwneud yr argymhellion a ganlyn:

**Argymhelliad 39.** Dylai Llywodraeth Cymru alw ar Lywodraeth y DU i amlinellu ei blaenoriaethau penodol ar gyfer yr adolygiad o weithrediad a chwmpas yr adolygiad ar frys.

**Argymhelliad 40.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu ei blaenoriaethau, monitro datblygiadau i ddeall eu goblygiadau i Gymru, a dylai hysbysu'r pedwar pwyllgor os neu pan wneir newidiadau.

**Argymhelliad 41.** Fel rydym wedi argymell o'r blaen, dylai Llywodraeth Cymru wneud sylwadau i Lywodraeth y DU er mwyn i gyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE gael eu cynnal digon ymlaen llaw cyn cyfarfodydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a negodiadau rhwng y DU a'r UE.

[200] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE – Tachwedd 2023, argymhelliad 6

## Cynrychiolaeth Cymru yng nghysylltiadau â'r UE

### Cytundeb Masnach a Chydweithredu

**301.** Mae dros 30 o fforymau rhwng y DU a'r UE ar gyfer gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r Cytundeb Ymadael. Dim ond statws sylwedydd sydd gan Lywodraeth Cymru yn y fforymau hyn.

**302.** Tynnodd Dr Royles, Dr Rowe a Dr Minto sylw at lythyr o 2021 oddi wrth yr Arglwydd David Frost, cyn-negodwr Brexit, a nododd, pan fydd eitemau cymhwysedd datganoledig ar agenda cyfarfod, fod Llywodraeth y DU yn disgwyl hwyluso presenoldeb gan y Gweinyddiaethau Datganoledig ar y lefel briodol. Mae Dr Royles, Dr Rowe a Dr Minto yn dyfynnu tystiolaeth sy'n dangos bod presenoldeb Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn dangos eu hymgysylltiad mewn ystod ehangach o bwyllgorau na'r rhai yr aeth Llywodraeth Cymru iddynt, er eu bod yn cydnabod bod hyn yn debygol o adlewyrchu'r cymwyseddau datganoledig uwch yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.[201]

**303.** Dywedodd Dr Royles, Dr Rowe a Dr Minto y canlynol hefyd:

> *"The Partnership Committee forms an important part of TCA governance and there is scope to increase the status of devolved government ministers within this forum and also to ensure stronger integration between this UK-EU Partnership Council structure and the UK-EU IMG."*[202]

**304.** I'r un perwyl, maent yn gwneud yr argymhellion a ganlyn:

> *"There is a need to address the lack of clarity regarding the relative status of various intergovernmental statements in determining way in which IGR functions in the context of the TCA structures. For instance, does the Frost letter remain the basis for the operation of domestic intergovernmental relations in relation to the TCA structures? To what extent are these arrangements informed by the five principles of the review of intergovernmental relations beyond now being embedded in the ToR [Terms of Reference] of the UK-EU IMG?*

[201] TCA07 - Dr Elin Royles, Dr Carolyn Rowe a Dr Rachel Minto, paragraffau 1.2–1.4 [Saesneg yn unig]
[202] TCA07 - Dr Elin Royles, Dr Carolyn Rowe a Dr Rachel Minto, paragraff 2.1 [Saesneg yn unig]

> *It would also be beneficial to ensure that there is sufficient recognition of the impact of areas covered by TCA structures on devolved competences, even if the specific focus of a TCA committee / working group is a reserved area. It is encouraging in this respect to see Welsh Government involvement in working groups in areas covered by the TCA that tend to be more associated with powers reserved to the UK Government but have a high impact on Wales …*
>
> …
>
> *Intergovernmental [structures] would also benefit from greater formalisation of currently informal structures of multilateral engagement between officials in the context of the TCA structures."*[203]

**305.** Mewn cysylltiad â statws sylwedydd y llywodraethau datganoledig, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 2 Ebrill:

> *"Obviously, the observer status wasn't our preference but I think that, so far, it does appear to be working, and I think that the way in which the UK Government has engaged with us through our officials has been really helpful in that regard.*
>
> *So, we're able to propose agenda items, for example, and we're able to explore those debating lines, if you like, with the UK Government so that we have agreed positions that are being discussed. So, I think that's all been very positive in terms of those opportunities to engage and influence."*[204]

## 'Common Understanding'

**306.** Mae'r 'Common Understanding'[205] yn darparu'r sail ar gyfer negodi cytundebau rhwng y DU a'r UE, y mae rhai ohonynt yn dod dan feysydd allweddol o gymhwysedd datganoledig a buddiant. Mae rhai darpariaethau yn nodi'n glir bwriad y DU a'r UE i sefydlu mwy o fecanweithiau llywodraethu ar y cyd a phrosesau datrys anghydfod. Nid yw wedi'i gadarnhau eto pa strwythurau

[203] TCA07 - Dr Elin Royles, Dr Carolyn Rowe a Dr Rachel Minto, paragraffau 2.2–2.5 [Saesneg yn unig]
[204] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 33
[205] Llywodraeth y DU, UK-EU Summit – Common Understanding, 19 Mai 2025 [Saesneg yn unig]

rhynglywodraethol rhwng y DU a'r UE a rhai domestig fydd yn cael eu defnyddio fel fforymau ar gyfer y negodiadau hyn.

**307.** Mewn meysydd lle y mae'r DU yn bwriadu alinio'n ddynamig â rheolau iechydol a ffytoiechydol yr UE a chysylltiad masnachu allyriadau, mae'r cytundeb yn nodi'r canlynol am y DU:

- bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn ymgynghori â hi ar ddeddfwriaeth a pholisi'r UE yn gynnar;
- mae rhaid i'r DU wneud cyfraniad ariannol priodol i gefnogi gwaith yr UE.[206]

**308.** Ar gyfer y ddau faes, bydd mecanwaith llywodraethu ar y cyd a phroses gymrodeddu ar gyfer anghydfodau'n cael eu sefydlu gyda Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yr 'awdurdod terfynol' ar gyfraith yr UE.

**309.** Mae trefniadau llywodraethu yn wahanol ar gyfer cyfranogiad y DU ym marchnad drydan sengl yr UE yn y dyfodol. Er mai bwriad y DU a'r UE yw i'r DU alinio'n ddeinamig â rheolau'r UE, mae'r 'Common Understanding' yn darparu dim ond i'r DU gyfrannu i benderfyniadau a gofyniad y dylai'r DU barchu rôl Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd mewn mecanwaith datrys anghydfod sy'n seiliedig ar gymrodeddu. Nid yw sefydlu mecanwaith llywodraethu ar y cyd yn cael ei grybwyll ac nid oes gofyniad i'r DU wneud cyfraniad ariannol i'r UE.

**310.** Yn ein hadroddiad ar lywodraethiant y DU a'r UE, amlinellodd y Pwyllgor hwn ei farn bod "achos cymhellol i'w wneud" dros gynnwys sefydliadau datganoledig ymhellach yn y strwythurau llywodraethu rhwng y DU a'r UE.[207]

**311.** Nodwn fod Grŵp Cynghori Domestig y DU wedi galw am ymgynghoriad parhaus â gweinyddiaethau datganoledig mewn negodiadau i weithredu ymrwymiadau'r 'Common Understanding'.[208]

---

[206] Llywodraeth y DU, UK-EU Summit – Common Understanding, 19 Mai 2025, paragraffau 30-32 [Saesneg yn unig]
[207] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE – Tachwedd 2023, casgliad 5
[208] Grŵp Cynghori Domestig y DU, Statement following the UK-EU Summit, Mai 2025 [Saesneg yn unig]

## Trefniadau rhynglywodraethol domestig ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

**312.** Pan gafodd ei holi a oedd unrhyw gynnydd yn cael ei wneud tuag at ddatblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, fel yr argymhellwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor hwn[209], dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol yn ystod y sesiwn ar 2 Ebrill:

> *"At the moment, our focus is on the implementation of the TCA, or the review of it, and the wider reset work. So, our focus isn't on the MOU. It might be that, after May, we would be in a position to start thinking about an MOU."*[210]

**313.** Fodd bynnag, soniodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod datblygu canllawiau newydd Llywodraeth y DU ar ei hymgysylltiad â'r llywodraethau datganoledig yn gam pwysig ymlaen[211], a'i bod yn gadarnhaol iawn bod y canllawiau wedi'u datblygu ar y cyd â'r llywodraethau datganoledig, gan fod hyn yn nodi sut y bydd y berthynas yn gweithio yn y dyfodol.[212]

**314.** Ers i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddwyd cylch gorchwyl y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Mae'n nodi y bydd y grŵp yn hwyluso ymgysylltiad gweinidogol ystyrlon ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r Cytundeb Ymadael mewn meysydd cymhwysedd datganoledig sy'n ymwneud â gweithredu'r cytundebau.[213] Mae'r cylch gorchwyl yn dweud y bydd yn cael ei adolygu bob 24 mis.

## Ein barn ni

**315.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid a'r Ysgrifennydd Cabinet mewn cysylltiad â gweithrediad presennol cysylltiadau

[209] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE – Tachwedd 2023, argymhelliad 5
[210] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 52
[211] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 52
[212] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 191
[213] Llywodraeth y DU, Interministerial Group on UK-EU Relations: terms of reference, 17 Chwefror 2025 [Saesneg yn unig]

rhynglywodraethol domestig ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE a chynrychiolaeth Cymru mewn strwythurau llywodraethu rhwng y DU a'r UE.

**316.** Rydym wedi galw o'r blaen am fwy o rôl i'r cenhedloedd datganoledig yn y Cyngor Partneriaeth[214] a nodwn fod tystiolaeth a gyflwynwyd gan randdeiliaid i'r ymchwiliad hwn ac ymchwiliadau blaenorol a gynhaliwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn dangos cefnogaeth eang i rôl gryfach i'r cenhedloedd datganoledig.

**317.** Felly, rydym yn ailadrodd ein datganiadau blaenorol, y dylid ymgysylltu â'r pedair cenedl a'u cynrychioli mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ac y gellir cyflawni hyn orau drwy hawliau cyfranogiad llawn yn y Cyngor Partneriaeth.

**318.** Fel y cyfryw, rydym yn parhau i fod o'r farn bod achos cymhellol i'w ddadlau dros gynnwys sefydliadau datganoledig ymhellach mewn strwythurau llywodraethu rhwng y DU a'r UE.

**319.** Yn hyn o beth, nid ydym yn credu bod sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet, mewn perthynas â statws sylwedydd Llywodraeth Cymru, yn ennyn hyder y Pwyllgor y gellir mynd i'r afael â phryderon a buddiannau Cymru yn llawn drwy'r dull hwn.

**320.** Rydym yn croesawu cyhoeddi cylch gorchwyl y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Credwn ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cylch gorchwyl hwn yn parhau i ateb y gofyn gan nad yw'n cwmpasu'r negodiadau ehangach i ailosod y berthynas ar hyn o bryd.

**321.** Rydym yn cael ein calonogi gan ddatblygu canllawiau mewnol gan Lywodraeth y DU i esbonio bod angen ystyried datganoli wrth wneud gwaith ehangach i ailosod y berthynas rhwng y DU a'r UE. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod canllawiau mewnol yn cymryd lle memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd ar rôl Gweinidogion datganoledig mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

**322.** Mae casgliad y 'Common Understanding' yn dod â brys newydd i'r angen am femorandwm cyd-ddealltwriaeth. Pe bai negodiadau mewn meysydd cymhwysedd datganoledig yn mynd rhagddynt heb gyfranogiad datganoledig, gallai ymgorffori ymhellach y diffyg presennol mewn cynrychiolaeth a lleihau effaith gwaith i hyrwyddo buddiannau Cymru.

[214] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE – Tachwedd 2023, argymhelliad 3

**323.** Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn canfod sut y bydd yn rhan o'r mecanweithiau ymgynghori cynnar a nodwyd yn y 'Common Understanding'.

**324.** Yn ei adroddiad blaenorol, galwodd y Pwyllgor hefyd am welliannau yn nhryloywder penderfyniadau a wneir mewn strwythurau llywodraethu rhwng y DU a'r UE. Wrth i'r DU a'r UE gymryd camau sylweddol i newid neu ddatblygu eu perthynas, dylai deddfwrfeydd yn y DU hefyd gael cyfleoedd gwell i graffu.

**Argymhelliad 42.** Dylai Llywodraeth Cymru alw am i gylch gorchwyl y Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE gael ei ddiweddaru i ystyried trefniadau sy'n deillio o'r gwaith i ailosod y berthynas, megis y 'Common Understanding' a'r adolygiad o weithrediad. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn parhau i ateb y gofyn ar gyfer cam nesaf cysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

**Argymhelliad 43.** Fel rydym wedi argymell o'r blaen, dylai Llywodraeth Cymru alw am gytuno ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig.

**Argymhelliad 44.** Dylai Llywodraeth Cymru ganfod sut y bydd yn rhan o'r mecanweithiau ymgynghori cynnar a ddisgrifir yn y 'Common Understanding' ac annog Llywodraeth y DU i ddod i safbwynt cytunedig gyda'r llywodraethau datganoledig.

## Gweithredu

### Cydymffurfedd â chyfraith ryngwladol

**325.** Cododd y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgorau faterion yn ymwneud â chydymffurfedd â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a rhwymedigaethau rhyngwladol eraill.

**326.** Er y cydnabu Undeb Amaethwyr Cymru yr angen am safonau, mecanweithiau a mesurau mewn cytundeb masnach, mynegodd bryderon mawr ynghylch i ba raddau y dangoswyd bod Llywodraeth y DU yn barod i wthio ffiniau cyfraith ryngwladol a sbarduno anghydfodau a chamau adfer gan yr UE a'i aelod-wladwriaethau.[215]

**327.** Mynegwyd pryderon tebyg gan Bwyllgor Senedd yr Alban, Make UK, Logistics UK ac RSPCA Cymru am yr annhegwch a achosir gan ddull graddol y DU o

[215] TCA15 – Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 4 [Saesneg yn unig]

weithredu rheolaethau ffiniau a chymhwyso rheolaethau ffiniau ar unwaith gan yr UE.[216]

**328.** Tynnodd Undeb Amaethwyr Cymru sylw hefyd bod y DU mewn perygl o dorri rheolau Sefydliad Masnach y Byd drwy ymddangos ei bod yn rhoi triniaeth ffafriol i allforwyr yr UE drwy beidio â chymhwyso'r un rheolaethau ffiniau sy'n gymwys i allforwyr y tu allan i'r UE.[217]

**329.** Nid yw'n glir eto a allai trefniadau sydd i'w negodi fel rhan o'r 'Common Understanding' hefyd godi materion cydymffurfio â rhwymedigaethau a chytundebau rhyngwladol y tu allan i'r UE. Er enghraifft, mae sylwebwyr wedi amau a allai'r trefniadau dorri telerau rhai o gytundebau masnach ryngwladol y DU y tu hwnt i'r UE.

### Ein barn ni

**330.** Rydym wedi mynegi pryderon o'r blaen[218] ynghylch a yw rhai o benderfyniadau Llywodraeth y DU yn cydymffurfio â chyfraith ryngwladol, a'r risgiau cysylltiedig i Lywodraeth Cymru o'r penderfyniadau hynny.

**331.** Mewn ymateb i bryderon a godwyd gennym mewn cysylltiad â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau mewn perthynas â mesurau rheoli ffiniau a oedd yn codi cwestiynau o ran cydnawsedd â rheolau Sefydliad Masnach y Byd a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, dywedodd Lesley Griffiths AS, y cyn-Weinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, wrthym fod y rheoliadau perthnasol yn rhai "dros dro" a'u bod yn "angenrheidiol ac yn gymesur".[219]

**332.** Nodwn fod y trefniadau, y cyfeiriodd y cyn-Weinidog atynt fel rhai dros dro, yn parhau i fod ar waith.

**333.** Nid yw'n glir i ba raddau y gallai trefniadau sydd i'w negodi fel rhan o'r 'Common Understanding' godi materion cydymffurfio â rhwymedigaethau

[216] TCA02 – Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant – Senedd yr Alban, paragraff 5 [Saesneg yn unig]; TCA08 – Make UK, tudalennau 2–3 [Saesneg yn unig]; TCA04 – Logisics UK, tudalen 3 [Saesneg yn unig]; TCA09 – RSPCA Cymru, tudalen 3 [Saesneg yn unig]
[217] TCA15 – Undeb Amaethwyr Cymru, tudalen 2 [Saesneg yn unig]
[218] Er enghraifft, gweler paragraffau 31–38 a chasgliadau 2 a 3 o Adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor) (Tachwedd 2023) a pharagraffau 28–47 a chasgliadau 6 a 7 o Adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Protocol Gogledd Iwerddon (Tachwedd 2022).
[219] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: 3 Chwefror 2022

rhyngwladol y tu allan i'r UE. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r materion hyn wrth i'r negodiadau fynd rhagddynt.

**Argymhelliad 45.** Dylai Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, roi barn wedi'i diweddaru am gydymffurfedd trefniadau rheoli ffiniau â rheolau Sefydliad Masnach y Byd.

**Argymhelliad 46.** Dylai Llywodraeth Cymru roi ei barn yn ei hymateb i'r adroddiad hwn ynghylch a allai'r trefniadau sydd i'w negodi fel rhan o'r 'Common Understanding' rhwng y DU a'r UE godi materion cydymffurfedd â rhwymedigaethau rhyngwladol presennol Cymru, gan gynnwys cytundebau masnach y tu allan i'r UE.

## Gweithrediad Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020

**334.** Er mwyn darparu ar gyfer ei weithredu, ymgorfforwyd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yng nghyfraith y DU gan adran 29 o *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020* (Deddf 2020) sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth gael ei darllen yn unol â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn ôl-weithredol.

**335.** Mewn tystiolaeth i ymgynghoriad y Pwyllgorau, nododd Dr Richard Lang ddadleuon ymddangosiadol ynghylch adran 29 o Ddeddf 2020, yn benodol mewn cysylltiad ag is-adran (1) sy'n datgan y canlynol:

> *"Existing domestic law has effect on and after the relevant day with such modifications as are required for the purposes of implementing in that law the Trade and Cooperation Agreement or the Security of Classified Information Agreement so far as the agreement concerned is not otherwise so implemented and so far as such implementation is necessary for the purposes of complying with the international obligations of the United Kingdom under the agreement."*[220]

**336.** Mae Dr Lang yn datgan y gellid dadlau bod y ddarpariaeth hon yn gyfystyr â gwrthod bod yn gyfrifol am weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn briodol, yn peri risgiau go iawn i sicrwydd cyfreithiol ac, i'r graddau ei bod yn caniatáu i farnwyr ychwanegu at y llyfr statud, yn peryglu'r drefn briodol a, gellir

[220] TCA16 – Dr Richard Lang, paragraff 2.2 [Saesneg yn unig]

dadlau, ddemocratiaeth. Er mwyn ymateb i'r risg hon, mae Dr Lang yn galw am ddiwygio Deddf 2020 i sicrhau diogelu'r setliad datganoli.[221]

**Ein barn ni**

**337.** Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gan Dr Lang mewn cysylltiad â Deddf 2020, ac yn credu, mewn ymateb i bryderon o'r fath, y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ei hasesiad o weithrediad y Ddeddf, a'i goblygiadau i'r setliad datganoli.

**Argymhelliad 47.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ei hasesiad o weithrediad *Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020*, a'i goblygiadau i'r setliad datganoli, yng nghyd-destun pryderon a godwyd gyda phwyllgorau'r Senedd. Dylai hyn gynnwys sylwadau penodol ar adran 29.

## Cyfranogiad rhanddeiliaid

**338.** Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymdeithas sifil a busnesau, drwy Grŵp Cynghori Domestig y DU a Fforwm Cymdeithas Sifil y DU a'r UE. Fodd bynnag, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r unig gynrychiolydd sy'n benodol i Gymru ar y Grŵp Cynghori Domestig a'r Fforwm. Nid yw CGGC yn cael cymorth ariannol i gymryd rhan yn y strwythurau hyn.

**339.** Yn ein hadroddiad ar lywodraethiant y DU a'r UE, gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i ofyn am sicrwydd gan Lywodraeth y DU ar gyfer darparu cymorth ariannol priodol i sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y Grŵp Cynghori Domestig. Gwnaethom argymell, yn niffyg cyllid Llywodraeth y DU, y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ariannol yn lle hynny.[222] Mewn ymateb i'n hadroddiad, dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddarparu cyllid o'r fath, er y byddai'n mynd ar drywydd y mater ymhellach.[223]

**340.** Cynhaliodd Llywodraeth y DU adolygiad o aelodaeth y Grŵp Cynghori Domestig yn 2024, lle y galwodd am ddatganiadau o ddiddordeb gan sefydliadau cymdeithas sifil â chymhwyster addas ac annibynnol newydd.[224]

---

[221] TCA16 – Dr Richard Lang, paragraffau 2.2, 2.10, a 2.11 [Saesneg yn unig]
[222] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE – Tachwedd 2023, argymhellion 21 a 22
[223] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 14 Chwefror 2024, ymateb i argymhellion 21 a 22
[224] Llywodraeth y DU, Call for expressions of interest for membership of the UK's Domestic Advisory Group, Hydref 2024 [Saesneg yn unig]

**341.** Yn ein hadroddiad ar Lywodraethiant y DU a’r UE, gwnaethom hefyd alw ar Lywodraeth Cymru i gynnull grŵp cynghori newydd yn dilyn diddymu ei Grŵp Cynghori ar Ewrop ym mis Mai 2021.[225] Mewn ymateb, dywedodd Mark Drakeford AS, y cyn-Brif Weinidog, nad oedd yn bwriadu bwrw ymlaen â’r mater hwn fel blaenoriaeth, ac y byddai’n fater "i’r Prif Weinidog newydd ei ystyried yng nghyd-destun y berthynas esblygol rhwng y DU a’r UE o ran olaf 2024 ymlaen".[226] Yn ddiweddarach, cefnogodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol ein hargymhelliad ac[227], mewn ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai cynrychiolydd o’r sector diwylliant a/neu greadigol yn cael ei wahodd i ymuno â’i Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach fel rhan o adolygiad o’i gylch gorchwyl.[228]

**342.** Galwodd ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgorau am fwy o ran i ddiwydiant a/neu gynrychiolwyr datganoledig mewn unrhyw newidiadau a wneir i’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mewn cysylltiadau rhwng y DU a’r UE yn fwy cyffredinol ac mewn trefniadau domestig ar ôl Brexit, megis grwpiau cynghori a’r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a’r UE. Galwodd Logistics UK, er enghraifft, am gyfranogiad uniongyrchol busnesau mewn unrhyw newid o delerau yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[229]

**343.** Yn ei thystiolaeth, soniodd Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain fod y Gweithgor Cynhyrchion Meddyginiaethol rhwng y DU a’r UE yn sianel allweddol ac, fel aelod o’r Grŵp Cynghori Domestig, nododd gydweithrediad cadarnhaol â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.[230]

**344.** Mewn tystiolaeth flaenorol a gyflwynwyd i ni fel Pwyllgor, galwodd CGGC am gydgysylltu gweithgarwch Cymru yn well yn strwythurau llywodraethu gwahanol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[231]

**345.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet, yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgorau cyn y sesiwn dystiolaeth lafar a gynhaliwyd ar 2 Ebrill, fod ymgysylltiad

[225] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a’r UE – Tachwedd 2023, argymhelliad 19
[226] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 14 Chwefror 2024, ymateb i argymhelliad 19
[227] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, Sioc ddiwylliannol: Diwylliant a’r berthynas newydd â’r Undeb Ewropeaidd – Tachwedd 2024, argymhelliad 11
[228] Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad 'Sioc Ddiwylliannol' y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Rhagfyr 2024, ymateb i argymhelliad 11
[229] TCA04 – Logistics UK, tudalen 4 [Saesneg yn unig]
[230] TCA13 – Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain, tudalen 4 [Saesneg yn unig]
[231] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad – 26 Mehefin 2023, paragraffau 29–30

ffurfiol â rhanddeiliaid ar fasnach yr UE bellach yn digwydd drwy'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach. Esboniodd fel a ganlyn:

> *"Mae'r grŵp yn cynnwys cyrff busnes ambarél, sefydliadau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus, y byd academaidd a'r gymdeithas sifil. Yn ystod dau gyfarfod diwethaf y TPAG, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024 a Mawrth 2025, rydym wedi ceisio barn rhanddeiliaid ar y newidiadau y gellid eu gwneud drwy strwythur llywodraethu presennol y TCA, fel y pwyllgorau presennol sy'n llywodraethu gweithredu'r TCA; newidiadau y gellid eu gwneud fel rhan o'r adolygiad o'r TCA yn y dyfodol; a'r potensial ar gyfer Cytundeb Iechydol a Ffytoiechydol."*[232]

**346.** Mewn perthynas â chyfranogiad parhaus CGGC ar y Grŵp Cynghori Domestig a Fforwm Cymdeithas Sifil y DU a'r UE, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrth y Pwyllgorau ar 2 Ebrill:

> *"We support the WCVA through discussions and through regular meetings with them concerning the TCA, so that they're fully able to discuss their concerns with us. … another forum for those discussions would be the trade policy advisory group, which I chair … [that] is a really useful forum, and brings together some quite diverse perspectives."*[233]

**347.** Ysgrifennodd CGGC at y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2025 yn egluro ei ymgysylltiad a'i gysylltiad â Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y canlynol:

> *"… er ein bod wedi cadw mewn cysylltiad parhaus â Llywodraeth Cymru ar faterion amrywiol, nid ydym wedi cael ymgysylltiad ffurfiol, rheolaidd ar y Cytundeb."*[234]

---

[232] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig Yr adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, 19 Mawrth 2025, paragraff 4.6
[233] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 43
[234] CGGC: Cyflwyniad i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor y Diwylliant a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd, Gorffennaf 2025, tudalen 2

**348.** Mae CGGC yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd "yn ddiweddar iawn i ailgysylltu â'r agenda hon".[235]

### Ymgysylltiad rhanddeiliaid â phwyllgorau'r Senedd

**349.** Yn ein hadroddiad ar lywodraethiant y DU a'r UE, gwnaethom alw am ymgysylltiad mwy rheolaidd rhwng y Senedd a sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, ac am gymorth Comisiwn y Senedd i gyflawni hyn.[236] Mewn ymateb, cytunodd Comisiwn y Senedd i weithio gyda phwyllgorau perthnasol y Senedd i fwrw ymlaen â'r mater hwn.[237]

**350.** Ym mis Medi 2024, ac mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, hwylusodd y pedwar Pwyllgor Senedd a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio eu hystyriaeth o'r adolygiad.[238]

### Ein barn ni

**351.** Rydym yn cefnogi mwy o gynnwys rhanddeiliaid mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE, fel y cefnogwyd mewn tystiolaeth i'r pwyllgorau.

**352.** Nodwn fod Llywodraeth y DU wedi gwrthod ceisiadau Llywodraeth Cymru am gyllid i gefnogi sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y Grŵp Cynghori Domestig. O ystyried pwysigrwydd sicrhau bod sefydliadau Cymreig yn cymryd rhan yn strwythurau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, credwn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru roi diweddariad ar y mater hwn.

**Argymhelliad 48.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar drafodaethau â Llywodraeth y DU ar ddarparu cymorth ariannol i gyfranogwyr Grŵp Cynghori Domestig y DU.

**353.** Credwn y dylai Llywodraeth Cymru hefyd roi rhagor o wybodaeth am ei hymgysylltiad ag adolygiad Llywodraeth y DU yn 2024 o aelodaeth y Grŵp Cynghori Domestig, ac y dylai nodi'r camau a gymerodd i godi ymwybyddiaeth o ymgyrch datganiad o ddiddordeb yr adolygiad ymhlith y sefydliadau Cymreig.

---

[235] CGGC: Cyflwyniad i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor y Diwylliant a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd, Gorffennaf 2025, tudalen 2
[236] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE – Tachwedd 2023, argymhelliad 20
[237] Llythyr oddi wrth y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd: 6 Chwefror 2024, ymateb i argymhelliad 20
[238] Digwyddiad: Digwyddiad i randdeiliaid ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor i'r Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, 25 Medi 2024

**Argymhelliad 49.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut yr ymgysylltodd ag adolygiad Llywodraeth y DU yn 2024 o aelodaeth Grŵp Cynghori Domestig y DU, ac esbonio’r camau a gymerodd i godi ymwybyddiaeth ymhlith y sefydliadau Cymreig o ymgyrch datganiad o ddiddordeb Llywodraeth y DU.

**354.** Nodwn dystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet mewn cysylltiad â Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach Llywodraeth Cymru, y mae’n ei gadeirio. Fodd bynnag, byddem yn croesawu rhywfaint o eglurder ynghylch y cysylltiad – os o gwbl – rhwng y grŵp hwn a fforymau cymdeithas sifil y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

**355.** Os bydd y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach yn ffordd allweddol i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid ar negodiadau rhwng y DU a’r UE, credwn y dylai adolygu aelodaeth y grŵp hwnnw’n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gwbl gynrychioliadol o’r holl sectorau a sefydliadau y gellir effeithio arnynt.

**Argymhelliad 50.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro’r cysylltiad, os o gwbl, rhwng Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach Llywodraeth Cymru a fforymau cymdeithas sifil y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

**356.** Credwn hefyd y dylid darparu eglurder ynglŷn â mecanweithiau Llywodraeth Cymru ar gyfer monitro gwaith y Grŵp Cynghori Domestig a’r Fforwm Cymdeithas Sifil ac ymgysylltu ag ef, o ystyried rôl allweddol y fforymau hyn wrth gynghori ar weithredu’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac fel cyfrwng ar gyfer barn cymdeithas sifil mewn cysylltiad â’r cytundeb ei hun.

**Argymhelliad 51.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae’n monitro gwaith Grŵp Cynghori Domestig y DU a’r Fforwm Cymdeithas Sifil ac yn ymgysylltu ag ef.

**357.** Yn olaf, hoffem ddiolch i’r rhai a oedd yn bresennol yn sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid y Pwyllgorau, ac rydym yn credu y dylai ymgysylltu â rhanddeiliaid fod yn rhan allweddol o unrhyw waith yn y dyfodol gan bwyllgorau mewn cysylltiad â chysylltiadau rhwng y DU a’r UE.

## Alinio ac ymwahanu

**358.** Er nad yw’r cwestiwn ynghylch a ddylid ymwahanu oddi wrth gyfraith, polisi a safonau’r UE neu alinio â hwy’n rhan benodol o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â’r adolygiad, codwyd y mater gan y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgorau.

**359.** Dywedodd Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel y dylai unrhyw ymwahanu mewn polisi ymchwil fod drwy fwriad, ac nid drwy ddamwain na thrwy ganlyniadau anfwriadol newidiadau i bolisi domestig.[239]

**360.** Galwodd Pwyllgor Senedd yr Alban i Lywodraeth y DU edrych, mewn cydweithrediad â'r llywodraethau datganoledig, ar sefydlu a chyhoeddi mecanwaith ffurfiol i fonitro newidiadau perthnasol i gyfraith yr UE ac olrhain y gwahaniaeth sy'n dod i'r amlwg ac yn gynyddol mewn polisi neu safonau technegol rhwng yr UE a'r DU.[240] Nododd y Pwyllgor y tynnodd ei randdeiliaid sylw at y canlynol:

> *"… there is a need to seek closer regulatory alignment with the EU in order to address trade barriers. … supplementary agreements or adjustments to the TCA which the UK Government may wish to seek to reduce non-tariff barriers to trade will likely necessitate greater regulatory alignment for the UK with the EU. The reduction of such barriers will therefore depend on the extent of alignment the new UK Government is prepared to commit to in negotiations with the EU."*[241]

**361.** Yn yr un modd, datganodd y Sefydliad Safonau Prydeinig y canlynol:

> *"Without the UK rejoining the EU's Customs Union or Single Market, the most effective way however of reducing trade friction, in line with the growth priorities of the current UK government, is through addressing regulatory barriers to market access."*[242]

**362.** Roedd Logistics UK o'r un farn, gan ddweud y canlynol:

> *"… enhanced regulatory cooperation provides the biggest opportunity to improve bilateral trade relations. While the EU and UK pursue their respective regulatory agendas, divergence poses a significant and live threat to the free flow of goods and services."*[243]

---

[239] TCA06 – Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel, tudalen 6 [Saesneg yn unig]
[240] TCA02 – Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant – Senedd yr Alban, paragraff 15
[241] TCA02 – Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant – Senedd yr Alban, paragraff 9
[242] TCA03 – Y Sefydliad Safonau Prydeinig, adran 9 [Saesneg yn unig]
[243] TCA04 – Logistics UK, tudalen 4 [Saesneg yn unig]

**363.** Wrth ysgrifennu atom ym mis Chwefror 2024, dywedodd Mark Drakeford AS, y cyn-Brif Weinidog, gan nad yw'r DU yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE mwyach, nad yw Llywodraeth Cymru yn monitro datblygiadau polisi a datblygiadau deddfwriaethol yr UE fel mater o drefn "fel yr arferai wneud, o ystyried bod yr effaith uniongyrchol ar Gymru yn llawer llai arwyddocaol."[244]

**364.** Pan gafodd ei holi yn y sesiwn dystiolaeth ar 2 Ebrill a yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi aliniad agosach â'r UE, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"… there's definitely a case for alignment and benefits to be seen in alignment, but I think it would depend almost on a case-by-case basis as to what the specific details of that alignment might look like.*
>
> *…*
>
> *But, equally, we wouldn't want to be in a position where we were moving towards alignment in areas where we would see then a potential reduction in some of our standards or values around the environment, for example."*[245]

**365.** Mae'r 'Common Understanding' yn nodi y bydd y DU yn ceisio alinio â'r UE mewn tri maes sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig. Gallai aliniad deinamig y DU â'r UE ei gwneud yn ofynnol i reolau'r UE gael eu trosi'n gyfraith ddomestig, ac nid yw manylion am sut y bydd hyn yn cael ei wneud, a pha bwerau a chyfrifoldebau a fydd gan Weinidogion Cymru, wedi'u cadarnhau.

**366.** Fel Pwyllgor, rydym yn gyfrifol am graffu ar y rhaglen fframweithiau cyffredin. Mae fframweithiau cyffredin yn gytundebau rhwng y DU a llywodraethau datganoledig ar sut i reoli ymwahaniaeth mewn meysydd polisi penodol a arferai gael eu llywodraethu gan gyfraith yr UE.

**367.** Bydd llawer o'r meysydd lle y mae'r DU yn bwriadu alinio'n ddeinamig â'r UE yn dod o fewn meysydd sy'n cael eu llywodraethu gan fframweithiau cyffredin.

**368.** Mae cwblhau'r fframweithiau unigol wedi'i ohirio dro ar ôl tro. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn ar 9 Mehefin, dywedodd Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a

[244] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: 14 Chwefror 2024, ymateb i argymhelliad 2
[245] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Ebrill 2025, paragraff 59

Materion Gwledig, fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r rhaglen fframweithiau cyffredin, a dywedodd y canlynol.

> *"We think that the effective use of common frameworks could be that foundation of strong inter-government relations, so we are hopeful in our engagement with the UK Government—you'll notice I use that term; I'm not saying I am confident, I'm not saying I can guarantee, but I am hopeful, and you can read between the lines on that—that common frameworks can be lifted up once again to the position they should occupy within inter-governmental relations. We're having those discussions with the UK Government at the moment. I think there's more of a recognition now by this UK Government that common frameworks should be back in the game."*[246]

**369.** Pan gafodd ei holi pryd roedd yn disgwyl i'r fframweithiau gael eu cwblhau, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y mater hwn yn gysylltiedig â'r adolygiad o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU, a'r canlynol:

> *"… the sooner we can tie up the UKIMA review, which is in the control of the UK Government but we understand that that will not be long now, then we can get on to actually signing off on the common frameworks as well in their entirety."*[247]

**370.** Bydd y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, os caiff ei ddeddfu, hefyd yn darparu disgresiwn eang i Weinidogion y DU alinio'n unochrog â safonau'r UE mewn rhai meysydd ar gyfer rhai cynhyrchion.

### Ein barn ni

**371.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid a'r Ysgrifennydd Cabinet ar alinio â'r UE ac ymwahanu oddi wrtho.

**372.** Rydym hefyd yn nodi'r dull a ffefrir gan yr Ysgrifennydd Cabinet o wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid alinio neu ymwahanu fesul achos. Er mwyn gwneud hynny, bydd yn hanfodol i Lywodraeth Cymru fynd ati i fonitro aliniad â'r UE ac ymwahaniaeth oddi wrtho.

[246] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – 9 Ebrill 2025, paragraff 140
[247] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – 9 Ebrill 2025, paragraff 151

**373.** Rydym yn cefnogi argymhelliad Pwyllgor Senedd yr Alban, y dylai llywodraethau'r DU weithio gyda'i gilydd i ddatblygu mecanwaith canolog i fonitro newidiadau i gyfraith yr UE at ddibenion monitro aliniad ac ymwahaniaeth, a'i argymhelliad cysylltiedig y dylai llwyfan o'r fath fod ar gael i'r cyhoedd.

**374.** Credwn fod y 'Common Understanding' yn nodi datblygiad digynsail mewn aliniad ac ymwahaniaeth rhwng y DU a'r UE. Nid yw'n glir beth yw goblygiadau hyn i'r adolygiad o weithrediad.

**375.** Os yw'r bwriad a nodwyd yn y 'Common Understanding' yn dod i'r golwg, ac mae'r DU yn alinio'n ddeinamig â'r UE, mae rhaid ystyried sut y bydd cyfraith yr UE yn gymwys mewn meysydd datganoledig.

**376.** Mae rhaid ystyried hefyd pa oruchwyliaeth y bydd deddfwrfeydd y DU yn ei chael yn y broses hon.

**377.** Mae'r Pwyllgor hwn wedi pwysleisio'n barhaus bwysigrwydd y rhaglen fframweithiau cyffredin ar gyfer rheoli aliniad ac ymwahaniaeth yn y DU ar ôl Brexit. Wrth i'r DU geisio ailalinio â rheolau'r UE mewn meysydd cymhwysedd datganoledig, mae'n hanfodol bod y fframweithiau'n cael eu cwblhau heb ragor o oedi a bod eu rôl wrth reoli penderfyniadau a wneir ar alinio â'r UE yn cael ei hegluro.

**378.** Mae'r Pwyllgor hwn hefyd wedi mynegi pryderon am y pwerau a ddarperir i Weinidogion y DU gan y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg i alinio'n unochrog â safonau'r UE mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Mehefin 2025, dywedodd Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor, y canlynol:

> *"Yng ngoleuni'r cytundeb cyd-ddealltwriaeth gyffredin ddiweddar rhwng y DU a'r UE, sy'n gosod y sail ar gyfer yr aliniad cyntaf rhwng y ddau mewn meysydd cymhwysedd datganoledig, mae'n bwysig nad yw'r Bil yn cael ei ddefnyddio fel cynsail ar gyfer sut y caiff rheolau a rheoliadau perthnasol yr UE eu trosi yn y dyfodol i gyfraith y DU a Chymru."*[248]

**Argymhelliad 52.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw llywodraethau'r DU yn datblygu mecanwaith canolog i fonitro newidiadau i gyfraith yr UE at ddibenion monitro aliniad ac ymwahaniaeth.

[248] Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn, 3 Mehefin 2026, paragraff 480

**379.** Er ein bod yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn monitro datblygiadau polisi a deddfwriaethol yr UE yn systematig yn y ffordd yr arferai wneud pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth, credwn y dylai ddarparu eglurder ynghylch sut y mae wedi canfod a yw aliniad ac ymwahaniaeth wedi digwydd rhwng y DU a'r UE, a rhwng Cymru a'r UE, ers ymadawiad y DU â'r UE.

**Argymhelliad 53.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae wedi canfod a yw aliniad ac ymwahaniaeth wedi digwydd rhwng y DU a'r UE, a rhwng Cymru a'r UE, ers ymadawiad y DU â'r UE.

**Argymhelliad 54.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio eglurder ar sut y bydd cyfraith yr UE yn gymwys yn y DU os yw am alinio'n ddeinamig â'r UE. Dylai sicrhau bod y broses hon yn parchu rôl y llywodraethau a deddfwrfeydd datganoledig.

**380.** Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ailadrodd i Lywodraeth y DU bwysigrwydd hanfodol cwblhau fframweithiau cyffredin heb ragor o oedi.

**Argymhelliad 55.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa rôl a fydd gan fframweithiau cyffredin wrth wneud penderfyniadau ynghylch aliniad y DU â'r UE.

## Digonolrwydd data'r UE

**381.** Fel rhan o'n hystyriaeth o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), nodwyd a rhannwyd pryderon Llywodraeth Cymru bod y Bil yn peri risg i benderfyniad digonolrwydd data'r DU.[249]

**382.** Ar y pryd, nodwyd barn Llywodraeth Cymru bod colli penderfyniadau digonolrwydd data'r UE yn "fygythiad mawr i fusnesau sy'n allforio o Gymru y mae eu prif farchnad dramor yn parhau i fod yr UE"[250], ac y gallai'r Bil nodi dechrau ymwahaniad y DU oddi wrth y drefn diogelu data sydd ar waith ar hyn o bryd ar draws yr UE drwy wanhau'r diogelwch a ddarperir gan ddeddfwriaeth y DU[251].

**383.** Er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor na fydd y Bil "yn cael effaith uniongyrchol" ar gydymffurfiad y DU â'r Cytundeb Masnach a

[249] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad) – Mawrth 2025, casgliad 7
[250] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: 5 Chwefror 2025, paragraff 7
[251] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: 5 Chwefror 2025, paragraff 3

Chydweithredu[252], nodwyd bod cydweithredu ar ddiogelu data personol yn un o wyth sylfaen cydweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[253]

**384.** Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU rannu copi o'i hasesiad risg ar effaith bosibl y Bil ar ddigonolrwydd data'r UE. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym nad oedd Llywodraeth y DU yn "ystyried ei bod yn briodol rhannu eu hasesiad", gan nodi pwysigrwydd disgresiwn tra bo adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd ar y gweill er mwyn i'r Comisiwn Ewropeaidd allu cynnal y broses o benderfynu ar ddigonolrwydd yn wrthrychol ac yn annibynnol.[254]

**385.** Ar adeg cytuno ar yr adroddiad hwn, roedd y Bil wedi cyrraedd cyfnodau olaf ei hynt drwy Senedd y DU, ar ôl cael cydsyniad y Senedd[255] i'r Bil gynnwys darpariaeth ddatganoledig ar 6 Mai 2025.

## Ein barn ni

**386.** Hoffem achub ar y cyfle hwn i dynnu sylw at ganfyddiadau ein hadroddiadau ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad) yng nghyd-destun yr adolygiad.

**387.** Fel y nodwyd uchod, er ein bod yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y Bil yn cael effaith ar gydymffurfedd y DU â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, rydym yn rhannu pryderon Llywodraeth Cymru bod y Bil yn peri risg i benderfyniadau digonolrwydd data'r DU.

[252] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: 5 Chwefror 2025, paragraff 1
[253] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad) – Mawrth 2025, paragraff 116
[254] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: 24 Ebrill 2025, tudalen 7
[255] Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn – 6 Mai 2025, eitem 5

# Atodiad 1 Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **02 Ebrill 2025** | **Rebecca Evans AS,**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio<br>**Andrew Gwatkin,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**David Warren,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Emily Hole,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2 Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **TCA 01** | Acanthophyllum Books |
| **TCA 02** | Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant, Senedd yr Alban: |
| **TCA 03** | Y Sefydliad Safonau Prydeinig |
| **TCA 04** | Logistics UK |
| **TCA 05** | Taith |
| **TCA 06** | Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel |
| **TCA 07** | Dr Elin Royles, Dr Carolyn Rowe a Dr Rachel Minto |
| **TCA 08** | Make UK |
| **TCA 09** | RSPCA Cymru |
| **TCA 10** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **TCA 11** | Teledwyr Annibynnol Cymru |
| **TCA 12** | Cymdeithas Crefftau Garddwriaethol |
| **TCA 13** | Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain |
| **TCA 14** | Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain |
| **TCA 15** | Undeb Amaethwyr Cymru |
| **TCA 16** | Dr Richard Lang |
| **TCA 17** | Cymru Dros Ewrop |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Yr adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, 19 Mawrth 2025 | 19 Mawrth 2025 |